beaufortresearch

Agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru

Canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu

Paratowyd ar gyfer
Llywodraeth Cymru

Paratowyd gan
Beaufort Research a Cazbah

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

beaufortresearch

Cazbah

Manylion cyswllt

Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Adam Blunt

Agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru: canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu

Mehefin 2022

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau'r contract

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2022

Cynhyrchwyd yn unol ag ISO20252

Cynnwys

1. Crynodeb a chasgliadau **5**
2. Cefndir yr ymchwil, ei hamcanion a'r dull o'i chyflawni **11**
2.1 Cefndir 11
2.2 Amcanion ymchwil 12
2.3 Dull o gyflawni'r ymchwil 12
2.4 Cyfyngiadau ar y dull ymchwil 16
2.5 Holiaduron, canllawiau trafod a llunio adroddiad 17
CANFYDDIADAU **18**
3. Lefelau bodlonrwydd ar y flwyddyn ysgol ar y cyfan **18**
3.1 Lefelau bodlonrwydd ar y cyfan ar draws y gwahanol grwpiau o gyfranogwyr 18
3.2 Barn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai Llywodraeth Cymru fod yn adolygu'r flwyddyn ysgol 21
4. Rhesymau dros fod yn fodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru **25**
4.1 Mae'r system yn gweithio ac yn cael ei deall 25
4.2 Y chwe wythnos o wyliau haf 28
4.3 Cysondeb â Lloegr 33
4.4 Mae'r gwyliau ysgol yn cyd-daro â'r Pasg 34
5. Materion canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru **35**
5.1 Y chwe wythnos o wyliau haf 35
5.2 Hydoedd tymhorau a'r Pasg 42
5.3 Materion canfyddedig ychwanegol 49
6. Syniadau ar gyfer blwyddyn ysgol amgen yng Nghymru **51**
6.1 Awgrymiadau digymell cyfranogwyr ar gyfer blwyddyn ysgol amgen (adborth ansoddol) 53
6.2 Ymatebion cyfranogwyr i newid agweddau ar y flwyddyn ysgol 60
7. Adweithiau i fodelau amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol **64**
7.1 Hoff ddewisiadau ar y cyfan o ran modelau ar gyfer y flwyddyn ysgol 65
7.2 Adweithiau i'r tri model amgen 67
Atodiad A – negeseuon i'r Gweinidog o'r digwyddiadau gyda rhanddeiliaid **85**
Atodiad B – holiaduron yr arolwg meintiol a chanllawiau trafod testunau'r grwpiau ffocws **89**

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Barn ynglŷn â pha mor briodol yw strwythur presennol y flwyddyn ysgol ar gyfer bywydau pobl y dyddiau hyn* (%) 19
Ffigur 2: Agweddau at y flwyddyn ysgol - 1 (%) 20
Ffigur 3: Agweddau at y flwyddyn ysgol - 2 (%) 21
Ffigur 4: Barn ynglŷn â pha mor dda y mae'r flwyddyn ysgol bresennol yn cydweddu ag ymrwymiadau teuluol neu ymrwymiadau gwaith (%) 26
Ffigur 5: Barn ynglŷn â hyd y gwyliau ysgol o chwe wythnos ar hyn o bryd (%) 36
Ffigur 6: Hyd gwyliau'r haf a gofal plant (%) 40
Ffigur 7: Barn ynglŷn â hydoedd tymhorau / hydoedd gwyliau - 1 (%) 43
Ffigur 8: Barn ynglŷn â hydoedd tymhorau / hydoedd gwyliau – 2 (%) 44
Ffigur 9: Pa un a oeddent o blaid ynteu yn erbyn newidiadau i'r flwyddyn ysgol yng Nghymru (%) 61
Ffigur 10: Hoff ddewis ar gyfer strwythur y flwyddyn ysgol ar gyfer y dyfodol (%) 66
Ffigur 11: Barn ynglŷn â Model Amgen A (%) 67
Ffigur 12: Barn ynglŷn â Model Amgen B (%) 72
Ffigur 13: Barn ynglŷn â Model Amgen C (%) 79

Rhestr o'r tablau

Tabl 1: Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu gwneud i'r ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru (digymell)? (%) 52
Tabl 2: Rhesymau dros fod o blaid newidiadau i'r flwyddyn ysgol (digymell) (%) 62
Tabl 3: Rhesymau dros fod yn erbyn newidiadau i'r flwyddyn ysgol (digymell) (%) 63

1. Crynodeb a chasgliadau

Cyflwyniad

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Beaufort Research, mewn partneriaeth gyda Cazbah, i gynnal ymarfer ymchwil ac ymgysylltu er mwyn archwilio agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru. Roedd y prosiect yn cynnwys cael adweithiau i syniadau ar gyfer modelau amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Fe ymgysylltwyd ag ystod eang o gynulleidfaoedd fel rhan o'r broses a hwythau'n cynnwys dysgwyr, y gweithlu addysg, rhieni / gofalwyr, busnesau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Defnyddiwyd arolygon meintiol ar-lein, digwyddiadau ymgysylltu ar-lein, grwpiau ffocws ar-lein a chyfweliadau manwl i gael barn pobl am y testun. Ar y cyfan, **cymerodd 13,016 o bobl ran** ar draws y gwahanol ddulliau hyn. Fe wnaed gwaith maes rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth 2022.

Canfyddiadau allweddol

Mae cyfranogwyr yn weddol fodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol ond maent yn agored i ystyried newid

Roedd y mwyafrif o gyfranogwyr **yn fodlon** ar siâp y flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru. Yn yr arolygon meintiol, roedd rhieni, dysgwyr, y gweithlu addysg a busnesau'n dangos lefelau bodlonrwydd uwch na'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedodd oddeutu wyth ymhob deg o rieni / gofalwyr (76%), plant a phobl ifanc 7 i 18 oed mewn addysg (76%), y rhai sy'n gweithio ym myd addysg yng Nghymru (78%) a busnesau / rheolwyr (79%) eu bod yn teimlo bod y flwyddyn ysgol bresennol 'yn briodol ar gyfer bywydau pobl y dyddiau hyn' (neu, ar gyfer dysgwyr, eu bod 'yn hapus gyda sut y mae tymhorau a gwyliau'r flwyddyn ysgol wedi'u gwasgaru ar hyn o bryd'), o'i gymharu â saith ymhob deg (69%) o'r cyhoedd a ddywedodd hyn. Roedd rhanddeiliaid yn llai bodlon na grwpiau eraill, gydag oddeutu chwech ymhob deg yn y digwyddiadau ar-lein yn dweud eu bod yn fodlon ar 'drefn y flwyddyn ysgol ar hyn o bryd'.

Serch hynny, roedd cyfranogwyr yn fwy tebygol o fod yn **'weddol'** fodlon nag yn fodlon 'iawn' arni. Mae hyn, ar y cyd â'r adborth ansoddol ymhlith gwahanol grwpiau, ymatebion i gyfres o ddatganiadau yn yr arolwg am newid, ac adweithiau i fodelau amgen a brofwyd (gweler isod) yn dynodi bod pobl yn **agored** i newid.

Nid yw pobl o anghenraid wedi meddwl rhyw lawer am strwythur y flwyddyn ysgol cyn y gofynnir iddynt, felly mae rhai'n **derbyn** y sefyllfa fel ag y mae. Pan drafodir y testun mewn mwy o fanylder, mae pobl yn agored iawn i newid yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg meintiol.

Serch hynny, roedd rhai o'r cyfranogwyr a oedd ag amheuon am newid yn teimlo'n gryf na ellid diwygio'r flwyddyn ysgol o gwbl heb **'dystiolaeth galed'** o'r rhesymau pam fod angen ei diwygio a pha wahaniaeth fyddai newid yn ei wneud.

Roedd rhai'n dadlau, os oedd cyrhaeddiad dysgwyr a chefnogi dysgwyr mwy agored i niwed yn seiliau rhesymegol allweddol dros newid, y dylid defnyddio **ymyriadau wedi'u targedu** ar gyfer y dysgwyr hyn a'u teuluoedd, yn hytrach na newid model presennol yr ystyrid ei fod yn fuddiol i lawer.

Roedd system adnabyddus sy'n gweithio, gwyliau buddiol am chwe wythnos, trefn sy'n gyson â Lloegr a diffyg tystiolaeth o faterion ymhlith y rhesymau a roddwyd dros fod yn fodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol

Roedd oddeutu **hanner aelodau'r cyhoedd** (54%) a arolygwyd yn teimlo bod patrwm presennol y flwyddyn ysgol '**yn cydweddu'n dda** â'u hymrwymiadau teuluol neu eu hymrwymiadau gwaith', ac felly hefyd **dros saith ymhob deg o rieni / gofalwyr** (74%) a **busnesau** (71%). Ar ben hynny, roedd dros **chwech ymhob deg** cyfranogwr yn arolwg y **gweithlu addysg** (64%) yn teimlo bod y flwyddyn ysgol bresennol yn 'cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr ac yn mynd i'r afael ag anfantais'. Fe wnaeth lleiafrif mawr o bron i dri ymhob deg (29%) fynegi barn i'r gwrthwyneb, serch hynny.

Fe wnaeth y rhai a oedd o blaid y flwyddyn ysgol bresennol yn y trafodaethau manwl amlygu ystod o fanteision canfyddedig. Roedd yn **system gyfarwydd a oedd yn gweithio** ac yr oedd y sector, dysgwyr, rhieni a busnesau wedi addasu iddi a chysoni â hi. Roedd rhai'n fwy parod i dderbyn y model presennol yn hytrach na theimlo'n gryf ynglŷn ag ef.

Roedd y **gwyliau am chwe wythnos** yn cael eu gwerthfawrogi ymhlith dysgwyr (e.e. ar gyfer lles, treulio amser gyda ffrindiau, dim pwysau gwaith ysgol a chael swydd), y gweithlu addysg (e.e. cyfle i gael eu cefn atynt a dadflino'n iawn er ei bod yn dal yn ofynnol gwneud rhywfaint o waith; a'u pwysigrwydd ar gyfer recriwtio a chadw), busnesau twristiaeth (e.e. wythnosau hollbwysig ar gyfer refeniw a ffynhonnell dda o ran staff achlysurol ymhlith dysgwyr hŷn) a rhai teuluoedd (e.e. hyblygrwydd ar gyfer gwyliau ysgol, amser teuluol o safon, gweithgareddau gyda'r plant ac ymweld â theulu dramor). Pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol fel rhan o'r arolygon am briodoldeb y gwyliau o chwe wythnos yn yr haf, serch hynny, roedd cyfran uwch o bob cynulleidfa (gan gynnwys y gweithlu addysg) yn teimlo y **dylent fod yn fyrrach** na'r gyfran oedd yn fodlon ar eu hyd presennol.

Roedd y flwyddyn ysgol bresennol hefyd yn **gyson â Lloegr**, gan fod o fudd i deuluoedd, ysgolion a busnesau â chysylltiadau dros y ffin, yn ogystal â dysgwyr o safbwynt amserlennu arholiadau.

Mynegwyd y farn bod cadw'r gwyliau **Pasg** presennol yn bwysig iawn i ysgolion ffydd a sut yr oedd eu cwricwlwm hwy wedi'i drefnu. Yn draddodiadol, roedd y gwyliau hyn hefyd yn nodi dechrau'r tymor twristiaeth yng Nghymru ac yn galluogi rhieni sy'n gweithio i gyfuno gwyliau banc â'u gwyliau blynyddol.

Fodd bynnag, doedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn yr arolygon **ddim barn gref** pa un a ddylai Gŵyl Banc y **Pasg** fod yn ystod gwyliau ysgol ynteu yn ystod y tymor. Dywedodd oddeutu chwech ymhob deg o'r cyhoedd a busnesau nad oedd gwahaniaeth ganddynt y naill ffordd na'r llall, ac felly hefyd ychydig dros hanner y gweithlu addysg a rhieni. Ond roedd dysgwyr ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod yn well ganddynt i'r Pasg fod yn ystod gwyliau ysgol nag oeddent o ddweud nad oedd gwahaniaeth ganddynt y naill ffordd na'r llall (sef 44% o'i gymharu â 41% yn y drefn honno).

Mae gwyliau haf sy'n rhy hir a materion gyda hyd tymhorau'n dod i'r amlwg fel rhesymau allweddol dros fod yn anfodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol

Roedd materion canfyddedig a oedd yn codi o'r **gwyliau o chwe wythnos yn yr haf** yn amlwg ymhlith yr anfanteision sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol bresennol. Mynegwyd barn fod plant yn profi **colled dysgu** yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig ac agored i niwed a'r rhai mewn ysgolion Cymraeg sydd o gartrefi di-Gymraeg.

Roedd bod heb amgylchedd cefnogol yr ysgol dros chwe wythnos, ynghyd â'i orchwylion rheolaidd, yn cael ei ystyried yn arbennig o niweidiol i **ddysgwyr agored i niwed** a'r rhai ag **anghenion dysgu ychwanegol**.

Roedd nifer fach o **feithrinfeydd** sy'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn cael y byddent yn 'colli'r' **plant mwy agored i niwed** dros wyliau'r haf gan arwain at faterion iechyd a lles a phryderon ynghylch lles y plant.

Yn fwy eang, gallai dysgwyr ddechrau **diflasu** tuag at ddiwedd gwyliau'r haf a gallai'r diffyg gorchwylion rheolaidd gael effaith arnynt.

Roedd y gwyliau hir yn ystod yr haf yn her weithiau o safbwynt rhianta er enghraifft trefnu a thalu am **ofal plant** a gorfod cymryd gwyliau teuluol ar yr **adeg ddrutaf o'r flwyddyn**. Dadleuwyd hefyd fod llawer o **fenywod sy'n rhedeg busnesau llai** yn gorfod blaenoriaethu gofal plant yn ystod gwyliau'r haf am bod ei gost yn fwy na'r elw posibl.

Roedd **tymhorau amrywiol a hwy** yn faterion allweddol pellach a nodwyd, gyda chyfranogwyr yn dweud eu bod yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr a staff addysg (e.e. gyda blinder, ymddygiad dysgwyr, colli momentwm a diffygio) ac ysgolion (e.e. cynllunio unedau gwaith). Dywedodd rhai y byddai **dyddiadau tymhorau penodedig** yn dwyn mwy o fanteision, gan fynd i'r afael â rhai o'r materion a grybwyllwyd uchod.

Roedd gwyliau haf byrrach a thymhorau mwy cyfartal ymhlith awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer blwyddyn ysgol amgen

Fe wnaeth cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau manwl a oedd yn agored i flwyddyn ysgol amgen awgrymu **byrhau gwyliau'r haf** o wythnos neu ddwy am y rhesymau a ddisgrifir uchod. Roedd y farn o ran ble y dylid gosod yr wythnosau a dynnwyd i ffwrdd yn amrywio. Roedd enghreifftiau'n cynnwys eu gosod ar adegau eraill cynhesach o'r flwyddyn, eu defnyddio i rannu'r tymor hwy yn yr hydref a'u hychwanegu at wyliau'r Nadolig.

Roedd dysgwyr a busnesau'n fwy tebygol o ddylunio blwyddyn **debyg iawn i'r flwyddyn bresennol** am eu bod yn hapus ar y cyfan gyda'r sefyllfa fel ag y mae.

Roedd rhieni a rhanddeiliaid yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau'n tueddu i awgrymu **pedair wythnos o wyliau haf**.

Roedd awgrymiadau ychwanegol yn canolbwyntio ar geisio gwneud y **tymhorau'n fwy cyfartal**. Er enghraifft, fe awgrymodd rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg y gellid cael tymhorau o hyd mwy cyfartal a thymor byrrach yn yr hydref.

Er gwaethaf lefelau bodlonrwydd rhesymol ar y flwyddyn ysgol bresennol, mae cyfranogwyr yn agored iawn i rai modelau amgen a brofwyd - ac mae mwyafrif bach o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn dewis model amgen sy'n wahanol i'r un presennol

Rhoddir enghreifftiau o ymatebion i bob model isod. Dylid nodi nad oedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod unrhyw **dystiolaeth bresennol** i ategu newid i unrhyw un o'r modelau a ddangosir.

Model A: mae'n cynnwys tri thymor ysgol sydd oddeutu 13 wythnos o hyd. Mae gan bob tymor wyliau o un wythnos hanner ffordd drwodd. Mae tymor yr hydref yn fyrrach na'r un presennol gyda thair wythnos dros y Nadolig. Ceir pum wythnos o wyliau yn yr haf yn lle chwech.

Mae enghreifftiau o'r manteision canfyddedig yn cynnwys:	Mae enghreifftiau o'r anfanteision canfyddedig yn cynnwys:
• Dyma sydd agosaf at y flwyddyn ysgol bresennol felly cafodd dderbyniad mwy cadarnhaol ymhlith y rhai y mae arnynt eisiau cadw'r strwythur presennol. • Mae'n cynnig cyfle da i staff gael eu cefn atynt a dadflino. • Mae'r proffesiwn addysgu'n dal i fod yn ddeniadol gyda gwyliau hir dros yr haf. • Mae tymor yr hydref yn fyrrach, sydd o fudd i ddysgwyr a staff. • Mae tair wythnos dros y Nadolig yn ddeniadol i rai teuluoedd; gallai olygu mwy o ymweliadau ag atyniadau twristaidd hefyd.	• Ni fydd yn gwneud llawer o wahaniaeth ac nid yw'n werth yr ymdrech i'w roi ar waith. • Mae'r wythnos ychwanegol adeg y Nadolig yn golygu mwy o amser dan do i blant a bydd yn niweidiol i ddysgwyr agored i niwed. • Nid yw'n hyfyw i rai busnesau twristiaeth golli wythnos broffidiol iawn yn yr haf.

Model B: mae'n cynnwys pum tymor ysgol sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd. Ceir pedair wythnos o wyliau haf yn lle chwe wythnos a cheir tair wythnos dros y Nadolig. Ceir pythefnos o wyliau ym mis Hydref, mis Chwefror / Mawrth a mis Mai.

Mae enghreifftiau o'r manteision canfyddedig yn cynnwys:	Mae enghreifftiau o'r anfanteision canfyddedig yn cynnwys:
• Mae haf byrrach yn gweddu i ddysgwyr iau, dysgwyr agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. • Mae'n teimlo'n fwy cytbwys a gwasgarog. • Bydd gwyliau haf byrrach yn lleihau colled dysgu. • Mae'n darparu mwy o hyblygrwydd o ran pryd all teuluoedd gymryd gwyliau hwy. • Mae'n creu mwy o sicrwydd gyda chynllunio ysgol ac mae'n haws addysgu unedau gwaith.	• Nid yw gwyliau haf byrrach yn galluogi dysgwyr a staff y gweithlu addysg i anghofio am waith a chael eu cefn atynt yn iawn. • Mae dychwelyd ym mis Awst yn creu cymhlethdodau sefydliadol mewn ysgolion. • Bydd yn cynyddu prisiau gwyliau gyda gwyliau haf sydd dros cyfnod cywasgedig. • Mae'n cywasgu cyfnod hanfodol o ran incwm i nifer o fusnesau twristiaeth, gan effeithio'n ddifrifol ar y diwydiant.

• Mae gwyliau sy'n para am bythefnos yn creu mwy o gyfleoedd i staff gael eu cefn atynt.	• Mae'r wythnos ychwanegol dros y Nadolig yn golygu mwy o amser dan do i blant. • Caiff y diffyg cysondeb â Lloegr ei nodi fel problem.

Model C: mae'n cynnwys chwe thymor ysgol sy'n para am oddeutu chwech i saith wythnos. Tua phythefnos o hyd yw pob cyfnod o wyliau ysgol ac eithrio'r gwyliau haf sy'n para am dair wythnos.

Mae enghreifftiau o'r manteision canfyddedig yn cynnwys:	Mae enghreifftiau o'r anfanteision canfyddedig yn cynnwys:
• Mae'n darparu mwy o gysondeb ar draws y flwyddyn ysgol sydd o fudd i ddysgu a cholled dysgu, plant agored i niwed a'r rhai ac anghenion dysgu ychwanegol. • Mae'n rhoi gwyliau i ddysgwyr edrych ymlaen atynt yn amlach. • Mae gwyliau rheolaidd yn golygu llai o risg bod athrawon a dysgwyr yn diffygio. • Mae'n cynnig mwy o gyfle ar gyfer amser gyda'r teulu ac i archebu gwyliau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.	• Mae gwyliau'r haf yn rhy fyr a bydd hynny'n effeithio ar les athrawon a dysgwyr. • Mae gormod o'r wythnosau gwyliau yn ystod cyfnodau â thywydd gwael a nosweithiau tywyllach. • Mae'n teimlo'n rhy gatrodol ac undonog. • Mae'n creu risg uchel y bydd athrawon yn gadael y proffesiwn. • Ceir pryderon ynghylch diffyg cysondeb â threfniadau amserlennu arholiadau yn y DU. • Bydd y gwyliau byr yn yr haf yn lleihau incwm busnesau twristiaeth yn sylweddol ac yn bygwth hyfywedd busnesau. • Bydd yn cynyddu prisiau gwyliau gyda gwyliau haf sydd dros gyfnod cywasgedig.

Casgliadau

Mae'r gweithgarwch ymchwil ac ymgysylltu hwn wedi ennyn ystod eang o safbwyntiau am y flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru a sut, os o gwbl, y gellid ei diwygio.

Er gwaethaf lefelau eang o fodlonrwydd gweddol ar siâp y flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru, mae'r canlyniadau'n dynodi, ar lefel gyffredinol, bod cyfranogwyr yn agored i ystyried newid i'w strwythur. Meysydd ffocws allweddol yw byrhau'r chwe wythnos o wyliau haf, hyd tymhorau a chyfartalwch rhwng tymhorau.

Fodd bynnag, mae rhai'n teimlo'n gryf iawn na ellir diwygio'r flwyddyn ysgol heb dystiolaeth bendant gymhellol (nad yw'n seiliedig ar ganfyddiad na barn) o'r rhesymau pam fod angen hynny a pha wahaniaeth fyddai'n ei wneud. Byddai angen sicrwydd hefyd y byddai'r system gyfan yn cael ei hystyried (e.e. yr effaith ar gyfresi arholiadau a sicrhau nad oedd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais, a'r effaith ar amodau'r gweithlu addysg). Ceir pryderon hefyd yn y sector twristiaeth y byddai byrhau gwyliau'r haf yn dwyn canlyniadau difrifol ar gyfer diwydiant sy'n hollbwysig i economi Cymru.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu bwrw ymlaen â'r polisi, argymhellir bod ymgysylltu pellach yn digwydd i sicrhau digon o gynrychiolaeth o wahanol grwpiau. Byddai rhieni a gofalwyr i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai o gefndiroedd arbennig o ddifreintiedig, ysgolion ffydd a'r rhai sy'n dilyn ffydd, sectorau busnes penodol a darparwyr gofal plant oll yn cael budd o gael eu cynrychioli'n fwy ym mhroses ymgynghori Llywodraeth Cymru. Hefyd, byddai angen archwiliad manwl o ganlyniadau newid ar gyfer cyfresi arholiadau, gan gynnwys eu heffaith bosibl ar ddysgwyr, ac ar gyfer teuluoedd ac ysgolion sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, yn ogystal ag ar gyfer busnesau â staff ar draws y ddwy wlad.

2. Cefndir yr ymchwil, ei hamcanion a'r dull o'i chyflawni

2.1 Cefndir

O fewn ei Rhaglen Lywodraethu (Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol'. Mae'r Llywodraeth yn ymchwilio i'w diwygio er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau addysgol, cefnogi lles dysgwyr a staff a gwneud i'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol gyd-fynd yn fwy â phatrymau bywyd a chyflogaeth yn yr oes sydd ohoni.

Mae'r flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru, y mae a wnelo'r adroddiad hwn â hi, yn dechrau ym mis Medi ac yn gorffen ganol mis Gorffennaf. Mae'n cefnogi 190 diwrnod neu 380 sesiwn addysgu sydd oddeutu chwe awr a hanner o hyd. Mae'n fodel cymesur ar y cyfan gyda thri thymor sydd oddeutu 10 wythnos o hyd, gyda thair wythnos yn fwy neu'n llai.

Mae'r hanner tymhorau'n amrywio o ran hyd hefyd, rhwng pedair a saith wythnos. Mae pob tymor yn cynnwys un wythnos o wyliau hanner tymor. Mae gwyliau'r haf yn para am oddeutu chwe wythnos, ac mae gwyliau'r Nadolig a'r Pasg yn para am oddeutu pythefnos yr un.

Mae llunwyr polisïau, addysgwyr a llywodraethau ledled y byd yn trafod ac yn ystyried newid rhythm y flwyddyn ysgol fel ymateb polisi hirdymor i bandemig Covid-19. Mae'r rhesymeg yn amrywio ond mae pryderon cyffredin yn cynnwys osgoi a mynd i'r afael â cholled dysgu, cydweddiad gwell â phatrymau gweithio a theuluol sy'n newid, cydraddoldeb mewn cyrhaeddiad a mwy o gyfleoedd ar gyfer profiadau cymdeithasol a diwylliannol ehangach[1].

A rhoi'r pandemig o'r neilltu, mae strwythur presennol y flwyddyn ysgol yn adlewyrchu trefniadau gwaith a bywyd hanesyddol sy'n dyddio o'r 19eg ganrif. Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o agweddau ar y system addysg yng Nghymru wedi datblygu a newid[2]. Mae'r rhain yn cynnwys cwricwlwm ysgol newydd i Gymru[3], mwy o gymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r ffordd y caiff athrawon eu hyfforddi ymhlith meysydd eraill. Ni fu trafodaeth ddifrifol am amser hir ynglŷn â'r ffordd y caiff y calendr ysgol ei strwythuro, er ei fod yn ganolog i'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu a sut yr ydym yn rheoli ein bywydau gwaith a phersonol.

Fe wnaeth Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD) gan Lywodraeth Cymru, 'Effaith newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgol amgen: adolygu tystiolaeth (crynodeb)'[4], a

---

[1] Gweler https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/ail-greu-addysg-yng-nghymru-diwygio-r-flwyddyn-ysgol-a-r-diwrnod-ysgol/

[2] Ar gyfer enghreifftiau, gweler https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/rhoi-diwygiadau-mawr-ym-maes-addysg-ar-waith/; https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/cymwysterau-ar-gyfer-y-dyfodol-ail-ddychmygu-cymwysterau-yng-nghymru/; https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/

[3] Gweler https://llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid

[4] Gweler https://llyw.cymru/effaith-newidiadau-ir-flwyddyn-ysgol-chalendrau-ysgol-amgen-adolygu-tystiolaeth-crynodeb-html

gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022, archwilio a gwerthuso'r dystiolaeth a oedd ar gael ar effeithiau diwygio calendrau ysgol, a chalendrau ysgol amgen. Roedd canfyddiadau'r ACD yn gymysg ac amhendant. Un o argymhellion allweddol y gwaith, felly, oedd y dylai unrhyw raglen arfaethedig i newid y calendr ysgol yng Nghymru ymgorffori proses drylwyr ac o ansawdd da i gasglu tystiolaeth, ar bob cam, o'r camau cynllunio ac ymgynghori, i nodi rhesymeg glir, ac i asesu'r broses o roi'r newid ar waith ac effaith y newid.

Felly mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i gasglu barn pobl am y flwyddyn ysgol bresennol a'u barn am y potensial ar gyfer diwygio. Mae hefyd yn bwysig deall beth mae cynulleidfaoedd allweddol yn meddwl allai unrhyw newid ei olygu ar gyfer y berthynas rhwng rhythm y flwyddyn ysgol a phatrymau gwaith a theuluol.

Cafodd Beaufort Research, mewn partneriaeth gyda Cazbah, gomisiwn i wneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu ar y pwnc yma gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Bydd y gweithgareddau hyn yn bwydo i mewn i ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru.

2.2 Amcanion ymchwil

Y nod ar y cyfan oedd cael mewnwelediad i agweddau at strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru a'r awch am newid trwy:

- Gasglu barn pobl am y flwyddyn ysgol bresennol gan gynnwys manteision ac anfanteision canfyddedig
- Ymchwilio i sut, os o gwbl, yr hoffai cynulleidfaoedd allweddol weld y flwyddyn ysgol yn cael ei haddasu
- Cael adweithiau i dri model amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol:
    - **Model A** sy'n cynnwys tri thymor ysgol sydd oddeutu 13 wythnos o hyd. Mae gan bob tymor wyliau o un wythnos hanner ffordd drwodd. Mae tymor yr hydref yn fyrrach na'r un presennol gyda thair wythnos dros y Nadolig. Ceir pum wythnos o wyliau yn yr haf yn lle chwech;
    - **Model B** sy'n cynnwys pum tymor ysgol sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd. Ceir pedair wythnos o wyliau haf yn lle chwe wythnos a cheir tair wythnos dros y Nadolig. Ceir pythefnos o wyliau ym mis Hydref, mis Chwefror / Mawrth a mis Mai;
    - **Model C** sy'n cynnwys chwe thymor ysgol sy'n para am oddeutu chwech i saith wythnos. Tua phythefnos o hyd yw pob cyfnod o wyliau ysgol ac eithrio'r gwyliau haf sy'n para am dair wythnos.

2.3 Dull o gyflawni'r ymchwil

Roedd ehangder y cynulleidfaoedd yr oedd angen i ni eu cynnwys a'r ystod o destunau yn golygu bod angen methodoleg gymysg. Defnyddiwyd arolygon meintiol ar-lein, grwpiau ffocws fideo ar-lein, cyfweliadau unigol manwl, a digwyddiadau ar-lein gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod sbectrwm eang o leisiau'n cael eu clywed.

Mae'r tabl dros y dudalen yn crynhoi cyfansoddiad y samplau a'r digwyddiadau.

Cynulleidfa	Gweithgarwch ymchwil ac ymgysylltu
Dysgwyr Gwaith Maes Rhagfyr 2021 – Chwefror 2022	• 3,131 o ymatebion i arolwg ar-lein dwyieithog ar gyfer dysgwyr 7 – 18 oed mewn addysg yng Nghymru. Cafodd y rhan fwyaf o ymatebion eu hysgogi trwy ddolen a hyrwyddwyd trwy sianeli Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, tra bo cyfran lai wedi dod o arolwg gan ddefnyddio panel ar-lein. Roedd sampl yr arolwg yn cynnwys 1,031 o ddysgwyr 7 i 11 oed, 1,045 o ddysgwyr 12-15 oed, 651 o ddysgwyr 16 i 18 oed a 404 o ddysgwyr na wnaethant ddarparu eu hoedran. Cofnodwyd data arall mewn perthynas â'r proffil megis crefydd, blwyddyn ysgol, rhyw a chefndir ethnig ac mae hwnnw wedi'i gynnwys yn y tablau data. • 3 grŵp ffocws fideo ar-lein a oedd yn 1 awr o hyd: 1 gyda dysgwyr blwyddyn 6[5] (8 cyfranogwr), 1 gyda dysgwyr blwyddyn 10 (5 cyfranogwr), 1 gyda dysgwyr blwyddyn 12 (9 cyfranogwr, cyfrwng Cymraeg) – cyfanswm o 22 o gyfranogwyr. Cymysgedd o ddysgwyr benywaidd (12 o gyfranogwyr), gwrywaidd (9 cyfranogwr) ac anneuaidd (1 cyfranogwr), grwpiau economaidd-gymdeithasol[6], a rhanbarthau (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Ceredigion, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Bro Morgannwg, Wrecsam ac Ynys Môn). Roedd y sampl yn cynnwys 3 chyfranogwr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, 2 o ysgolion ffydd a 7 o ysgolion â chanrannau uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim.
Rhieni / gofalwyr Gwaith Maes Tachwedd 2021 – Ionawr 2022	• Arolwg ar-lein dwyieithog Omnibws Cymru Beaufort[7] Tachwedd 2022 o 433 o rieni / gofalwyr i blant 18 oed ac iau. • 3 grŵp ffocws fideo ar-lein a oedd yn 60-75 munud o hyd, 1 gyda rhieni i blant oed cynradd (6 chyfranogwr), 2 gyda rhieni i blant oed uwchradd (16 o gyfranogwyr, 1 grŵp cyfrwng Cymraeg) – cyfanswm o 22 o gyfranogwyr. Cymysgedd o fenywod (14 o gyfranogwyr) a dynion (8 cyfranogwr), grwpiau economaidd-gymdeithasol a rhanbarthau (Caerdydd, Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro a Bro Morgannwg), gan gynnwys: ○ 6 gyda phlant mewn ysgolion â chanrannau uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim ○ 11 gyda phlant mewn ysgolion Cymraeg / dwyieithog ○ 2 o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ○ 6 sy'n dilyn ffydd ○ 3 gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.
Y gweithlu addysg	• 8,696 o ymatebion i arolwg ar-lein dwyieithog ar gyfer y gweithlu addysg gyda dolen a hyrwyddwyr trwy sianeli Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Roedd yr holl gyfranogwyr yn gweithio yn y sector addysg yng Nghymru.

[5] Yng Nghymru a Lloegr blwyddyn 6 yw dysgwyr 10-11 oed, blwyddyn 10 yw dysgwyr 14-15 oed, a blwyddyn 12 yw dysgwyr 16-17 oed.
[6] System ddosbarthu gymdeithasol a ddefnyddir yn y sector ymchwil i'r farchnad ac mewn sectorau eraill. Mae'r dosbarthiad yn aseinio pob aelwyd i radd (A, B, C1, C2, D, E), sydd fel arfer yn seiliedig ar alwedigaeth a statws cyflogaeth y Prif Enillydd Incwm.
[7] Sampl arolwg gynrychiolaidd o 1,000 o oedolion ledled Cymru yw Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Cynhelir yr Arolwg Omnibws bum gwaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein.

Gwaith Maes Ionawr – Mawrth 2022	Roedd y sampl yn cynnwys 1,125 o benaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion, 1,120 o benaethiaid adran, 3,337 o athrawon, 2,018 o gynorthwywyr addysgu a 1,096 o weithwyr addysg eraill (gan gynnwys staff gweinyddol, swyddogion addysg, llywodraethwyr, technegwyr, staff arlwyo a'r rhai mewn amrywiaeth o rolau eraill).
	• 3 grŵp ffocws fideo ar-lein a oedd yn 60-75 munud o hyd, pob un yn gymysgedd o staff ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn gymysgedd o ddynion a menywod – cyfanswm o 23 o gyfranogwyr: 1 gyda staff cymorth mewn ysgolion, 1 gydag athrawon (grŵp cyfrwng Cymraeg), 1 gyda phenaethiaid ysgolion, gan gynnwys:
	  ○ 12 cyfranogwr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol
	  ○ 11 ysgol â chanrannau uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim
	  ○ 1 Uned Cyfeirio Disgyblion
	  ○ 1 ysgol ffydd
	  ○ Cymysgedd o ranbarthau a oedd yn cynnwys Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg.
	• Cynrychiolaeth yn y digwyddiadau ar-lein i randdeiliaid (gweler isod).

Rhanddeiliaid Gwaith Maes Ionawr – Chwefror 2022	• 2 ddigwyddiad ymgysylltu fideo ar-lein a oedd yn 90 munud o hyd gan gynnwys cyflwyniadau gan y Gweinidog, sesiynau ymrannu a sesiwn lawn gyda chyfanswm o 98 o randdeiliaid. Cynrychiolaeth eang o'r sector addysg (cynradd, uwchradd, Addysg Bellach, awdurdodau lleol, cymwysterau, rheoleiddio, hyfforddi), busnes (cyllid, hamdden, twristiaeth, cludiant, gofal plant), gwasanaethau plant a phobl ifanc, mudiadau ffydd, cyrff cyhoeddus a mudiadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi pobl ifanc. • 10 cyfweliad manwl ar-lein, gan gynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â'r byd academaidd, busnes, addysg, ffydd, iechyd a chefnogi pobl ifanc.
Busnesau Gwaith Maes Tachwedd 2021 – Ionawr 2022	• Arolwg ar-lein dwyieithog Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2022 o 314 o berchnogion busnes / uwch benderfynwyr / rheolwyr llinell / goruchwylwyr. • 2 grŵp ffocws fideo ar-lein a oedd yn 60-75 munud o hyd (1 cyfrwng Cymraeg) gyda busnesau bach a chanolig: roedd y sectorau'n cynnwys twristiaeth, gofal plant, lletygarwch, gweithgynhyrchu, gwasanaethau proffesiynol, a manwerthu o gymysgedd o ranbarthau – cyfanswm o 14 o gyfranogwyr. • Cynrychiolaeth trwy'r cyfweliadau a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid (gweler uchod).
Y Cyhoedd Gwaith Maes Tachwedd 2021	• Arolwg ar-lein dwyieithog Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2022 o sampl gynrychiolaidd o 1,000 o oedolion 16+ oed sy'n byw yng Nghymru.

Dethol samplau

Roedd pedwar arolwg ar y cyfan ac mae'r holiaduron yn yr atodiadau ar ddiwedd yr adroddiad. Cafodd y ddolen ar-lein i'r ddau **arolwg meintiol** ar gyfer y gweithlu addysg a phobl ifanc ei rhannu'n eang gan Lywodraeth Cymru a Cazbah trwy gylchlythyrau, partneriaid a rhanddeiliaid. Crëwyd pecynnau, gan gynnwys fideo animeiddiedig byr, i helpu partneriaid a rhanddeiliaid i hyrwyddo'r arolygon. Fe arhosodd yr arolygon ar agor am dair wythnos. Cafodd data o'r arolwg dysgwyr ei bwysoli ar y cam dadansoddi i sicrhau ei fod yn cynrychioli cyfanfyd y bobl ifanc 7 – 18 oed mewn addysg yng Nghymru[8]. Nid oedd yn bosibl pwysoli data arolwg y gweithlu addysg, serch hynny, gan nad oes data cyfanfydol yn bodoli ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru.

Roedd **Arolwg Omnibws Cymru** (sy'n casglu barn y cyhoedd, rhieni / gofalwyr a busnesau / rheolwyr yng Nghymru) yn seiliedig ar sampl cwota gynrychiolaidd o 1,000 o oedolion 16+ oed sy'n byw yng Nghymru. Defnyddiodd yr arolwg blatfform cyfnewid ar-lein Cint™. Mae Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ansawdd y diwydiant a safonau'r Gymdeithas Mewnwelediadau[9]. Mae Cint™ hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae nifer o wiriadau ansawdd data wedi'u hymgorffori yn y system gan gynnwys gwirio lleoliad daearyddol cyfeiriad IP a CAPTCHA wrth gofrestru, gwiriad adnabod cyfranogwr unigryw a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Ar ben hyn, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor cyfranogwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

Fe wnaeth yr arolwg ar-lein ychwanegol gyda phobl ifanc ddefnyddio platfform cyfnewid ar-lein Cint™ hefyd i hybu'r niferoedd a oedd yn cwblhau'r arolwg. Wrth gynnal yr arolwg gosodwyd rheolaethau cwota demograffig sy'n cyd-gloi ar oedran o fewn rhywedd. Gosodwyd rheolaeth cwota arall ar wahân ar radd gymdeithasol ac fe gwblhawyd yr arolwg gan drigolion ymhob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdod lleol a gradd gymdeithasol i gyd-fynd â ffigyrau Cyfrifiad 2011 a sicrhau ei fod yn cynrychioli poblogaeth Cymru.

O ran **camau'r trafodaethau manwl**, cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws gyda rhieni a phobl ifanc eu recriwtio gan ddefnyddio rhwydwaith Beaufort ledled Cymru o recriwtwyr ansoddol sydd wedi'u hachredu gan y Cynllun Achredu Recriwtwyr (RAS) sy'n gweithio mewn gwahanol ranbarthau yng Nghymru. Datblygwyd y cynllun gan y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS) a'r Gymdeithas Ymchwil Ansoddol (AQR). Mae ein recriwtwyr RAS yn mynd trwy asesiad trydydd parti sy'n profi eu gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd ym maes recriwtio ansoddol. Cafodd y fanyleb ar gyfer y grwpiau ffocws ei chytuno gyda'r cleient.

---

[8] Pwysolwyd data gan ddefnyddio cyfuniad o ddwy ffynhonnell:
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-yeargroup
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/uniquelearnersenrolledfurthereducationinstitutions-by-age-modeoflearning-gender

[9] ESOMAR, MRS, AMA, ARF, MRIA, ADIA

Cafodd y grwpiau ffocws gyda'r gweithlu addysg a chyfranogwyr busnes eu recriwtio gan ddefnyddio cymysgedd o'n recriwtwyr ansoddol a galwadau a wnaed o swyddfeydd Beaufort. Cafodd y fanyleb ar gyfer y grwpiau ffocws hyn ei chytuno gyda'r cleient hefyd.

Cynullwyd y digwyddiadau ar-lein gyda chyfranogwyr gan ddefnyddio cyfuniad o Lywodraeth Cymru a Cazbah yn targedu sefydliadau allweddol ac yn hyrwyddo'r digwyddiad trwy nifer o wahanol sianeli y gallai unrhyw sefydliad ymateb iddynt. Darparodd Llywodraeth Cymru restrau helaeth o sefydliadau rhanddeiliaid i'w gwahodd i'r digwyddiadau ar-lein. Aeth Beaufort ati i recriwtio ar gyfer y cyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid o restr hir a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.4 Cyfyngiadau ar y dull ymchwil

Daeth ymatebion i arolwg y gweithlu addysg a'r mwyafrif llethol o ymatebion i'r arolwg dysgwyr trwy ddosbarthu dolen agored i'r arolwg a hyrwyddwyd trwy sianeli Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Cafodd dolen yr arolwg ei dosbarthu mor eang â phosibl trwy'r sianeli hyn dros nifer o wythnosau. Hefyd, fe wnaethom sicrhau nad oedd modd cwblhau'r arolwg fwy nag unwaith o'r un cyfeiriad IP, i atal ymatebion lluosog.

Gydag arolygon dolen agored nid oes gennym reolaeth dros bwy sy'n dewis cymryd rhan, a allai arwain at duedd hunanddethol. Mae hyn yn codi pan ganiateir i ymatebion i arolwg benderfynu drostynt hwy eu hunain yn llwyr pa ydynt yn dymuno cyfranogi mewn arolwg ai peidio. Efallai na fydd ymatebwyr sy'n dewis cyfranogi'n cynrychioli'r boblogaeth darged gyfan yn llwyr.

I liniaru hyn ar gyfer yr ymchwil i ddysgwyr, fe gynhaliom ni arolwg ychwanegol o ddysgwyr 7 i 18 oed gan ddefnyddio panel ar-lein, lle cafodd y sampl ei rheoli, i ehangu'r dosbarthiad ymhellach. Mae'r data hwn wedi'i gynnwys yn y sampl ar gyfer dysgwyr ar y cyfan. Hefyd, cafodd y data o'r arolwg dysgwyr ei bwysoli ar y cam dadansoddi yn ôl rhywedd, grŵp blwyddyn academaidd ac ardal consortiwm rhanbarthol i sicrhau ei fod yn cynrychioli cyfanfyd pobl ifanc mewn addysg yng Nghymru yn gymaint â phosibl. Nid oedd hyn yn bosibl gydag arolwg y gweithlu addysg, serch hynny, gan nad oes data cyfanfydol ar gael ar gyfer pwysoli sy'n cynnwys pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg.

Mae'r cyfyngiadau ar y dull o gyflawni'r ymchwil yn golygu y gall rhai grwpiau y byddai newid strwythur y flwyddyn ysgol yn effeithio arnynt fod wedi cael neu heb gael eu tangynrychioli. Er enghraifft, ni wnaeth yr arolygon gofnodi barn ar wahân gan rieni neu ofalwyr i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Er bod y cam ansoddol wedi cynnwys nifer fach o'r rhieni hyn yn ogystal â staff y gweithlu addysg a rhanddeiliaid a oedd yn gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, nid yw'r sampl yn gynrychiolaidd. Yn yr un modd, nid yw'r sampl yn gallu darparu barn gynrychiolaidd gan bobl o gefndiroedd arbennig i ddifreintiedig na'r rhai sy'n dilyn ffydd. Cyfyngiad pellach yw bod Arolwg Omnibws Cymru a ddefnyddiwyd i gasglu barn busnesau yn ogystal â'r cyhoedd heb gofnodi ym mha sector yr oedd y busnesau hynny'n gweithredu.

O ran y cam ansoddol, ni wnaethom ddibynnu ar hunanddethol gan gyfranogwyr, a wnaeth leihau'r tebygolrwydd mai dim ond y rhai a oedd â barn gref ar y pwnc fyddai'n cymryd

rhan. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau yn yr ystyr nad oedd hi'n bosibl cwmpasu holl nodweddion gwahanol dysgwyr, y gweithlu addysg, rhieni / gofalwyr a busnesau. Roedd y dull ar-lein hefyd yn golygu na wnaeth y rhai a allai fod wedi'u hallgau'n ddigonol gymryd rhan.

2.5 Holiaduron, canllawiau trafod a llunio adroddiad

Cafodd yr holiaduron arolwg a'r canllawiau trafod testunau ar gyfer y grwpiau ffocws, cyfweliadau a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid (gweler Atodiad B) eu datblygu yn seiliedig ar drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a mewnbwn ganddi. Roedd yr holiaduron a'r canllawiau trafod testunau'n cwmpasu'r un themâu allweddol fwy neu lai: y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol bresennol, awch am newid ac adweithiau i fodelau amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol. Trafodwyd y modelau penodol yn y grwpiau ffocws, gyda rhanddeiliaid yn ystod y digwyddiadau ar-lein a'r cyfweliadau manwl, ac roeddent yn cael sylw yn yr arolygon ar-lein gyda dysgwyr a'r gweithlu addysg.

Gan ddefnyddio'r canllawiau trafod testunau cymeradwy, fe wnaeth Beaufort hwyluso'r grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid; ac fe wnaeth Cazbah drefnu, hwyluso a dadansoddi'r digwyddiadau gyda rhanddeiliaid.

Fe wnaed recordiadau sain o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ac fe baratowyd trawsgrifiadau gyda chaniatâd cyfranogwyr i ategu'r broses ddadansoddi. Defnyddiwyd ysgrifenyddion i gofnodi'r allbynnau o'r digwyddiadau gyda rhanddeiliaid ynghyd â'r cwestiynau arolygu barn yn ystod y sesiynau.

Defnyddiwyd dull anwythol o ddadansoddi lle gwnaeth yr ymchwilwyr gategoreiddio'r data i ddatblygu themâu a oedd yn dod i'r amlwg o gynnwys yr arolygon, y grwpiau ffocws, y cyfweliadau a'r digwyddiadau. Cafodd y categorïau a'r themâu eu fframio'n fras o fewn yr amcanion ymchwil allweddol a'r testunau. Defnyddir inc trwm yn yr adroddiad i nodi themâu a'r newid o un testun i'r llall.

Mae sylwadau air am air dienw a wnaed gan gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn lle hynny, maent yn rhoi mewnwelediad i safbwyntiau unigol am y pwyntiau a nodir. Mae gan bob sylw briodoliad sy'n dynodi'r math o gyfranogwr: dysgwr; rhiant; y gweithlu addysg; rhanddeiliad; a busnes. Mae 'rhanddeiliad' yn yr adroddiad yn cynnwys y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ar-lein yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran mewn cyfweliad manwl.

CANFYDDIADAU

3. Lefelau bodlonrwydd ar y flwyddyn ysgol ar y cyfan

Pwyntiau allweddol yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr

- *Mae pobl yn weddol fodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol.*
- *Mae'r rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn teimlo'i bod 'yn briodol ar gyfer bywydau pobl y dyddiau hyn' ac mae dysgwyr yn hapus ar y cyfan gyda 'sut y mae tymhorau a gwyliau'r flwyddyn ysgol wedi'u gwasgaru'.*
- *Mae'r sefyllfa fel ag y mae'n cael ei derbyn ond pan drafodir y testun mewn mwy o fanylder, yn aml mae pobl yn agored i newid.*
- *Mae cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl, yn enwedig rhanddeiliaid, yn tueddu i deimlo y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i weld pa un a oes angen ailstrwythuro'r flwyddyn ysgol.*
- *Gall y rhai a chanddynt amheuon ynglŷn â newid deimlo'n gryf na ellir diwygio mewn unrhyw ffordd heb 'dystiolaeth bendant' – ac na ddylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar ganfyddiad na barn.*

3.1 Lefelau bodlonrwydd ar y cyfan ar draws y gwahanol grwpiau o gyfranogwyr

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr ar draws y gwahanol gynulleidfaoedd yn yr arolygon meintiol yn fwy tebygol o fod yn **weddol fodlon** nag anfodlon ar strwythur y flwyddyn ysgol bresennol. Dangosodd rhieni, dysgwyr, y gweithlu addysg a busnesau lefelau uwch o fodlonrwydd na'r cyhoedd yn gyffredinol (gweler Ffigur 1). Roedd rhanddeiliaid yn llai bodlon na grwpiau eraill.

I grynhoi:

- Roedd **saith ymhob deg o aelodau'r cyhoedd** (70%) yn teimlo bod y flwyddyn ysgol bresennol yn 'briodol[10]' ar gyfer 'bywydau pobl y dyddiau hyn' tra nad oedd un ymhob pedwar (25%) yn meddwl ei bod yn briodol. Roedd y rhan fwyaf (49% ar y cyfan) yn teimlo'i bod yn **weddol briodol**, gydag 20% yn dweud ei bod yn briodol iawn. Roedd cynulleidfaoedd eraill a arolygwyd hefyd yn llawer mwy tebygol o ddweud ei bod yn 'weddol briodol' nag yn 'briodol iawn'. O'r rhai a fynegodd farn i'r gwrthwyneb, roedd 19% yn ystyried nad yw'n briodol iawn a 5% yn meddwl nad yw'n briodol o gwbl. Nid oedd 6% yn gallu rhoi barn neu fe ddwedon nhw nad oedd yn berthnasol iddynt;
- Roedd **cyfran uwch o rieni / gofalwyr** (bron i wyth ymhob deg - 77%) yn teimlo bod y flwyddyn ysgol bresennol yn 'briodol' ac roedd cyfran is (22%) yn meddwl nad oedd yn briodol;
- Roedd **tri ymhob pedwar dysgwr** yn hapus[11] gyda 'sut y mae'r tymhorau a gwyliau ysgol wedi'u gwasgaru ar hyn o bryd', o'i gymharu ag oddeutu un ymhob chwech (16%) a oedd yn anhapus;

[10] 'Priodol' yw'r cyfuniad o ymatebion 'priodol iawn' a 'gweddol briodol'.
[11] 'Hapus' yw'r cyfuniad o 'hapus iawn' a 'hapus'; 'anhapus' yw'r cyfuniad o 'anhapus' ac 'anhapus iawn'.

- Roedd **cyfran debyg o'r gweithlu addysg** (78%) yn cytuno'i bod yn 'briodol' ar gyfer 'bywydau pobl y dyddiau hyn' tra nad oedd un ymhob pump (21%) yn meddwl ei bod yn briodol. Roedd y rhai sy'n gweithio yn y sector addysg yn fwyaf tebygol o deimlo'i bod yn 'briodol iawn';
- **Yn yr un modd, roedd oddeutu wyth ymhob deg busnes, rheolwr llinell a goruchwylydd** (78%) yn teimlo'i bod yn 'briodol' ar gyfer 'bywydau pobl y dyddiau hyn' tra nad oedd un ymhob pump ((19%) yn meddwl ei bod yn briodol (gweler Ffigur 1).

Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ar-lein ac a ymatebodd i arolwg barn ar ddechrau'r sesiwn wedi dweud eu bod yn fodlon ar 'drefn bresennol y flwyddyn ysgol', roedd llai'n fodlon ar y sefyllfa fel ag y mae nag oedd yn fodlon o blith aelodau'r cyhoedd a chynulleidfaoedd eraill. Roedd oddeutu chwech ymhob deg rhanddeiliad yn fodlon, tra bo oddeutu tri ymhob deg yn anfodlon.

Ffigur 1: Barn ynglŷn â pha mor briodol yw strwythur presennol y flwyddyn ysgol ar gyfer bywydau pobl y dyddiau hyn* (%)



Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)
* Gofynnwyd i'r dysgwyr *Pa mor hapus ydych chi gyda sut y mae tymhorau a gwyliau'r flwyddyn ysgol wedi'u gwasgaru ar hyn o bryd?*

Er gwaethaf y bodlonrwydd hwn ar y cyfan ar y flwyddyn ysgol bresennol, mae lefelau'r ymatebion 'gweddol briodol', rhai ymatebion meintiol i newidiadau y gellid eu gwneud (a gaiff sylw yn 6.2) a'r adborth ansoddol oll yn dynodi bod llawer yn **agored** i archwilio pa un a yw'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro'n addas. Mae peth o'r adborth gan gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn awgrymu nad yw pobl o anghenraid wedi meddwl rhyw lawer am strwythur y flwyddyn ysgol cyn y gofynnir iddynt, ac felly eu bod yn derbyn y sefyllfa fel ag y mae. Pan drafodir y testun mewn mwy o fanylder, maen nhw'n agored iawn i newid, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon.

Er bod y rhan fwyaf o bob cynulleidfa yn yr arolygon meintiol yn cytuno eu bod yn ***weddol hapus*** *gyda'r flwyddyn ysgol fel ag y mae* (gyda'r ganran yn amrywio o 52% o aelodau'r cyhoedd i hyd at 66% o'r gweithlu addysg), roedd mwyafrif o bob cynulleidfa (heblaw am athrawon a'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg) yn cytuno hefyd â'r datganiad *Mae'n bryd* ***newid*** *y flwyddyn ysgol i adlewyrchu bywydau modern*.

Roedd y gyfran a oedd yn cytuno bod angen newid i'r flwyddyn ysgol yn amrywio o 51% o ddysgwyr i 68% o rieni / gofalwyr. Roedd gwahaniaeth barn ymhlith cyfranogwyr sy'n gweithio ym myd addysg mewn perthynas â'r mater hwn, serch hynny – roedd 45% yn cytuno bod angen newid tra bo 46% yn anghytuno.

Ffigur 2: Agweddau at y flwyddyn ysgol - 1 (%)



** Cytuno = cyfuniad o Cytuno'n gryf / cytuno; Anghytuno = cyfuniad o Anghytuno'n gryf / anghytuno*

Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131) * Roedd graddfa'r dysgwyr yn amrywio o *Cytuno'n fawr* i *Anghytuno'n fawr*

Ffigur 3: Agweddau at y flwyddyn ysgol - 2 (%)



Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131) * Cafodd datganiad y dysgwyr ei addasu i *Mae'n bryd newid y flwyddyn ysgol i gydweddu'n well â bywydau pobl y dyddiau hyn* ac roedd y raddfa'n amrywio o *Cytuno'n fawr* i *Anghytuno'n fawr*

3.2 Barn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai Llywodraeth Cymru fod yn adolygu'r flwyddyn ysgol

Dylid ystyried yr adborth ansoddol canlynol yng nghyd-destun y canfyddiadau meintiol ar y cyfan sy'n dangos bod pobl yn agored i newid.

Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn tueddu i deimlo y **dylai Llywodraeth Cymru** ymchwilio i'r cwestiwn a oes angen ailstrwythuro'r flwyddyn ysgol. Roedd rhai'n cydnabod bod gwyliau'r haf mwy na thebyg ychydig yn rhy hir i ddysgwyr a rhieni. (Er mwyn rhoi cyd-destun, canfu'r arolygon meintiol y byddai cyfran uwch o bob cynulleidfa'n hoffi gweld gwyliau'r haf yn cael eu byrhau.) Roedd y newidiadau mewn patrymau gweithio ac effaith pandemig y coronafeirws yn rhesymau pellach a roddwyd dros archwilio'r testun a sicrhau bod y flwyddyn yn gweddu orau i ddysgwyr. Er bod pobl yn agored i drafod y flwyddyn ysgol, nid oedd rhai'n gallu nodi rhesymeg gref dros newid.

> *Rwy'n meddwl y byddai'n dda canfod beth mae pobl yn ei feddwl oherwydd os nad ydych yn gwybod beth yw barn y cyhoedd yna nid ydych yn mynd i wybod pwy sy'n dymuno beth ac nid ydych yn mynd i wybod sut i'w drefnu i weddu i farn pobl. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Dwi'n credu bod e'n bwysig bod nhw'n edrych mewn iddo fo achos mae bywyd wedi newid ers iddyn nhw ddechrau'r gwylie 'ma ac mae bywyd wedi mynd ar garlam a*

dwi'n credu bod plant yn cael rhyw fath o burnout erbyn diwedd y tymor. A dwi'n gwybod bod athrawon yn teimlo'r un peth. Mae rhieni, dwi'n teimlo, yr un peth diwedd Rhagfyr. Mae isie nhw ystyried falle shwt mae bywydau plant wedi newid er mwyn eu llesiant nhw hefyd. Dim jyst pethau fel arholiadau sy'n bwysig rhagor ond pethau arall-gyrsiol. A falle bod o'n bryd i Lywodraeth Cymru symud yr amser. (Rhiant – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Rydym yn siarad peth wmbredd am les, a dydw i ddim yn meddwl bod y rhythmau, a'r hyn sydd gennym yn gweddu i fywyd modern mewn gwirionedd, a phan ydym yn meddwl am y peth, mae'r gwyliau hyn yn hynafol; fe'u sefydlwyd gyda rhyw fath o gynhaeaf hir yn yr haf, nad yw'n gweddu i anghenion plant nac oedolion heddiw. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rwy'n meddwl bod newidiadau ar y raddfa hon wastad yn gallu bod yn weddol anodd i'w rhoi ar waith oherwydd nad yw pobl yn hoffi newid a dweud y gwir ac maen nhw'n meddwl bod y drefn wedi bod yn iawn erioed, ac am a wn i hyd yn oed os na fydd unrhyw beth yn digwydd y tro hwn, mae'n braenaru'r ffordd a bydd pobl yn dechrau meddwl amdano a chwestiynu pam ein bod ni'n dal i wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd. Felly na, rwy'n meddwl ei fod yn beth da iawn. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd y rhan fwyaf o **randdeiliaid** a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau ar-lein ansoddol yn **meddwl ei bod hi'n bwysig** bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i 'ffyrdd mwy priodol o drefnu'r flwyddyn ysgol'. Roedd oddeutu wyth ymhob deg a ymatebodd i arolwg barn yn ystod y trafodaethau'n meddwl ei bod hi'n bwysig, gydag oddeutu hanner yn teimlo ei bod hi'n bwysig iawn. Roedd ychydig o dan ddau ymhob deg yn meddwl nad oedd hi'n bwysig iawn.

Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl ymhlith y gweithlu addysg, rhanddeiliaid, dysgwyr hŷn a busnesau'n teimlo bod angen **tystiolaeth** i ddangos pam y dylai'r flwyddyn ysgol newid. Roedd ychydig yn llawn amheuon trwy gydol y trafodaethau ac yn meddwl bod Llywodraeth Cymru'n newid pethau dim ond er mwyn newid ac yn gwastraffu arian; neu'n teimlo bod rhaid iddi wneud hynny oherwydd addewid mewn maniffesto.

Mae llawer iawn o'm cydweithwyr drwyddi draw yn fy undeb fy hun, drwyddi draw yn fy ysgol, ledled fy awdurdod lleol, cydweithwyr mewn ysgolion ffydd wedi ymateb gan ddweud union hynny. Pe baem ni'n gwneud unrhyw newid o gwbl yn ein hysgolion nad oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant, byddem yn cael ein gwneud yn gyff gwawd am hynny ac rydym yn gweithio'n galed iawn, iawn i wneud yn siŵr bod popeth yn ein hysgolion o ran y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gael ei dreialu ar lefel fach ar sail tystiolaeth. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Dwi'n meddwl mae o'n wast o bres, yn bersonol. Mae 'na bethau gwell yn ysgolion fedran nhw newid. . . . Allan o bob dim 'san nhw 'di gallu dewis gwario pres ar a

meddwl am, pam bod nhw'n trio newid y flwyddyn ysgol, wnelo bod nhw isio distractio o bethau eraill? (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Ar ben hynny, holodd rhai, a oedd hi'n gwneud synnwyr newid y flwyddyn ysgol, os byddai'n gwella'r amgylchiadau ar gyfer **nifer fach o ddysgwyr** yn unig? Hyd yn oed wedyn, byddai dysgwyr agored i niwed yn dal i dreulio'r mwyafrif o bob dydd gartref ni waeth sut yr oedd y flwyddyn wedi'i strwythuro, meddai un cyfranogwr o'r gweithlu addysg. Fodd bynnag, gwrthddadleuodd cyfranogwr arall o'r gweithlu addysg y **gallai dysgwyr o unrhyw gefndir fod yn agored i niwed** mewn gwahanol ffyrdd dros wyliau'r haf, gyda rhieni sy'n gweithio'n gadael plant hŷn gartref i ymorol amdanynt hwy eu hunain am gyfnodau hir.

Roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl, os mai'r prif ysgogydd ar gyfer diwygio oedd cefnogi cyrhaeddiad dysgwyr, plant agored i niwed a lles dysgwyr yn well, y dylai Llywodraeth Cymru fod yn canolbwyntio ar **ddull wedi'i dargedu'n fwy**, er enghraifft ariannu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer y dysgwyr y mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnynt – yn enwedig dros wyliau'r haf. Dywedodd cwpl o gyfranogwyr na ddylid gwneud newidiadau i system yr ystyrir ei bod o fudd i nifer o ddysgwyr, staff a theuluoedd ar hyn o bryd yn y gobaith y gallai wneud gwahaniaeth i ddysgwyr mwy agored i niwed, a hynny oll heb dystiolaeth.

Pob parch, dim cyfrifoldeb ni chwaith ydi poeni am les a gweithgareddau plant dros yr haf chwaith. Mae 'na gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru ac ar gyngor sir. Nhw sydd 'di cwtogi. Nhw sydd 'di stopio youth clubs. Nhw sydd 'di stopio bob dim. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd ar ychydig o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid eisiau gwybod sut yr oedd **gwledydd eraill** yn cynllunio'u blwyddyn ysgol a pha un a oedd ymchwil wedi bod i ganfod **tystiolaeth** o ddulliau effeithiol. Fe wnaeth cwpl o gyfranogwyr y sylw bod y Ffindir yn cael gwyliau o 12 wythnos yn yr haf, addysg ddwys yn y gaeaf, ac eto bod ganddi un o'r systemau addysg gorau yn y byd a phoblogaeth hapusach. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr hefyd yn cydnabod yr angen i addasu i amgylchiadau lleol, fel y diffyg golau dydd yn y gaeaf mewn gwledydd Llychlynnaidd.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymchwilio i'r testun, dadleuwyd hefyd fod rhai sectorau busnes wedi wynebu amgylchiadau anodd iawn yn ystod y pandemig. Ni ddylent wedyn orfod wynebu **mwy o dryblith** a hwythau'n dal i geisio cael adferiad, yn enwedig os nad oedd manteision amlwg iddynt hwy. Byddai asesiad o'r effaith ar yr economi'n ddisgwyliedig ac yn hanfodol, ychwanegodd un cyfranogwr.

Rwy'n meddwl, ar yr adeg hon pan fo busnesau'n gorfod dygymod â chryn dipyn, bod creu her arall ar hyn o bryd yn yr amgylchedd busnes yn gofyn llawer. Yn eironig, byddai'n effeithio ar rai o'r sectorau y mae arnynt mwy na thebyg angen cymaint o help ag y gallant ei gael ar hyn o bryd, wyddoch chi, atyniadau ymwelwyr, lletygarwch, twristiaeth. (Busnes – sylw a wnaed yn Saesneg)

Mewn ychydig o achosion, roedd rhanddeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn credu bod y sector addysg eisoes dan bwysau. Roeddent yn meddwl bod blaenoriaethau mwy

dybryd fel **diwygio'r cwricwlwm** ysgol, newidiadau i drefniadau dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon, a diwygio anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y cyfranogwyr hyn yn teimlo nad oedd arnynt hwy a dysgwyr angen i fwy o newid gael ei ychwanegu at y cyfnod anodd hwn a oedd yn dod ar gefn anawsterau a achoswyd gan bandemig y coronafeirws.

Mewn cyferbyniad, roedd cwpl o randdeiliaid yn teimlo bod nawr *yn* adeg briodol i adolygu'r flwyddyn ysgol yn union oherwydd y cwricwlwm newydd i Gymru. Byddai'n hanfodol, yn eu tyb hwy, bod y dysgwr yn cael ei wneud yn ganolog i unrhyw raglen i ddiwygio'r flwyddyn ysgol, ochr yn ochr ag ystyried sut y gellid ei **haddasu i weddu i'r cwricwlwm newydd**. Fe wnaeth un cyfranogwr resymu hefyd y byddai agweddau megis diwygio'r diwrnod ysgol, cael mynediad at brofiad gwaith galwedigaethol 'cadarn' a chyfleoedd chwaraeon a hamdden yn cael effaith o ran sut y gellid diwygio'r flwyddyn ysgol; ac felly y dylai'r agweddau hynny gael eu cynnwys yn yr un sgwrs. Eu casgliad hwy oedd bod y pandemig wedi dangos y gallai systemau newid ac addasu'n gyflymach nag a feddyliwyd yn flaenorol.

> *Un fantais o fod yn trafod hyn rŵan ar gynffon y pandemig ydi bod popeth wedi cael ei droi ben ei waelod yn ystod y ddwy flynedd ddiwetha', felly does 'na ddim byd yn ymddangos yn amhosib y bydda o bosib wedi ymddangos yn annhebygol neu'n amhosib yn flaenorol. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Mae'r adroddiad yn awr yn mynd ati mewn mwy o fanylder i archwilio syniadau'r cyfranogwyr a oedd yn sail i'w barn gyffredinol am y pwnc.

4. Rhesymau dros fod yn fodlon ar y flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru

Pwyntiau allweddol yn seiliedig ar adborth y cyfranogwyr

- *Mae'r system bresennol yn adnabyddus, yn cael ei deall ac ystyrir ei bod yn gweithio.*
- *Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo'i bod yn cydweddu'n dda â'u hymrwymiadau teuluol neu eu hymrwymiadau gwaith (lle mae ganddynt farn) ac mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu addysg yn teimlo'i bod yn 'cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr ac yn mynd i'r afael ag anfantais'.*
- *Mae'r chwe wythnos o wyliau yn yr haf yn rhoi cyfle gwirioneddol i staff addysgu gael eu cefn atynt a dadflino (ac maent yn dal i orfod gweithio am beth o'r amser).*
- *Mae gwyliau'r haf yn golygu bod dysgwyr yn gallu treulio llawer o amser gyda ffrindiau a theulu.*
- *Gwyliau'r haf yw'r un adeg pan fo dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau'n gallu anghofio am astudio; maent yn gallu ennill arian trwy wneud gwaith achlysurol.*
- *Mae'r flwyddyn ysgol bresennol a'r chwe wythnos o wyliau yn yr haf yn gweithio i'r sector twristiaeth.*
- *Mae'n gyson â Lloegr, gan fod o fudd o ran cynllunio cyfresi arholiadau, ac i rieni ac ysgolion sy'n agos at y ffin gyda Lloegr.*
- *Mae ychydig yn credu bod gwyliau ysgol y Pasg yn bwysig iawn o ran llunio cwricwlwm rhai ysgolion ffydd.*
- *Nid oes tystiolaeth gymhellol o blaid newid y flwyddyn ysgol.*

4.1 Mae'r system yn gweithio ac yn cael ei deall

Roedd oddeutu **hanner aelodau'r cyhoedd** a gymerodd ran yn Arolwg Omnibws Cymru (54%) yn teimlo bod patrwm presennol y flwyddyn ysgol yn **cydweddu'n dda**[12] â'u hymrwymiadau teuluol neu eu hymrwymiadau gwaith (gydag 19% yn dweud ei bod yn cyd-fynd yn dda iawn a 35% yn dweud ei bod yn cyd-fynd yn weddol dda). Mynegodd oddeutu un ymhob saith (13%) farn i'r gwrthwyneb, tra bo cyfran uchel (33%) wedi ateb 'ddim yn gwybod / ddim yn berthnasol'. Roedd y rhain yn fwyaf tebygol o fod yn bobl hŷn 55 oed a throsodd, ac yn bobl nad oeddent yn rhieni, gwarcheidwaid nac yn ofalwyr rheolaidd am blant 18 oed ar iau.

Roedd rhieni / gofalwyr a busnesau a arolygwyd yn fwy tebygol o deimlo'i bod yn cydweddu'n dda nag aelodau'r cyhoedd, gyda 74% o'r grŵp cyntaf a 71% o'r ail grŵp yn dweud hyn. Ar yr un pryd, roedd cyfran ychydig yn uwch o rieni / gofalwyr na'r cyhoedd ar y cyfan yn teimlo nad oedd yn cydweddu'n dda (18% o'i gymharu ag 13% ar y cyfan).

[12] 'Yn dda' yw'r cyfuniad o ymatebion 'yn dda iawn' ac 'yn weddol dda'; 'ddim yn dda' yw'r cyfuniad o ymatebion 'ddim yn dda iawn' a 'ddim yn dda o gwbl'.

Ffigur 4: Barn ynglŷn â pha mor dda y mae'r flwyddyn ysgol bresennol yn cydweddu ag ymrwymiadau teuluol neu ymrwymiadau gwaith (%)



Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314)

Roedd y lleiafrif o aelodau'r cyhoedd nad oeddent yn teimlo'i bod yn cydweddu'n dda'n meddwl hynny'n bennaf oherwydd materion sy'n ymwneud â gwyliau ysgol (gweler 5.1.2) – y prif resymau digymell a roddwyd oedd *Nid oes gan rieni sy'n gweithio ddigon o wyliau ar gyfer y gwyliau ysgol i gyd* ac *Mae gan rieni sy'n gweithio broblemau gyda gofal plant yn y gwyliau* (a grybwyllwyd gan 21% ac 18% o'r grŵp yma).

Ar ben hynny, roedd dros chwech ymhob deg o'r rhai a gymerodd ran yn **arolwg y gweithlu addysg** (64%) yn teimlo bod y flwyddyn ysgol bresennol 'yn cefnogi cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr ac yn mynd i'r afael ag anfantais', gyda 21% yn cytuno'n gryf ei bod yn gwneud hynny. Mynegodd bron i dri ymhob deg (29%) farn i'r gwrthwyneb, serch hynny, ac roeddent yn anghytuno â'r datganiad.

A hwythau'n adleisio'r canfyddiadau hyn, doedd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r digwyddiadau gyda rhanddeiliaid **ddim yn gweld unrhyw angen** am newid ac roeddent yn teimlo bod y strwythur presennol yn iawn. Er enghraifft, fe wnaeth rhai dysgwyr y sylw bod y gwyliau ysgol ar hyn o bryd yn teimlo fel pe baent wedi'u gwasgaru'n addas, gan ganiatáu amser ar gyfer adolygu a swyddi achlysurol. Roedd rhai rhieni, cyfranogwyr o'r gweithlu addysg, cyfranogwyr o fyd busnes a rhanddeiliaid yn dadlau bod y flwyddyn ysgol bresennol wedi hen ennill ei phlwyf a'i bod yn cael ei deall, gyda'i natur gyfarwydd yn rhoi cysondeb i ddysgwyr, rhieni, rhanddeiliaid a busnesau, a bod gorchwylion rheolaidd bywyd wedi'u sefydlu o'i chwmpas. Roeddent yn meddwl bod **rhythm cyfarwydd** i'r flwyddyn ysgol bresennol a'i bod yn system adnabyddus.

> *Mae'n iawn fel ag y mae. Does dim llawer o bwynt ei newid yn awr. Mae wedi gweithio am amser hir. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Dwi'n hoffi fel - achos mae o fatha ar ôl hyn a hyn o wythnosau o ysgol, dach chi'n cael wsnos neu bythefnos off, ac mae o'n gadael chi ddal fyny hefo gwaith dach chi*

'di methu, neu os dach chi isio brêc. Hefyd hefo fatha exams ym mis Mai, mae cael y gwylia Pasg cyn hynna yn gadael chi gael lot o amser i jyst studio. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Os yw hi'n iawn fel y mae hi, pam ei newid? Dydw i ddim wedi meddwl am hyn o'r blaen gan nad yw wedi bod yn broblem i mi. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rwy'n meddwl, i mi fy hun, bod hyn yn syml yn rhywbeth yr ydym wedi arfer ag ef, onid yw? Rhywbeth yr ydym wedi arfer ag ef, y gallwn gynllunio o'i gwmpas. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Mae 'di bod fel hyn am gymaint o flynyddoedd. So os mae ddim yn broblem, does ddim angen newid. (Busnes – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Tynnodd rhai busnesau sylw at y ffaith eu bod **wedi cysoni gweithrediadau** i gydweddu â'r flwyddyn, eu bod yn cynllunio trefniadau staffio yn unol â hynny ac, fel rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg, nad oeddent wedi gweld unrhyw dystiolaeth eto sy'n dangos bod angen newid y flwyddyn ysgol. Roedd y ffaith bod gwyliau ysgol yn cyd-daro â gwyliau addysg uwch i raddau helaeth yn golygu y gallai myfyrwyr prifysgol gael eu cyflogi i gyflenwi pan oedd staff parhaol yn cymryd gwyliau teuluol. Roeddent yn ei chael yn anodd dychmygu unrhyw drefn wahanol. Nid oedd cynrychiolwyr busnes yn clywed am faterion yn cael eu codi ynglŷn â'r pwnc mewn cylchoedd busnes ychwaith. Roedd cwestiynau ynglŷn â gweithio'n hyblyg a'r diwrnod gwaith i'w gweld yn llawer mwy amserol.

G: Rwy'n weddol hapus gyda hi ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn eich galluogi i gynllunio. G: Ie, rwy'n cytuno. Dim problem gyda'r tymhorau o gwbl. (Busnesau – sylw a wnaed yn Saesneg)

Does gennym ni ddim llawer o dystiolaeth o bwysau'n dod drwy'r system, ond rydym yn siarad llawer am weithio'n fwy hyblyg. . . . Am a wn i mae mantais i'w chael o'i chadw fel ag y mae gan ei bod yn gylch adnabyddus y mae busnesau wedi cysoni eu gweithgarwch hwy eu hunain o'i gwmpas. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd busnesau mewn rhai sectorau eisoes wedi **addasu i wahaniaethau'n rhyngwladol** a oedd yn creu ystod o newidynnau, eglurodd un rhanddeiliad. Yr enghraifft a roddwyd oedd y sectorau pren ac adeiladu a oedd wedi addasu i gyfnodau 'cau' yn nhiriogaeth allweddol Llychlyn. Pe bai newidiadau'n deillio o flwyddyn ysgol wedi'i hailgyflunio, byddent yn debygol o greu cymhlethdod a phwysau ychwanegol i fusnesau yn y sectorau hynny. Byddai'n bwysig gwybod i ba raddau yr oedd yr economi yng Nghymru'n cael ei chynnwys yn ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer newid y flwyddyn ysgol, meddai un rhanddeiliad.

Hefyd, meddai cyfranogwr arall, byddai angen i fusnesau twristiaeth allu cyfrifo i ba raddau y byddai eu **busnes yn cael ei wasgaru** pe bai newid i'r flwyddyn ysgol yn golygu na fyddai rhyw lawer o orgyffwrdd rhwng dyddiadau gwyliau ysgol Cymru a Lloegr. Hefyd, ychwanegodd un cyfranogwr, wrth adolygu gwasgbwyntiau busnes sy'n cyflogi staff yng Nghymru a Lloegr, byddai'n debygol o ddod yn anos ymgodymu, po fwyaf o amrywiant sydd

rhwng blwyddyn ysgol y ddwy wlad. Roedd yr unigolyn yn credu y byddai rhoi mwy o adnoddau staff ar waith, felly, yn dod yn fwy problemus. (Rhoddir sylw manylach i gysondeb â Lloegr yn 4.3)

4.2 Y chwe wythnos o wyliau haf

I ddarparu peth cyd-destun ar gyfer yr adran hon ar adborth ansoddol, pan ofynnwyd yn uniongyrchol yn yr arolygon meintiol am briodoldeb y chwe wythnos o wyliau ysgol yn yr haf ar hyn o bryd, roedd **pedwar ymhob deg aelod o'r cyhoedd (40%)** yn fodlon ar eu hyd presennol – ond **roedd cyfran uwch (49%) yn teimlo y dylent fod yn fyrrach**, gydag 11% arall yn dweud yr hoffent iddynt fod yn hwy (gweler adran 5.1 am ragor o fanylion).

Yn yr un modd, er bod oddeutu pedwar ymhob deg rhiant / gofalwr (36%) a chyfranogwr o'r gweithlu addysg (44%) yn fodlon ar hyd gwyliau ysgol yr haf ar hyn o bryd, byddai cyfran uwch o bob cynulleidfa (52% a 53% yn y drefn honno) yn hoffi eu gweld yn cael eu byrhau.

Mewn cyferbyniad, roedd bron i chwech ymhob deg dysgwr (59%) yn teimlo bod eu hyd yn iawn (o'i gymharu â 31% a ddwedodd eu bod yn rhy hir).

4.2.1 Ffocws ar ddysgwyr a'r gweithlu addysg

Thema amlwg ymhlith rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid yn y trafodaethau manwl oedd bod y chwe wythnos o wyliau'n galluogi **dysgwyr** a'r **gweithlu addysg** i **gael eu cefn atynt** yn iawn. Roedd rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn cydnabod eu bod yn **mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r** gwyliau hir, er enghraifft gallu treulio mwy o amser o ansawdd gyda theulu ifanc ac anghofio am waith yn gyfan gwbl. Tynnodd rhai sylw at y ffaith hefyd y byddent yn dal i dreulio oddeutu pythefnos dros yr haf yn paratoi gwaith ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd neu'n gweithio yn yr ysgol ar gyfer **canlyniadau arholiadau**. Pe bai gwyliau'r haf yn cael eu byrhau, rhybuddiodd rhai, byddai'n golygu bod athrawon yn gweithio yn ystod mwy o'u gwyliau dros y flwyddyn am y byddent yn dal i fyny â thasgau ac yn paratoi ar gyfer y tymhorau sydd i ddod. Felly, roedd cwpl o randdeiliaid yn disgwyl y byddai llawer o aelodau o staff mewn ysgolion yn gyndyn o golli eu chwe wythnos o wyliau haf.

> *Rwy'n meddwl eu bod yn iawn fel ag y maent oherwydd er eu bod yn wyliau haf hir maent yn rhoi seibiant i ni o'r ysgol, ac maent yn rhoi gorffwys i'n meddyliau. (Dysgwr – Sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Ydw [Rwy'n hoffi'r chwe wythnos] oherwydd weithiau rydych dan straen yn yr ysgol. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Dwi'n hoffi'r gwylia hir. Fi'n cymryd fel pythefnos i baratoi ar gyfer swydd fi, ac wedyn fi'n neud lot o waith yn yr haf, ac wedyn fi'n cael yr amser off. So mae fe'n neis i gael amser heb orfod paratoi unrhyw beth. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Thema arall i godi o'r trafodaethau manwl oedd bod y chwe wythnos o wyliau'n golygu y gallai **dysgwyr** o bob oed dreulio amser gyda'u **ffrindiau** gwneud **gweithgareddau** tra bo'r

tywydd yn well, a'r diwrnodau'n hwy. Byddai llawer yn dal i gael cyfleoedd dysgu y tu allan i'r flwyddyn ysgol, dadleuodd cwpl o gyfranogwyr.

> *G: Rwy'n meddwl ei fod yn beth da ein bod ni'n cael chwe wythnos o wyliau. . . . B: Oherwydd rydyn ni'n cael llawer o amser i wneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. . . . G: Rwyf wrth fy modd yn cael chwe wythnos. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Wn i ddim, mae gan deuluoedd amser i'w dreulio gyda'i gilydd a gwneud pethau. Rwy'n meddwl bod llawer o ddysgu a phethau da sy'n digwydd yn yr amser hwnnw. Y teuluoedd difreintiedig, mae hwnna mwy na thebyg yn bwynt da. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Hefyd, meddai rhai, roedd y chwe wythnos o wyliau haf hefyd yn rhoi'r cyfle i **ddysgwyr** hŷn **weithio a chynilo arian**. Felly roedd y dysgwyr hyn yn gyndyn o'u byrhau.

> *Mae chwech wsnos yn rhoi digon o amsar i bobl mynd i weithio os 'dyn nhw isio. . . . Fatha hefo chwech wsnos, alli di actually gweithio digon o amsar i neud pres, sydd yn handi. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Roedd y cyfle i ddysgwyr wneud gwaith achlysurol estynedig yn bwysig o safbwynt **cyflogwyr** hefyd, yn ôl rhai cyfranogwyr o fyd busnes a rhanddeiliaid. Ystyrid bod y calendr presennol yn gweithio'n dda oherwydd o gwyliau haf hir a oedd yn galluogi dysgwyr hŷn i **ymuno â'r gweithlu**, cael profiad gwaith gwerthfawr a sicrhau bod y sector twristiaeth ac eraill yn ffynnu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r gwyliau haf ar hyn o bryd, yn ôl nifer fach o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid, yn **creu cyfleoedd** ar gyfer gweithgarwch corfforol, dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac ymgysylltu cymunedol estynedig â dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r chwe wythnos yn caniatáu digon o amser hefyd i raglenni cymorth yn ystod y gwyliau (e.e. ymyriadau gofal cymdeithasol) gael effaith, ychwanegodd cyfranogwr arall.

> *O ran y gwyliau hwy, dydw i ddim yn meddwl ei bod byrhau'r gwyliau'n syniad da. Rydych yn cael mwy o ymgysylltu cymunedol. Rwy'n gweithio yn [yr ardal hon] ac mae ganddynt lwyth o bethau. Gallwch wneud hynny gyda'r plant hŷn hefyd. (Y gweithlu addysg)*

Roedd y gwyliau haf hir felly'n cael eu hystyried gan rai'n nodwedd gadarnhaol ar gyfer **lles** dysgwyr ac athrawon. Roedd yn rhoi digon o amser i ddysgwyr hŷn baratoi'n feddyliol ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf neu barhau ag addysg bellach / uwch. Hwn oedd yr unig gyfnod o wyliau lle na fyddai'n rhaid iddynt adolygu na gwneud gwaith ysgol o gwbl. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at y ffaith mai hwn oedd yr unig gyfnod pan allai staff y gweithlu addysg ymlacio'n llawn a chael eu cefn atynt, yn enwedig ar ôl cyfnodau arholiadau. Roedd yn eu helpu i feithrin cydnerthedd, crynhodd un cyfranogwr. Fe ychwanegodd rhai fod staff ysgolion yn ymdrin â nifer o faterion bugeiliol gyda dysgwyr yn ystod y flwyddyn wrth iddynt amsugno'r materion sy'n codi trwy wasanaethau cymdeithasol a danariennir yn ôl y sôn a oedd yn ychwanegu at y pwysau pob dydd yr oedd athrawon yn eu hwynebu.

Dwi'n teimlo hefyd fatha does 'na'm pwysa' gwaith gymaint dros yr ha' hefyd, so ti'n cael cyfla fatha . . . Yn ystod fatha gwyliau yn ystod y flwyddyn, dwi'n teimlo fatha ti hefo gwaith ysgol i ddal fyny hefo, ond ti'n cael cyfla i actually neud rhywbeth yn gwylia ha'. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Mae o'n cymryd tua phythefnos i blant ddechrau ymlacio gwylie'r ha' a dod dros bwysau gwaith, yn enwedig adeg TGAU, Lefel A. Ac wedyn mae pythefnos, tair wthnos le maen nhw'n mwynhau, ac wedyn tua wthnos neu ddwy cyn mynd yn ôl i'r ysgol, maen nhw'n dechrau poeni eto be sy'n mynd i ddigwydd ym mis Medi pan maen nhw'n mynd yn ôl. (Rhiant - sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd gwyliau'r haf yn cael eu hystyried yn gyfle i ddysgwyr a staff 'ailgalibro'. Fel rhan o'r budd hwn, eglurodd un cyfranogwr o'r gweithlu addysg, roedd uwch dimau arwain yn gallu **gwneud penderfyniadau gwell** ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar gael amser i fyfyrio yn hytrach na bod yn brysur drwy'r amser yn ystod gweddill y flwyddyn pan oedd hi'n anos gwneud penderfyniadau o'r fath.

Roedd rhanddeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg weithiau'n dweud yn ystod y trafodaethau ansoddol bod y chwe wythnos o wyliau haf yn ffactor pwysig ar gyfer **recriwtio** a **chadw** athrawon, gan helpu'r sector i gystadlu â chyfleoedd eraill i raddedigion. Dywedodd cwpl o gyfranogwyr fod y gwyliau ysgol hwy'n gyfaddawd am beidio â bod â'r gallu i gymryd unrhyw ddiwrnodau eraill o wyliau yn ystod y flwyddyn. Pe baent yn cael eu byrhau, byddai rhai athrawon yn gadael y proffesiwn a oedd eisoes yn wynebu heriau gyda recriwtio a chadw yn ôl y sôn, dyna oedd y rhybudd gan rai rhanddeiliaid ac aelod o'r gweithlu addysg. Hefyd, nid nawr fyddai'r amser i gyflwyno model newydd o ystyried y croniad o newidiadau eraill a oedd yn digwydd, ychwanegodd un cyfranogwr o'r gweithlu addysg, ynghyd â'r tryblith a'r pwysau ar ysgolion o ganlyniad i'r pandemig.

Byddwn i'n dweud, i mi, mai hyd y gwyliau rydych yn eu cael [yw'r hyn rwy'n ei hoffi]. Pythefnos dros y Nadolig a gwyliau'r haf hefyd. Mae'r [diffyg] penwythnosau hir yn rhyw fath o aberth i gael gwyliau hwy. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rwy'n meddwl y bydd staff ysgolion yn gadael yn un fflyd. . . . Nid barn bersonol yw hynny, ond ffaith. Dyna'r adborth yr wyf fi wedi'i gael. Nid dim ond oherwydd hyn, mae'n groniad o ffactorau. Y rheswm, am a wn i, yw bod newid mor aruthrol wedi bod yn digwydd am gyhyd ac ar rai pethau dydych chi ddim yn gallu lleisio'ch barn. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

O gael eu cymell, roedd rhai dysgwyr yn cytuno bod ar athrawon angen gwyliau hir hefyd ac y byddai mwy na thebyg yn **helpu eu profiadau dysgu** bod ganddynt athrawon nad oeddent wedi ymlâdd. Gan gymryd cam yn ôl, fe wnaed y pwynt ymhlith rhanddeiliaid, os oedd angen wythnosau lawer ar athrawon i gael eu cefn atynt, yna roedd angen adolygu'r system addysgu ei hun i **leddfu'r pwysau hynny** a gwella lles. Mewn cyferbyniad, roedd rhai cyfranogwyr o fyd busnes ac un neu ddau o randdeiliaid yn anghytuno, gan ddweud pa mor galed y mae eraill yn gweithio am ffracsiwn o'r gwyliau yr oedd athrawon yn eu cael.

Rwy'n meddwl mai iechyd meddwl athrawon [yw'r peth pwysicaf]. Oherwydd os nad yw'r athrawon ar eu gorau yna fyddan nhw ddim yn gallu eich addysgu chi ac fe allech syrthio ar ei hôl hi yn yr ysgol. (Dysgwr)

Yn ôl ychydig o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg, roedd gwyliau haf hir yn helpu i greu ymdeimlad o **ddechrau newydd** i ddysgwyr a staff ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd gydag egni newydd. Roedd yr ymdeimlad hwn o ailosod a momentwm cychwynnol ar ddechrau'r flwyddyn yn hanfodol i'w warchod, yn eu tyb hwy. Roedd un cyfranogwr a wnaeth y pwynt yma'n cydnabod hefyd nad oedd ar yr ymdeimlad hwn o newid angen y chwe wythnos lawn o anghenraid i gael un effaith o ran diwedd naturiol i gyfnod allweddol.

4.2.2 Ffocws ar deuluoedd a ffordd o fyw

O safbwynt ffordd o fyw, roedd y chwe wythnos o wyliau haf yn ddigon hir i ddarparu **hyblygrwydd** i **deuluoedd gynllunio gwyliau,** yn nhyb rhai cyfranogwyr yn y trafodaethau ansoddol, yn ogystal â darparu peth **amser o ansawdd gyda'r teulu** ni waeth pa un a oeddent yn teithio ai peidio. Roedd hefyd yn rhoi digon o amser i rieni â **theulu dramor** ymweld â hwy a oedd yn lleihau cyfraddau'r rhieni sy'n tynnu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor.

Rwy'n meddwl bod y chwe wythnos o wyliau'n dda oherwydd bod chwe wythnos yn rhoi amser i chi fynd ar wyliau. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rwyf fi o dramor felly mae angen y chwe wythnos hynny arnaf i fynd draw i weld fy nheulu, a dweud y gwir, achos mae wedi bod cymaint yn anos i mi allu mynd adref ers i'r plant ddechrau yn yr ysgol. Does dim pwynt mynd am wythnos, felly rwyf wir yn gwerthfawrogi cael y chwe wythnos. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rydym yn ysgol sy'n amrywiol [iawn] o safbwynt ethnigrwydd. . . . Felly, er enghraifft mae gennym gyfran uchel o ddysgwyr o [wahanol rannau o'r byd], ac mae'r cyfleoedd hynny i fynd adref ac ymweld â theulu mewn gwirionedd yn golygu bod llai o effaith ar weddill y flwyddyn. (Y gweithlu addysg)

Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu y byddai gwyliau haf byrrach yn golygu **prisiau uwch byth** am wyliau teuluol a llai o ddewis o ran pryd i fynd ar y gwyliau hynny yn ystod y tywydd cynhesach yn y flwyddyn.

Nid oedd gwyliau teuluoedd hwy'n cael eu hystyried yn rhywbeth a oedd yn berthnasol i rieni cyfoethog yn unig, eglurodd un rhanddeiliad. Gallai plant dreulio wythnosau dros yr haf gyda mam-gu a thad-cu yng ngharafán y teulu, er enghraifft, gan greu **atgofion plentyndod cadarnhaol**.

Roedd rhai rhieni'n rhesymu hefyd, wrth i'w **plant dyfu'n hŷn**, bod gofal plant yn mynd yn llai o broblem dros wyliau ysgol hwy a'i fod yn haws i'w gynllunio. Roedd y gwyliau hwy hefyd yn llai o broblem os oedd rhiant yn hunangyflogedig neu'n gweithio gartref yn amlach oherwydd y pandemig, yn ôl ychydig o rieni.

4.2.3 Ffocws ar fusnesau

Gan ganolbwyntio ar **fusnesau**, fe wnaed y pwynt ymhlith rhanddeiliaid yn y trafodaethau manwl mai twristiaeth oedd ail ddiwydiant mwyaf Cymru a'i fod yn ddibynnol iawn ar **incwm a gaiff ei greu yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst**. Felly roeddent yn credu'n gryf bod y flwyddyn ysgol bresennol yn gweithio'n dda o safbwynt economaidd lle mae'r sector twristiaeth yn y cwestiwn.

> *Rydym yn cael cyfnod gwych yn yr haf, felly mae'r gwyliau mwy na thebyg yn helpu i gynyddu refeniw. Gallwn ennill 20, 30 mil mewn wythnos. (Busnes)*

I rai busnesau twristiaeth a lletygarwch nad oeddent yn dymuno gweld yr haf yn cael ei fyrhau, roedd y chwe wythnos o wyliau yn yr haf (ar y cyd â thywydd da) felly'n **hanfodol i'r busnes yn ariannol**. Ar ben hynny, dadleuwyd fod y gwyliau haf hir, pan fo'r diwrnodau'n hwy a'r tywydd yn well, yn galluogi **atyniadau twristaidd awyr agored** i gynyddu eu hincwm i'r eithaf. Pe bai unrhyw wythnosau o wyliau haf yn cael eu symud i'r misoedd oerach, byddai'n drychinebus i'r diwydiant ac yn arwain at golli swyddi, yn ôl yr hyn a rybuddiwyd gan un cyfranogwr busnes. Roedd cwpl o ddysgwyr hefyd yn pryderu y gallai gwyliau byrrach yn yr haf effeithio ar yr economi leol yn eu hardal lle'r oedd twristiaeth yn bwysig. Ar ben hynny, roedd un rhanddeiliad yn dychmygu y byddai'n cynyddu cystadleuaeth am wyliau ac yn gallu golygu bod cwsmeriaid posibl yn dewis mynd ar wyliau dramor yn lle ar adegau eraill o'r flwyddyn pan oedd y tywydd yn fwy amrywiol. Roeddent yn rhesymu efallai na fyddai mor rhwydd cadw'r farchnad yna yng Nghymru.

> *Os maen nhw'n torri gwyliau ha', os maen nhw'n neud o'n llai, bydd llai o bobl yn mynd i fatha prynu hufen iâ neu be bynnag, felly bydd yr economi lleol hefo llai o bres. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

> *Os ydych yn ailddosbarthu'r gwyliau hynny i rannau eraill o'r flwyddyn, wel mae rhannau eraill o'r flwyddyn yn tueddu i fod yn wlypach, yn fwy gwyntog, yn wir yn fwy tebygol o fod yn oerach, felly ni fyddai llawer o fudd yn dod i ran busnesau llai mewn gwirionedd. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Nid oedd perchennog gwesty yng Ngheredigion, er enghraifft, na pherchennog llety Airbnb / siop yn Eryri yn meddwl y byddai ymwelwyr yn ymweld â'r ardal yn ystod misoedd y gaeaf pan oedd y tywydd yn wael. Felly nid oeddent yn credu y byddai gwasgaru'r gwyliau trwy gydol y flwyddyn yn golygu tymor busnes hwy.

Fel a nodwyd yn yr adborth ansoddol yn 4.2.1, roedd y gwyliau haf hir yn ôl y sôn yn helpu gyda **staffio tymhorol** oherwydd nifer y dysgwyr hŷn sy'n ceisio gwaith achlysurol. Hefyd, meddai rhai cyfranogwyr busnes, roedd gwyliau'r haf yn rhoi amser i ddod o hyd i staff a'u hyfforddi, gan alluogi cyflogwyr i **wasgaru gwyliau blynyddol staff** fel bod busnes yn gallu dal i fod yn weithredol.

> *Gennych chi chwech wsnos i jyglo be dach chi isio neud. Ac mae o'n haws i ni fel busnas hefo 20 o staff i allu jyglo bod 'na dair neu bedair off dros gyfnod y chwech wsnos na be fysa fo cyfnod byr 'de. (Busnes – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Yn ôl un rhanddeiliad, roedd recriwtio staff ar gyfer y sector gofal plant yn her yn ystod y chwe wythnos o wyliau haf ond roedd yn galluogi darparwyr gofal plant a chynlluniau chwarae i **recriwtio gweithwyr tymhorol** yn rhwyddach ar gyfer darpariaeth yn ystod y gwyliau yn unig. Y gred oedd bod hyn yn arwain at ddewis ehangach i rieni a mwy o gyfleoedd i blant. Yn yr un modd, gan bod strwythur presennol y flwyddyn ysgol yn gyffredin ar draws lleoliadau cyn-ysgol ac ôl-16, o safbwynt darparwyr chwarae, roedd hyn yn golygu bod dysgwyr chweched dosbarth a myfyrwyr AB ar gael fel gweithwyr tymhorol ar gyfer cynlluniau chwarae yn yr haf.

Fe ychwanegodd cyfranogwr o fusnes yn y sector gofal plant fod arnynt wastad angen rhywun i gyflenwi pan fo aelod o staff yn cymryd gwyliau blynyddol. Felly gallai gwyliau haf byrrach olygu bod ar ragor o staff eisiau gwyliau ar yr un pryd a **chynnydd mewn costau staffio** ar gyfer y busnes.

Nid oedd ychydig o gyfranogwyr busnes yn meddwl bod hamdden a lletygarwch yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru o ystyried profiadau yn ystod pandemig y coronafeirws. Roedd gwyliau haf wedi'u byrhau'n cael eu dehongli fel **cyfnod masnachu allweddol wedi'i fyrhau** ni waeth sut yr oedd y flwyddyn yn cael ei hailstrwythuro. Gan ymhelaethu ar y pwynt yma, eglurodd un cyfranogwr busnes, er bod gan Iwerddon a'r Alban ill dwy wyliau ysgol gwahanol i Gymru a Lloegr, nad oes digon o fasnach dwristaidd o'r gwledydd hyn yn ystod y gwyliau ysgol i ategu newid yng ngwyliau Cymru.

4.3 Cysondeb â Lloegr

Tynnodd rhai rhanddeiliaid yn y trafodaethau ansoddol sylw at y ffaith bod y flwyddyn ysgol bresennol wedi'i chyflunio yn yr un ffordd ag yn Lloegr ac, yn fras, yng Ngogledd Iwerddon. Roedd hyn yn golygu y dylai fod **trefniadau amserlennu arholiadau** cyffredin ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda chyfnod yr arholiadau'n rhedeg fwy neu lai o ganol mis Mai tan ddiwedd mis Mehefin. Fe egluron nhw ei fod yn galluogi dysgwyr yng Nghymru i sefyll arholiadau (er enghraifft TGAU a Safon Uwch) ar yr un dyddiad ac amser â dysgwyr yn Lloegr. Gallai dysgwyr hefyd gael mynediad at rai o'r cymwysterau Safon Uwch a TGAU ehangach hynny mewn pynciau â llai yn eu hastudio lle nad oedd yn hyfyw eu cael yng Nghymru. Am y rheswm hwn, roedd cysondeb â'r mwyafrif o'r flwyddyn ysgol yn Lloegr yn cael ei ystyried yn bwysig.

Fe wnaeth rhai cyfranogwyr y sylw bod cysondeb bras â'r flwyddyn ysgol yn Lloegr o fantais am resymau eraill. Roedd yn **helpu teuluoedd** a oedd yn byw yng Nghymru'n agos at y ffin ond yn gweithio yn Lloegr, a theuluoedd a oedd â phlentyn mewn ysgol yng Nghymru ac mewn ysgol yn Lloegr. Dywedodd rhai fod cysondeb hefyd yn ei gwneud yn **haws i fusnesau** â chyflogeion yng Nghymru a Lloegr gynllunio â mwy o sicrwydd yn ogystal â sicrhau y gallai busnesau yn y sector twristiaeth fod ag adnoddau digonol ar adegau prysur.

> *Un o'r manteision i'r busnesau hynny yn enwedig y rhai a chanddynt fwy nag un safle, yw bod y gwyliau'n gyson fwy neu lai â Lloegr. Felly, i'r gweithluoedd hynny sy'n croesi ffiniau, i'r busnesau hynny sydd â mwy nag un safle, eto mae'n gwneud y sefyllfa'n fwy rhagweladwy, ac mae hynny o fudd i fusnesau wrth gynllunio. Pan eu bod yn amrywio'n sylweddol, yna'n amlwg mae'n anorfod bod y newid hwnnw'n*

mynd yn fwy problemus yn enwedig i fusnesau bach. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

4.4 Mae'r gwyliau ysgol yn cyd-daro â'r Pasg

Crybwyllodd nifer fach o rieni yn ystod y trafodaethau ansoddol fod y ffordd yr oedd gwyliau'r Pasg yn cyd-daro â dwy ŵyl banc yn lleihau swm y **gwyliau yr oedd yn rhaid iddynt eu cymryd** yn y gwaith i ofalu am y plant. Dywedodd un cyfranogwr o'r gweithlu addysg fod trefn lle mae gwyliau ysgol wedi'u cysylltu â'r Pasg yn bwysig iawn i rai **ysgolion ffydd** am ei fod yn trefnu eu cwricwlwm. Roedd hefyd yn draddodiadol yn nodi dechrau'r **tymor twristiaeth** yng Nghymru, meddai un rhanddeiliad. Trafodir canfyddiadau pellach am wyliau'r Pasg yn 5.2.

I roi cyd-destun, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn yr arolygon meintiol unrhyw farn gref pa un a ddylai penwythnos Gwyliau Banc y Pasg fod yn ystod gwyliau ysgol ynteu yn ystod y tymor. Nid oedd gan ddeg aelod o'r cyhoedd (61%) farn y naill ffordd na'r llall ynglŷn â'r mater ac roedd yr un peth yn wir am 55% o fusnesau / rheolwyr, 53% o athrawon ac eraill sy'n gweithio yn y sector addysg a 52% o rieni / gofalwyr.

Byddai'n well gan ddeg aelod o'r cyhoedd (30%) bod y Pasg yn digwydd yn ystod gwyliau ysgol, fodd bynnag, ac felly hefyd 35% o rieni / gofalwyr, 33% o'r gweithlu addysg a 31% o fusnesau / rheolwyr. Byddai'n well gan gyfrannau llai o bob cynulleidfa pe bai'r Pasg yn digwydd yn ystod y tymor ysgol (sef 9%, 13%, 14% ac 14% yn y drefn honno).

Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o ddweud y byddai'n well ganddynt i'r Pasg ddigwydd yn ystod gwyliau ysgol, serch hynny – dyma oedd dewis 44% o'r bobl ifanc 7 – 18 oed a arolygwyd, o'i gymharu â 41% a oedd gwahaniaeth ganddynt y naill ffordd na'r llall a 7% y byddai'n well ganddynt i'r Pasg ddigwydd yn ystod y tymor.

5. Materion canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol bresennol yng Nghymru

Pwyntiau allweddol yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr

- *Ystyrir bod y chwe wythnos o wyliau haf yn rhy hir – roedd cyfran uwch o gyfranogwyr yn yr arolwg yn teimlo y dylent fod yn fyrrach nag oedd am iddynt aros ar eu hyd presennol (ac eithrio dysgwyr).*
- *Mae colled dysgu'n digwydd yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ac agored i niwed oherwydd y chwe wythnos o wyliau haf.*
- *Gall absenoldeb amgylchedd cefnogol yr ysgol dros chwe wythnos fod yn arbennig o niweidiol i ddysgwyr agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.*
- *Mae colled dysgu'n wir ynglŷn â chadw eu Cymraeg i rai plant.*
- *Gall dysgwyr ddechrau diflasu tuag at ddiwedd gwyliau'r haf.*
- *Roedd wyth ymhob deg rhiant / gofalwr yn yr arolwg meintiol yn cytuno bod hyd presennol gwyliau ysgol yr haf yn gwneud gofal plant yn anodd i rieni sy'n gweithio.*
- *Yn yr arolygon meintiol, roedd y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn cytuno y byddai'n dda bod â phatrwm mwy cyson o dymhorau a gwyliau ysgol. Gall tymhorau amrywiol a hwy gael effaith niweidiol ar ddysgwyr, staff addysg ac ysgolion, yn ôl rhai cyfranogwyr yn y sgyrsiau manwl.*

5.1 Y chwe wythnos o wyliau haf

Fe wnaeth hyd presennol y gwyliau haf ddominyddu'r trafodaethau manwl ynglŷn â'r hyn a oedd yn llai cadarnhaol ynglŷn â strwythur presennol y flwyddyn ysgol. Fel a drafodwyd uchod, er bod oddeutu pedwar ymhob deg o'r holl gynulleidfaoedd (ac eithrio dysgwyr) yn yr arolygon meintiol yn fodlon ar hyd presennol gwyliau'r haf, roedd cyfran uwch yn teimlo ar y cyfan y dylent fod yn fyrrach. Roedd 53% o aelodau'r gweithlu addysg a arolygwyd yn teimlo bod chwe wythnos yn yr haf yn rhy hir, ac felly hefyd 52% o rieni / gofalwyr, 49% o'r cyhoedd a 44% o fusnesau / rheolwyr. Dim ond 30% o ddysgwyr fynegodd y farn hon, serch hynny.

Nid oedd ar y mwyafrif o'r rhai a ddwedodd fod chwe wythnos yn rhy hir eisiau newid sylweddol. Roedd ar y rhan fwyaf a oedd yn meddwl bod hynny'n rhy hir eisiau i'r gwyliau fod 'ychydig yn fyrrach' – sef 46% o'r gweithlu addysg, 33% o rieni / gofalwyr, 27% o'r cyhoedd a 24% o fusnesau / rheolwyr.

Roedd cyfrannau llawer llai o bob cynulleidfa'n teimlo bod chwe wythnos yn rhy fyr – sef 17% o fusnesau / rheolwyr, 12% o rieni / gofalwyr, 11% o'r cyhoedd a dysgwyr a 3% o'r gweithlu addysg (gweler Ffigur 5).

Ffigur 5: Barn ynglŷn â hyd y gwyliau ysgol o chwe wythnos ar hyn o bryd (%)



Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

* Roedd geiriad y cwestiwn a'r opsiynau ymateb ar gyfer Dysgwyr ychydig yn wahanol: *Ar hyn o bryd mae gwyliau ysgol yr haf yn para am 6 wythnos. A yw hynny'n rhy fyr, yn iawn fel ag y mae ynteu'n rhy hir?* Dangosir ymatebion dysgwyr ar gyfer 'rhy hir' fel 'dylent fod ychydig yn fyrrach'; dangosir ymatebion dysgwyr ar gyfer 'rhy fyr' fel 'dylent fod ychydig yn hwy'.

5.1.1 Effaith ganfyddedig ar ddysgwyr

Un o'r themâu allweddol i ddod i'r amlwg o'r trafodaethau manwl oedd sut y gallai'r chwe wythnos o wyliau haf arwain at **golled dysgu** wrth i ddysgwyr golli'r momentwm a ddatblygwyd yn ystod gweddill y flwyddyn, ni waeth beth fo cefndir plentyn. Y gred yn aml oedd bod dysgwyr yn cymryd mwy o amser i ymgyfarwyddo drachefn â gwaith academaidd ar ôl chwe wythnos o beidio â dysgu. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys dysgwyr yn mynd trwy broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a dysgwyr ysgol uwchradd a fyddai mwy na thebyg wedi treulio cryn dipyn o wyliau'r haf ar eu ffonau, eglurodd un cyfranogwr o'r gweithlu addysg. Fe wnaeth un o'r rhanddeiliaid ddyfynnu ymchwil o UDA hefyd sy'n dangos y gallai gwyliau haf hir olygu bod dysgwyr yn colli hyd at 40% o'u gwybodaeth[13]. Crybwyllwyd y mater ymhlith y gweithlu addysg, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid. Fe ychwanegodd un rhanddeiliad y gallai tymor yr haf deimlo fel bod amser yn yr ysgol yn cael ei wastraffu am bod dysgwyr sy'n gwneud arholiadau'n gorffen yn gynnar ym mis Mehefin fel arfer.

[13] Gweler https://www.aera.net/Newsroom/Schools-Out-The-Role-of-Summers-in-Understanding-Achievement-Disparities. Gweler hefyd https://llyw.cymru/effaith-newidiadau-ir-flwyddyn-ysgol-chalendrau-ysgol-amgen-adolygu-tystiolaeth-crynodeb-html a wnaeth fwrw golwg ar lenyddiaeth gan gynnwys astudiaethau o Gymru, y DU ehangach ac UDA.

B: Pan oeddem yn dysgu gartref, pan es i yn ôl i'r ysgol fe'i cefais ychydig yn anodd. G: Rwy'n ei chael yn anod cofio rhai pethau, yn enwedig pethau fel mathemateg. (Dysgwyr – sylwadau a wnaed yn Saesneg)

Beth ni'n gweld, maen nhw'n cwympo tu ôl lot mwy. Pob mis Medi, pob mis Hydref, ni'n ail dysgu'r stwff o'n i 'di dysgu. Ac mae hi'n cymryd lot o amser iddyn nhw switsho yn ôl 'mlaen ym mis Medi hefyd. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Rwy'n meddwl bod rhaid i ni ganolbwyntio ar y gwyliau haf hir hynny a cholled dysgu. Rwy'n meddwl gyda hyn oll, yn y pen draw, bod rhaid i ni feddwl beth sy'n mynd i fod orau i'r dysgwyr gan gael yr effaith leiaf. A gobeithio y bydd yn gwella lles staff hefyd. (Rhanddeiliad)

Roedd cyfranogwyr hefyd yn meddwl bod colled dysgu'n broblem i ddysgwyr mewn ysgol Gymraeg nad oeddent yn siarad rhyw lawer neu **nad oeddent yn siarad Cymraeg o gwbl** gartref, gan arwain at chwe wythnos heb siarad yr iaith. Eglurodd ychydig o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg fod y gwyliau hir yn effeithio ar ddatblygiad iaith y dysgwyr hyn ac yn ei gwneud yn anodd iddynt ail-ymgysylltu â'r iaith.

Mae bod yn ysgol Gymraeg â chyfran uchel iawn o rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn golygu bod safon Cymraeg y dysgwyr yn dirywio'n fawr iawn dros wyliau'r haf, felly mae'n teimlo fel ein bod wastad yn ceisio dal i fyny. Rydym yn eu gwthio i lefel benodol ac yna dros y chwe wythnos, pan ydynt yn ôl, mae'r tymor yn teimlo fel bod rhaid i chi ddysgu Cymraeg iddynt o'r dechrau eto. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd rhai cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl yn credu y galla gwyliau haf hir olygu mwy o anawsterau i **ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig** gan eu bod yn colli'r cymorth a geir mewn lleoliad ysgol, er enghraifft rhyngweithio cymdeithasol, prydau ysgol am ddim, cymorth dysgu ac emosiynol ac arweiniad moesol. Felly gallai eu hiechyd a'u lles cyffredinol gael eu peryglu, yn ôl rhai. Codwyd y mater hwn ymhlith cyfranogwyr o'r gweithlu addysg, busnesau gofal plant a rhanddeiliaid. Efallai mai prin y byddai'r dysgwyr hyn yn gadael eu cartref, meddent; felly roedd yn cymryd peth amser iddynt ailafael yn rhythm y flwyddyn ysgol ac ail-feithrin perthnasoedd. Gallai rhai dysgwyr agored i niwed fod ar bigau drain i ddychwelyd i'r ysgol oherwydd problemau gartref ac am eu bod wedi colli sefydlogrwydd a sicrwydd ysgol. Dylid nodi, serch hynny, nad oedd rhai cyfranogwyr a wnaeth y sylwadau hyn o anghenraid yn meddwl mai diwygio'r flwyddyn ysgol oedd yr ateb i'r broblem.

Mae'r chwe wythnos yn gallu bod yn amser hir iawn os oes ganddynt broblemau gartref, a'u bod heb staff cymorth i siarad gyda hwy. Maen nhw ar eu pennau eu hunain yn hynny o beth. Mae'n gas gan rai o'r plant feddwl am gael y chwe wythnos o wyliau. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

'Dyn nhw'm 'di bod yn unlle am chwech wsnos. Ac i'r rhai sy'n cael cinio am ddim a phethau, ti'm yn gwybod faint o fwyd maen nhw 'di cael yn ystod y gwylia. Ac maen

nhw'n ysu, 'dyn nhw'm isio cyfadda, ond maen nhw'n falch o gael mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Pwynt pellach a wnaed gan un rhanddeiliad oedd bod y **pandemig** wedi dangos bod y plant mwyaf agored i niwed yn cael eu gadael i lawr yn ystod mis a hanner i ffwrdd o'r ysgol. Roedd hyn nid yn unig yn fater addysgu ond hefyd o ran yr elfennau gofal, sefydlogrwydd, cysondeb a diogelu a ddarperir gan ysgolion. Gan grynhoi'r sefyllfa ar gyfer dysgwyr agored i niwed, disgrifiodd cyfranogwr a oedd yn gweithio gyda phlant nad ydynt yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig a gynhelir sut yr oedd plant sy'n byw mewn tlodi heb ryw lawer o fynediad neu heb unrhyw fynediad at ofal, cymorth, arweiniad, bwyd, oedolion sydd ar gael, nac unrhyw beth sy'n cyfoethogi bywyd ac eithrio 'to uwch eu pen', am gyfnodau hir.

Ceir cynnydd sylweddol bob amser mewn troseddau ieuenctid ac yn eu hymwneud â'r gyfundrefn cyfiawnder ieuenctid dros yr haf. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Dywedodd rhai aelodau o'r gweithlu addysg, rhanddeiliaid ac ychydig o rieni y gallai gwyliau haf hir a diffyg strwythur gael effaith ar blant ag **anghenion dysgu ychwanegol hefyd**. Eglurodd rhai rhanddeiliaid sut y gallai dysgwyr o'r fath ei chael yn anodd ymgysylltu drachefn ar ôl y gwyliau haf hir gan eu bod wedi bod heb y cymorth yn yr ysgol a oedd yn dod i ben yn ystod gwyliau ysgol. Mewn rhai achosion, y gred oedd bod hyn yn rhwystr mawr i ddatblygiad dysgwyr. Ar ben hynny, roedd cymhlethdod anghenion dysgu ychwanegol rhai plant yn golygu y gallent **lithro'n ôl** o ran dysgu a'u sgiliau cymdeithasol yn ystod gwyliau haf hir, yn ôl un rhanddeiliad. Roedd **diffyg gorchwylion rheolaidd** yn cael effaith negyddol ar blant yn gyffredinol, yn nhyb rhai rhieni a rhanddeiliaid, er enghraifft gyda phlentyn iau a oedd yn dechrau 'camymddwyn' yn fwy wrth i wyliau'r haf fynd rhagddynt.

Ei hymddygiad, mae hi'n mynd ychydig yn garcharwyllt am ei bod wedi diflasu ac o dan do ac yn disgwyl i mi ddod yn ôl o'r gwaith. Mae hynny'n effeithio arnaf fi, rwy'n teimlo'i fod yn amser hir. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Mae syndrom Asperger ar fy mab o safbwynt strwythur – ydy, mae'n cael anhawster gyda hynny. Ond i'm merch sydd heb yr angen hwnnw, [mae gwyliau'r haf yn] rhy hir iddi hi hefyd. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Ac mae'r gwahaniaeth hyd yn oed mwy, i'r rhai sy'n cael prydiau ysgol am ddim. A fi'n gweld lot o wahaniaeth gydag anghenion dysgu ychwanegol, enwedig y rhai sydd ddim 'di bod yn cymdeithasu gyda phobl dros y gwyliau haf. So ni'n sôn am phethau fel ASD [Autism Spectrum Disorder] a stwff fel'na. Yn llythrennol, mae rhai pobl yn cwympo reit y ffordd yn ôl. So i'r dysgwyr yna, sai'n meddwl bod o'n rhywbeth positif iawn. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

O safbwynt rhiant felly, gyda rhai o'r disgyblion mwyaf cymhleth, yn nhymor yr haf, mae'n amser hir i gael y disgyblion hyn gartref. Yn yr un ffordd, ceir tystiolaeth glir eu

bod yn llithro'n ôl o ran dysgu, sgiliau cymdeithasol, ymgysylltu ac yn y blaen. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd effaith anuniongyrchol gwyliau hir yr haf yn broblem i rai **meithrinfeydd** a oedd yn darparu gofal plant Dechrau'n Deg. Eglurodd perchnogion sut y byddent yn 'colli' y plant mwyaf **agored i niwed** dros wyliau'r haf a hwythau'n cael eu cadw gartref yn ystod y cyfnod hwnnw neu am nad oedd y cyllid a oedd ar gael yn talu am wyliau'r haf yn eu cyfanrwydd. Roeddent yn bryderus ynghylch lles plant agored i niwed am gyfnod mor estynedig.

Maen nhw'n mynd oddi ar y radar, felly nid yw rhai plant yn cael eu bwydo. . . . Wedyn mae wastad problem pan ydynt yn dod yn ôl ag ewinedd traed wedi tyfu'n rhy hir neu a hwythau wedi colli pwysau, pethau fel yna. Dyna lle mae [y gwyliau haf presennol] yn effeithio arnom ni. (Busnes – sylw a wnaed yn Saesneg)

Ar draws y gwahanol grwpiau o gyfranogwyr, cydnabuwyd y gallai'r gwyliau haf hir olygu **diflastod** i ddysgwyr tuag at ddiwedd y gwyliau. Roedd ceisio dod o hyd i bethau i'w gwneud gyda'r plant yn aml yn ddrud hefyd ac roedd rhieni'n dod yn fwy dibynnol ar sgriniau i gadw eu plant yn ddiddig, eglurodd rhai cyfranogwyr.

Rwy'n meddwl bod y plant erbyn wythnos pedwar, pump yn colli eu ffrindiau a'r rhyngweithiadau hynny ac wedi cael digon ar mam a dad, hefyd. Wel, efallai mai fy rhai i sy'n syml wedi cael digon arnaf fi! Ond rwy'n meddwl eu bod yn colli'r rhyngweithio cymdeithasol yna o fod yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn hoff iawn o drefn reolaidd hefyd. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rwy'n meddwl, ta waeth am anghenion dysgu, ei fod yn rhy hir yn gyffredinol i blant. Daw amser pan nad oes ond cymaint o bethau y gallwch chi eu gwneud. Mae fel pe baent heb strwythur i'w diwrnod ac yn y pen draw mae'n syml yn rhy hir. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Dywedodd un rhanddeiliad mai 'myth' ydoedd yn ôl y sôn bod y gwyliau haf hir yn galluogi plant i chwarae gan mwyaf. Fe wnaeth y sylw bod ffocws, yn draddodiadol, ar **gynlluniau gwaith chwarae** tymhorol felly bod recriwtio a chadw gweithwyr chwarae cymwysedig, medrus yn her. Fe ddwedodd hefyd fod cyllid i'r sector sy'n cefnogi plant yn ystod gwyliau'r haf yn cael ei ddarparu ar sail ad hoc, ac nad oedd yn ddigon yn ôl y sôn, gan olygu nad oedd modd sicrhau gwasanaeth o ansawdd.

Fodd bynnag, fel a ddisgrifiwyd yn 3.2, roedd rhai cyfranogwyr yn **amau** a oedd hyd gwyliau ysgol yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r heriau a wynebir gan ddysgwyr agored i niwed. Roeddent yn tybio y byddai'r materion hyn yn bodoli ni waeth beth oedd hyd y gwyliau. Hefyd, er eu bod yn cytuno bod gwyliau'r haf yn rhy hir, nid oedd rhai cyfranogwyr yn siŵr mai ad-drefnu'r flwyddyn ysgol oedd **yr ateb** i fynd i'r afael â'r materion yr oedd rhai dysgwyr yn eu hwynebu oherwydd y gwyliau haf hir.

5.1.2 Effaith ganfyddedig ar rieni / gofalwyr

Roedd bron i wyth ymhob deg rhiant / gofalwr (78%) a busnes / rheolwr (76%) yn yr arolygon meintiol yn cytuno â'r datganiad *Mae hyd presennol gwyliau ysgol yr haf yn*

gwneud gofal plant yn anodd i rieni sy'n gweithio. Roedd saith ymhob deg aelod o'r cyhoedd (70%) hefyd yn cytuno mai felly yr oedd hi. Roedd llai nag un ymhob pump yn anghytuno.

Roedd cytundeb yn is ymhlith y gweithlu addysg, serch hynny, (sef 51%) ac yn is byth ymhlith dysgwyr (sef 34%) (gweler Ffigur 6).

Ffigur 6: Hyd gwyliau'r haf a gofal plant (%)



*Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)** Cafodd y datganiad ar gyfer dysgwyr ei addasu i *Mae fy rhiant neu ofalwr weithiau'n ei chael yn anodd gofalu amdanaf yng ngwyliau'r haf am bod rhaid iddynt weithio* ac roedd y raddfa'n amrywio o *Cytuno'n fawr* i *Anghytuno'n fawr*

Cafodd heriau gyda **gofal plant** yn ystod y gwyliau haf hir eu codi ymhlith y gwahanol gynulleidfaoedd ymchwil yn y trafodaethau manwl. Roedd rhai rhieni'n ei chael yn anodd ei drefnu a thalu amdano, yn enwedig rhieni sengl. Er y gallai gofal plant gael ei drefnu'n foddhaol ar gyfer un wythnos o wyliau, roedd y gwyliau haf hir yn y flwyddyn ysgol bresennol yn profi'n llawer anos dygymod â hwy, i rai rhieni, yn enwedig y rhai â phlant iau nad oeddent yn gallu cael eu gadael gartref ar eu pennau eu hunain ac, ychwanegodd un rhanddeiliad, o ystyried tlodi mewn gwaith eang yng Nghymru yn ôl y sôn[14].

> *Rwy'n gweithio'n rhan-amser ac mae gennym fusnes sy'n seiliedig ar dwristiaeth, felly roedd yn anodd iawn yr haf hwn pan orffennodd hi yn ei Chylch – sef ei lleoliad*

[14] Gweler:
- https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2019-i-fawrth-2020-html
- https://llyw.cymru/maer-rhan-fwyaf-o-blant-sydd-mewn-tlodi-yn-byw-ar-aelwydydd-syn-gweithio-adroddiad-newydd

cyn-ysgol – a minnau wedyn yn profi chwe wythnos pan oedd hi'n gyfyng iawn arnaf o ran gofal plant [cyn y pandemig]. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roeddwn i mewn swyddfa. Nid wyf yn cael cymryd unrhyw wyliau ym mis Gorffennaf a mis Awst. Rwy'n gweithio i gwmni gwyliau coetsis a dydyn ni'n syml ddim yn gallu cymryd gwyliau. Felly oeddwn, roeddwn yn arfer ei chael yn anodd gyda gofal plant [cyn y pandemig]. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Yn Lloegr, efallai fod gwyliau haf hwy'n gweithio ond o ystyried bod gennym boblogaeth dlotach, cyfran fwy o bobl yn gweithio mewn swyddi â thâl is ac yn cael budd-daliadau, nid yw'n gwneud synnwyr cadw'r plant o'r ysgol am gyfnod mor hir. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

Gan adeiladu ar y pwynt yma, eglurodd un cyfranogwr o fyd busnes yn y sector gofal plant fod yn rhaid i glybiau y tu allan i'r ysgol yn ystod gwyliau ysgol gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) bellach os oedd y sesiynau'n para am fwy na dwyawr[15]. Eglurodd fod nifer o opsiynau felly wedi cael eu **lleihau i ddwy awr** i osgoi'r gofyniad hwn a oedd yn ei gwneud yn anos i rieni drefnu gofal.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd un rhanddeiliad sut yr oedd dysgwyr yn yr ysgol am 190 o ddiwrnodau, ond bod y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio'n gweithio hyd at 230 o ddiwrnodau. Felly nid oedd ganddynt **ddigon o wyliau** i gwmpasu'r gwyliau ysgol, a oedd yn rhoi pwysau ar eu trefniadau gofal plant, ac yn achosi anawsterau i gyflogwyr gyda rotâu staffio.

Hyd yn oed pan oedd gofal plant wedi'i drefnu, roedd gadael plentyn gyda gofalwyr neu fynd ar ofyn perthnasau am gyhyd dros yr haf yn creu ymdeimlad o **euogrwydd** i gwpl o rieni. Gallai **cadw plant yn ddiddig** am amser mor hir fod yn her hefyd.

Rwy'n tueddu i deimlo'n eithaf gwael yng ngwyliau'r haf. . . . Yn amlwg rwyf ar absenoldeb mamolaeth yn awr, ond fel arfer rwy'n gweithio'n llawn-amser – pum niwrnod ac oriau hir iawn – felly rwyf wastad yn teimlo'n wael, oherwydd os yw hi gyda gwarchodwr plant, dydw i ddim yn gallu ei difyrru hi gymaint. Felly erbyn y diwedd, rwy'n falch ei bod hi'n mynd yn ôl, fel ei bod hi'n gallu mynd yn ôl i'r ysgol a'i bod hi'n brysur. (Rhiant)

Roedd gorfod cymryd gwyliau teuluol ar **adeg ddrutaf y flwyddyn** yn broblem, yn ôl teimladau rhai rhieni. Hefyd, roedd y tywydd yn well ar y cyfan ym mis Mehefin a mis Gorffennaf o'i gymharu â mis Awst, meddai ychydig o gyfranogwyr, pan oedd trwch y gwyliau haf presennol yn digwydd. Er bod gorfod cymryd gwyliau ar adegau drud wedi'i amlygu fel problem, dadleuwyd hefyd, serch hynny, sut bynnag y byddai gwyliau ysgol yn cael eu newid, y byddai prisiau gwyliau'n syml yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau hynny.

[15] Gweler y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio.pdf

5.1.3 Effaith ganfyddedig ar fusnesau

Yn ôl cwpl o randdeiliaid yn y trafodaethau manwl, roedd chwe wythnos yn rhy hir o safbwynt busnesau bach a chanolig. Dadleuwyd fod rhaid i lawer o **fenywod sy'n rhedeg busnesau llai** flaenoriaethu gofal plant yn ystod gwyliau'r haf gan bod cost gofal plant yn fwy nag elw posibl. Yn ôl y sôn roedd hyd presennol y gwyliau haf yn rhwystr i ddechrau busnesau newydd posibl ac i dwf economaidd ar gyfer y perchnogion busnesau hyn.

Mewn enghraifft bellach o faterion, roedd un busnes twristiaeth yn targedu **cwsmeriaid hŷn**. Fodd bynnag, yn ôl y sôn roedd y cwsmeriaid hyn yn tueddu i osgoi gwyliau'r haf oherwydd y mewnlif o deuluoedd â phlant bach. Pe bai'r gwyliau **wedi'u gwasgaru'n fwy**, yn ôl un cyfranogwr, gallai'r rhan hon o'r farchnad fod â mwy o ddewis o ran pryd i gymryd gwyliau. Eglurodd busnes twristiaeth arall na allent ateb y galw dros wyliau ysgol yr haf a'u bod yn credu y gallai blwyddyn ysgol wedi'i gwasgaru'n fwy ddarparu mwy o opsiynau ar gyfer y rhai a oedd yn dymuno aros gyda hwy.

5.2 Hydoedd tymhorau a'r Pasg

Yn yr arolygon meintiol, roedd y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd yn cytuno â'r datganiad *Byddai'n dda bod â phatrwm mwy cyson o dymhorau a gwyliau ysgol*. Rhieni / gofalwyr a busnesau / rheolwyr gwaith oedd fwyaf tebygol o fod eisiau cysondeb yn y flwyddyn ysgol, gyda bron i saith ymhob deg (68%) o bob grŵp yn cytuno, o'i gymharu ag oddeutu un ymhob pedwar (25% a 24% yn y drefn honno) yn anghytuno. Roedd chwech ymhob deg aelod o'r cyhoedd (62%) yn cytuno, ond roedd cytundeb yn is ymhlith y gweithlu addysg (sef 53%), lle'r oedd lefelau anghytundeb yn 41%.

Nid oedd y dymuniad am fwy o gysondeb mewn tymhorau a hyd gwyliau'n cael ei rannu gan ddysgwyr, serch hynny – roedd dros hanner y dysgwyr a gymerodd ran (53%) yn anghytuno y byddent yn hoffi *pe bai pob tymor ysgol yr un hyd a phob gwyliau ysgol yr un hyd* (gan feddwl o bosibl am wyliau ysgol yr haf yma, yr oedd y rhan fwyaf yn hapus gyda'u hyd).

Ffigur 7: Barn ynglŷn â hydoedd tymhorau / hydoedd gwyliau - 1 (%)



*Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)** Cafodd y datganiad ar gyfer dysgwyr ei addasu i *Fe hoffwn i pe bai pob tymor ysgol yr un hyd a phob gwyliau ysgol yr un hyd* ac roedd y raddfa'n amrywio o *Cytuno'n fawr* i *Anghytuno'n fawr*

Roedd ymatebion tebyg yn amlwg pan ofynnwyd a oeddent yn cytuno â'r datganiad *'Byddai gwyliau ysgol byrrach a mwy rheolaidd yn well i blant a dysgwyr'*. Eto, roedd cytundeb yn uchel ymhlith rhieni / gofalwyr, busnesau / rheolwyr a'r cyhoedd (gyda rhwng 60% a 69% o bob cynulleidfa'n cytuno) ond roedd gwahaniaeth barn ymhlith athrawon a gweithwyr eraill ym myd addysg (gyda 47% yn cytuno ac union yr un gyfran yn anghytuno). Fel gyda'r datganiad uchod, roedd mwy o ddysgwyr yn anghytuno nag oedd yn cytuno (sef 51% yn anghytuno o'i gymharu â 39% yn cytuno) â'r datganiad *'Byddai'n well i blant ysgol pe bai gennym wyliau ysgol byrrach ond ein bod yn eu cael yn amlach'* (gweler Ffigur 8).

Ffigur 8: Barn ynglŷn â hydoedd tymhorau / hydoedd gwyliau – 2 (%)



*Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)** Cafodd y datganiad ar gyfer dysgwyr ei addasu i '*Byddai'n well i blant ysgol pe bai gennym wyliau ysgol byrrach ond ein bod yn eu cael yn amlach'* ac roedd y raddfa'n amrywio o *Cytuno'n fawr* i *Anghytuno'n fawr*

5.2.1 Hydoedd tymhorau a thymhorau amrywiol

Yn y trafodaethau manwl, fe wnaeth rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg, rhanddeiliaid, rhieni ac un neu ddau o ddysgwyr hŷn y sylw bod **hydoedd tymhorau'n gallu teimlo'n rhy hir** ar hyn o bryd i ddysgwyr a staff, yn enwedig tymor yr hydref. Yn ôl y sôn roedd hi'n anos cael y gorau allan o ddysgwyr wrth iddynt ddechrau diffygio ac wrth i ymddygiad ddirywio (e.e. gyda chynnydd mewn cyfraddau gwahardd), yn ôl rhai, ac i'r tebygolrwydd o 'wrthdaro' a 'fflachbwyntiau gyda dysgwyr yn yr ysgol gynyddu. Disgrifiodd nifer fach o rieni hefyd sut y gallai plant ddechrau gwanhau a mynd yn sâl tuag at ddiwedd tymhorau hwy. Roedd tymor wyth wythnos yn amser hir i blentyn teirblwydd oed sydd newydd ddechrau yn yr ysgol, amlygodd un rhanddeiliad. Eglurodd un arall sut yr oedd wythnos olaf tymor yr hydref yn yr ysgol gynradd yn cael ei neilltuo i hwyl gan nad oedd y plant yn gallu dysgu mwyach erbyn yr adeg honno, oherwydd blinder.

> *Mae'r tymor o fis Medi at Dolig yn rili hir, a dan ni heb gymaint o frêc. Felly dwi'n gwybod bod pobl yn licio'r chwech wsnos off, ond ella cymryd un wsnos o'r chwech, felly neud o'n bump, a rhoi wsnos yn rhywle arall. (Dysgwr – sylw wedi'i wneud yn Gymraeg)*

> *Rwy'n hapus gyda'r gwyliau. Yr unig beth yw, weithiau oherwydd bod dyddiadau'r Pasg yn symud a ble maent yn syrthio ar y flwyddyn galendr, gall rhai tymhorau fod hyd at wyth wythnos o hyd ac mae'n syml yn hir. Rwy'n cael bod addysgu gyda'r rhai bach, maen nhw'n tueddu i flino ac rwyf innau'n blino. Nid blino, wn i ddim sut i'w*

egluro. Mae'n syml yn ddiddrwg-ddidda, robotaidd. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

O ran blwyddyn cynta' fi o ddysgu, lle mae popeth mor newydd, a jyst meddwl am gadw staff yn y job, o'n i'n sâl gymaint o weithiau -- o'n i'n fine drwy'r tymor cynta'. Ond o'n i 'di llosgi fy hunain mas gymaint, erbyn i'r gwyliau ddod, oedd y bythefnos cynta', o'n i methu neud e. O'n i methu mwynhau. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Hefyd, roedd y gwyliau hanner tymor o un wythnos ym mis Hydref a mis Chwefror yn cael eu hystyried gan nifer o gyfranogwyr yn rhy fyr i ddysgwyr a staff gael eu cefn atynt. Felly roeddent yn meddwl bod y tymhorau hwy'n effeithio ar **les** athrawon a dysgwyr.

Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr iau'n **anghytuno** eu bod yn dechrau teimlo'u bod wedi diffygio wrth i ddiwedd tymor yr hydref nesáu, pan ddigwyddodd y grŵp ffocws. Hefyd, gwrthddadleuodd un neu ddau o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg trwy ddweud, ymhob sector mewn cymdeithas ac ymhob ffrwd waith, bod gwasgbwyntiau y mae'n rhaid eu derbyn. Roedd tymor hwy yn yr hydref, er enghraifft, yn galluogi dysgwyr mewn un ysgol i dreialu eu dewis bynciau Safon Uwch. Byddai tymor wedi'i fyrhau'n gwneud y dull hwn yn broblemus.

G: Na, rwy'n iawn. G: Rwy'n iawn. G: Ydw, rwy'n teimlo'n iawn. (Dysgwyr – sylwadau a wnaed yn Saesneg)

Ceir tymhorau anodd a cheir tymhorau sy'n flinderus, ond pe baem yn eu newid ar sail dewis, dydw i ddim yn meddwl y byddai hynny'n dda o safbwynt addysgol oherwydd bod rhythm y flwyddyn hyd at gymwysterau wedi esblygu dros amser i wneud yn siŵr bod gennym y system orau. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd gan gyfranogwyr Blwyddyn 12 mewn un grŵp ffocws farn gymysg ynglŷn â hyd presennol **gwyliau'r Nadolig**. Nid oedd rhai'n meddwl eu bod yn ddigon hir i fwynhau cyfnod yr ŵyl ond roedd rhai'n anghytuno am nad oedd arnynt eisiau mwy o amser o'r ysgol pan oedd hi'n dywyll ac yn oer. Roedd ar rai eisiau i'r Nadolig fod yn fyrrach neu'n hwy hefyd gan ddibynnu pryd oedd eu ffug arholiadau wedi'u hamserlennu. Os oedd ganddynt arholiadau ym mis Ionawr, roedd arnynt eisiau i'r Nadolig fod yn hwy er mwyn iddynt gael amser i fwynhau'r Nadolig ac amser i adolygu.

Dwi'n anghytuno hefo rhoi wsnos arall i Dolig achos dan ni'm even yn gallu neud dim byd tu allan achos mae hi'n dywyll. So i bobl sydd isio joio'r ha', dach chi rili isio cael fatha tymor hirach adeg yna i chi gael bod allan tan 11:00 pan mae hi dal yn ola'. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd nifer fach o ddysgwyr hŷn hefyd yn teimlo bod hanner cyntaf y tymhorau yn yr ysgol ar ôl y Nadolig a'r Pasg **ddim yn teimlo'n wasgarog iawn**.

Oherwydd dan ni hefo dau wsnos off i Pasg, ac wedyn bron fatha syth ar ôl hynna dan ni hefo wsnos arall eto ym mis Mai. Dwi jyst yn meddwl bod y darn yna bach yn bunched hefo'i gilydd. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Hefyd, roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod **hydoedd amrywiol ar gyfer tymhorau** yn creu problemau. Er enghraifft, mynegwyd pryderon ymhlith rhanddeiliaid ynghylch **colli'r momentwm addysgol** gan bod amrywioldeb yn hyd y tymhorau yn y flwyddyn ysgol bresennol yn arwain at 'dalpiau' darniog o ddysgu. Gallai anghysondeb o ran hyd tymhorau olygu **anhawster gyda chynllunio** unedau o waith hefyd.

Rydym yn cael bod yr hanner tymor hwy'n gryn her. Ond a dweud y gwir, rydym yn cael bod y tymhorau byr yn gryn her hefyd. Dydw i ddim yn meddwl ei fod o lawer o gymorth a dweud y gwir. Mewn rhai ffyrdd, rydych chi'n diweddu'n gwneud yr un faint o waith mewn llai o amser ac mae llawer o bwysau yn yr hanner tymhorau byrrach. Rwy'n meddwl bod hynny'n anfantais fawr ac yn rhywbeth y byddwn yn awyddus i ymchwilio iddo mewn unrhyw fodel yn y dyfodol. (Y gweithlu addysg)

Mae hynny'n ei gwneud yn anodd iawn, rwy'n meddwl, yn enwedig i ysgolion uwchradd ac o ran rheoli grwpiau arholiadau. Weithiau gallwch eich cael eich hun mewn sefyllfa lle mae'r arholiadau'n dechrau fwy neu lai cyn gynted ag y mae'r Pasg yn dod i ben. Felly rydych wedi colli'r plant am gwpl o wythnosau os hoffech chi ac yna rydych yn dod yn syth yn ôl i arholiadau. . . . Fe allech chi ddadlau nad yw'r dysgwyr i gyd yn cael yr un chwarae teg o un flwyddyn i'r llall yn mynd i mewn i'r arholiadau hynny. (Rhanddeiliad)

5.2.2 Pasg

Fel a drafodwyd uchod mewn perthynas â chanfyddiadau'r arolwg meintiol, roedd cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl ar y cyfan yn tueddu i beidio â theimlo'i bod yn bwysig iawn i'r gwyliau ysgol gael eu trefnu o amgylch y **Pasg**. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn meddwl ei bod yn bwysicach creu telerau cyfartal i ddysgwyr a sefydliadau ysgolion gyda dyddiadau gwyliau sefydlog na bod â dyddiadau gwyliau y gellir eu symud a'r rheiny'n seiliedig ar y Pasg. Disgrifiwyd yr Alban fel gwlad a oedd yn union yr un mor 'ddiwylliannol Gristnogol' â gweddill y DU ac a oedd yn ymdopi â dyddiadau sefydlog ar gyfer gwyliau'r gwanwyn yn eu blwyddyn ysgol. Dywedwyd hefyd fod ysgolion yn llwyddo i ddathlu ystod o achlysuron diwylliannol a chrefyddol heb yr angen i gadw at ddyddiadau gwyliau penodol.

G: Nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth i mi. G: Nac i mi. G: Rwy'n eu hoffi tua'r adeg honno dim ond oherwydd y tywydd mewn gwirionedd. Fel arfer mae weithiau'n braf iawn. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

Rydym yn wlad fwyfwy secwlar. Os ydym yn gwneud newid enfawr, yna fel y rhan fwyaf o wyliau eraill . . . Rydym wedi dathlu Diwali, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwrnod Cofio'r Holocost, Diwrnod Martin Luther King, pob un o'r rheiny. A fyddem yn trin y Pasg yn yr un ffordd, ac yn ei ddathlu yn yr ysgol? Efallai ei fod yn fwy ystyrlon i blant oherwydd ein bod yn ei wneud yn iawn, onid ydym, dydyn ni ddim yn cyfnewid wyau yn unig. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid yn dychmygu y byddai dyddiad gwyliau sefydlog yn ei gwneud yn **haws i ysgolion gynllunio** yn ogystal â helpu i ddarparu tymhorau o hyd mwy cyfartal ar gyfer dysgwyr. Byddai gan athrawon ysgolion uwchradd fwy o amser gyda dysgwyr cyn eu harholiadau hefyd, yn ôl rhai. Roedd gwyliau ysgol a oedd yn amrywio adeg y Pasg, ar y llaw arall, yn golygu ei bod weithiau'n anodd i ysgolion gynllunio tymor yr haf os oedd y Pasg yn hwyr yn y flwyddyn am nad oedd llawer o amser rhwng diwedd y gwyliau a dechrau arholiadau.

> *Mae'n anodd weithiau. Chi'n mynd yn ôl, ac mae'r tymor yna mor fyr, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd, lle mae'r tymor yna yn un o'r mwya' pwysig o ran y dysgwyr, ac maen nhw moyn cefnogaeth ni. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

> *Fy mhrif broblem i yw bod y Pasg yn ŵyl symudol, rwy'n meddwl ei fod yn beth chwerthinllyd. Rwy'n meddwl y dylent fod ar adeg benodedig ar ôl gwyliau'r Nadolig. Ac yn amlwg rwy'n deall bod hynny'n golygu efallai na fydd y Pasg wastad yn digwydd yng ngwyliau'r Pasg, ond rwy'n meddwl ar y cyfan y byddai hynny'n well. Byddai'n gwneud y flwyddyn yn fwy hydrin. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Fe wnaeth ychydig o rieni'r sylw ei bod hi'n **bwysig i'w ffydd** eu bod yn cael gwyliau ar yr adeg honno ond roeddent yn teimlo, at ei gilydd, bod gwyliau banc presennol y Pasg yn ddigon.

> *Fe hoffwn pe baent yn aros adeg y Pasg. Mae'n rhan o'm ffydd felly byddwn am ddathlu'r Pasg. . . . A dweud y gwir, cyn belled â'm bod yn cael y dydd Gwener a'r dydd Llun rwy'n meddwl bod hynny'n wyliau dathliadol gweddol dda. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Fe wnaed pwynt ymhlith rhanddeiliaid, serch hynny, y byddai'n **gryn her** cyrraedd pwynt lle'r oedd enwadau Cristnogol penodol yn cytuno â grwpiau eraill ynglŷn â phryd y dylai gwyliau ysgol 'Y Pasg' fod. Pwysleisiwyd hefyd ei bod yn bwysig i rai ysgolion ffydd fod â dysgwyr yn bresennol yn yr ysgol (tan Ddydd Iau Cablyd) yn ystod yr Wythnos Sanctaidd. Ar ben hynny, roedd Cristnogaeth Ddwyreiniol yn cyfrifo dyddiad y Pasg yn wahanol i'r Gorllewin. Byddai i'w ddisgwyl felly, yn ôl yr hyn a rybuddiwyd gan un rhanddeiliad, pe bai'r Pasg yn cynnwys diwrnodau ysgol, y byddai plant Cristnogol yn cael eu tynnu allan ar Ddyddiau Gwener y Groglith Gorllewinol a Dwyreiniol, gan greu problem newydd.

Daeth y pwynt i'r amlwg hefyd ymhlith rhanddeiliaid bod patrymau presennol yn dilyn gwyliau Cristnogol ac y gallai fod **mater o ran cydraddoldeb** yr oedd angen rhoi ystyriaeth ofalus iddo wrth wneud unrhyw newidiadau. Yn ôl y sôn roedd gwahaniaethau rhwng ysgolion Eglwysig ac ysgolion awdurdodau lleol ac yn ôl y sôn fe fethodd yr ymgais diwethaf gan weinidog addysg yng Nghymru i safoni'r agwedd hon.

Yn ôl un cyfranogwr o ysgol ffydd, roedd cadw'r dull presennol o bennu dyddiadau gwyliau'r Pasg yn **rhan bwysig iawn o'u cwricwlwm**. Nid dim ond o ran gwersi addysg grefyddol, ond roedd wedi'i blethu i mewn i'r cwricwlwm. Nid oeddent am weld hyn yn cael ei newid. Cyn y

pandemig, byddai'r ysgol hefyd yn trefnu i ddysgwyr ymweld â Rhufain yn ystod gwyliau'r Pasg.

> *Mae gennym fyfyrdod ar ddiwedd pob dydd Gwener sy'n fyfyrdod Grawysol sy'n adeiladu tuag at ddathlu'r Pasg. Byddai'n teimlo'n danseiliol tu hwnt os ydym wedi trefnu cwricwlwm o'i amgylch, wedi trefnu ein gweithredoedd addoli ar y cyd o'i amgylch a bod gyda ni fyfyrdodau a dathliadau yn y cyfnod yn arwain ato, pe bai'n fusnes fel arfer ar y diwrnodau hynny. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Dywedwyd hefyd ei fod yn bwysig i lawer o rieni â **theulu dramor** allu teithio i weld teulu ar yr adeg bwysig hon yn y calendr Cristnogol.

Mewn cyferbyniad bach, roedd cyfranogwr arall â rôl sy'n gysylltiedig â ffydd yn disgwyl y byddai **dealltwriaeth gyffredinol** ymhlith ysgolion ffydd y dylai anghenion dysgwyr fod yn flaenoriaeth, a allai olygu nad oedd y Pasg wastad yn cyd-daro â gwyliau ysgol. Hefyd, byddai wastad gwyliau banc bob pen i benwythnos y Pasg a byddai ysgolion yn dal i allu dathlu'r Pasg fel yr oeddent yn dathlu gwyliau crefyddol eraill. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn ystyried ei bod yn bwysig ymgynghori'n eang â sefydliadau ffydd ynghylch y testun hwn.

Roedd ychydig o randdeiliaid yn teimlo'i bod yn ymddangos fel pe bai ffocws ar wneud lle i wyliau crefyddol megis y Nadolig a'r Pasg, ond ei bod hi'n bwysig cofio bod Cymru'n **gymdeithas amlddiwylliannol**. Hefyd, roeddent yn teimlo y **dylai'r ffocws fod ar ddysgwyr** a'r hyn sydd orau i'w dysgu. Roeddent yn dychmygu y byddai modd dod o hyd i ddatrysiad i'r sefyllfa gan bod gwyliau ffydd eraill. Roedd un dysgwr hŷn yn cytuno ac nid oedd yn meddwl ei bod yn gwneud synnwyr strwythuro rhan o'r flwyddyn ysgol o amgylch gwyliau crefyddol.

> *Rwy'n meddwl y byddai niferoedd y plant a'r teuluoedd a fyddai'n cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau crefyddol drwy'r wythnos yn weddol fach a phan ydym yn meddwl am y peth mae gennym niferoedd is o lawer o blant sy'n perthyn i ffyddoedd eraill ond lle mae ymwneud crefyddol yn gymesur uwch felly gallwch weithio o gwmpas hynny yn union fel y mae ysgolion yn gweithio o amgylch y modd y mae plant yn dathlu gwyliau fel Eid. Pe bai plant y mae'r Wythnos Sanctaidd yn arbennig o bwysig i'w ffydd a'u hunaniaeth rwy'n siŵr y byddai ysgolion yn gweithio o gwmpas hynny. (Rhanddeiliad)*

> *Dwi'm yn licio bod o'n mynd hefo'r calendr Cristnogol. Fatha, dwi'n teimlo bod hwnna bach yn outdated ac unneccessary rili. Fatha, dwi'm yn deall pam bod ni angan dau wsnos yn Pasg. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Ymhlith cyfranogwyr â safbwynt busnes, fe wnaed y sylw ei bod hi'n bwysig **cysoni cyfnod gwyliau'r Pasg** fel bod pawb yn cael yr un 'gwyliau Pasg sefydlog'. Dywedodd ychydig o fusnesau twristiaeth fod gwyliau banc yn bwysig gan bod pobl yn hoffi mynd i ffwrdd dros wyliau banc am eu bod yn gallu defnyddio llai o ddiwrnodau o wyliau blynyddol. Felly roedd cadw gwyliau ysgol symudol dros y Pasg yn cael ei ystyried yn bwysig i fusnesau. Byddai

hefyd yn golygu bod staff cludiant i ysgolion yn gallu cymryd eu gwyliau Pasg yr un pryd â dysgwyr a'u teuluoedd.

Fe wnaeth rhieni â **daliadau crefyddol eraill** sylw bod eu gwyliau crefyddol hwy'n tueddu i fod yn ystod y tymor ac y byddent, yn ddelfrydol, yn hoffi gallu eu dathlu â gwyliau ysgol. Cyfeiriwyd hefyd at yr effaith y gallai ymprydio yn ystod Ramadan ei chael ar blant yn ystod y tymor. Tynnwyd sylw, serch hynny, at y ffaith bod Eid yn digwydd ar ddyddiadau gwahanol bob blwyddyn. Nid oedd y cyfranogwr hwn yn cwyno am y mater ac roedd yn derbyn bod yr ysgol yn gadael i'w phlant fod yn absennol o'r ysgol ar gyfer yr ŵyl.

> *Os yw plant yn ymprydio drwy'r dydd ac yna'n dod yn ôl adref – os yw'n digwydd yn y gwyliau – mae hynny'n wych iddynt. . . . Mae'n anodd i'r plant [yn ystod y tymor]. Mae'n anodd iawn i'r plant, ond maent yn gwneud beth bynnag allant ei wneud. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd yn cael ei gydnabod ymhlith ychydig o randdeiliaid bod Llywodraeth Cymru'n dda iawn am **ddeall anghenion crefyddol** ar draws ffyddoedd ac roedd calendr yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn o'r holl wyliau crefyddol. Y gred oedd bod Llywodraeth Cymru ar y blaen i'r DU o ran deall yr effeithiau aflonyddol pan fo dysgwyr yn absennol o ysgolion ar gyfer cadwraeth grefyddol.

5.3 Materion canfyddedig ychwanegol

Fe wnaed pwyntiau pellach o bryd i'w gilydd yn ystod y trafodaethau manwl ynghylch materion gyda'r flwyddyn ysgol bresennol. Er enghraifft, fe wnaeth nifer fach o gyfranogwyr y sylw nad oedd bras gynefindra â'r flwyddyn ysgol bresennol yn golygu o anghenraid ei bod yn **addas ar gyfer y diben**, yn enwedig gan bod yr un strwythur wedi bod yn ei le am gryn dipyn o amser.

> *Rwy'n meddwl mai'r peth am batrymau gwaith yw ein bod yn gwybod bod y system bresennol yn dyddio'n ôl i batrymau amaethyddol. Nid yw'n ymwneud â'r newid yn y genhedlaeth hon hyd yn oed, ni fu gennym gymdeithas amaethol fawr am genedlaethau ac eto rydym wedi cadw at [y model] hwn sy'n arbennig o ryfedd. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Caiff materion canfyddedig ychwanegol gan gyfranogwyr a godwyd ar draws yr ymchwil ac ymgysylltu ansoddol eu nodi isod.

I ysgolion

- Fe wnaeth rhanddeiliad y sylw bod heriau gweinyddol a heriau o ran cynllunio'n codi i ysgolion o ganlyniad i'r diffyg cysondeb rhwng y **blynyddoedd ariannol ac academaidd.**

I deuluoedd

- Nid oedd y **gwyliau Nadolig yn teimlo'n ddigon hir** i allu mwynhau amser o ansawdd gyda'r teulu, yn ôl rhai rhieni a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg, yn enwedig os oedd tymor yr hydref yn gorffen yn weddol hwyr.

I fusnesau

- Roedd y flwyddyn ysgol bresennol yn golygu rhai **problemau staffio** i gwpl o gyfranogwyr o fyd busnes yn y sector gofal plant. Roedd y mwyafrif o staff yn rhieni hefyd, ar roedd arnynt i gyd eisiau cymryd gwyliau yr un pryd.

6. Syniadau ar gyfer blwyddyn ysgol amgen yng Nghymru

Pwyntiau allweddol yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr

- *Er gwaethaf y bodlonrwydd gweddol uchel yn ôl pob tebyg ar y sefyllfa fel ag y mae, roedd mwyafrif o'r cyhoedd, rhieni / gofalwyr a busnesau yn yr arolygon meintiol o blaid gwneud y tymhorau'n rhai o hyd cyfartal a byrhau gwyliau ysgol yr haf, pan ofynnwyd iddynt.*
- *Roedd mwy o'r gweithlu addysg a dysgwyr a arolygwyd yn erbyn y syniad o wneud y newidiadau hyn i'r flwyddyn ysgol nag oedd o blaid; ond roedd penaethiaid a dirprwy benaethiaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o fod o blaid nag yn erbyn newid.*
- *Roedd nifer o awgrymiadau a gynigiwyd yn golygu tynnu wythnos neu ddwy o'r gwyliau o chwe wythnos yn yr haf a'u hychwanegu at wyliau hanner tymor neu'r Nadolig.*
- *Roedd dysgwyr a busnesau'n fwy tebygol o ddylunio blwyddyn sy'n debyg iawn i'r flwyddyn bresennol.*
- *Roedd rhieni a chyfranogwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau'n tueddu i awgrymu gwyliau o bedair wythnos yn yr haf.*
- *Fe wnaeth rhai o'r cyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn y grwpiau ffocws awgrymu hydoedd mwy cyfartal ar gyfer tymhorau a thymor byrrach yn yr hydref.*

Pan ofynnwyd cwestiwn agored i'r cyhoedd yn arolwg Omnibws Cymru ynglŷn â pha newidiadau, os o gwbl, fyddent yn hoffi eu gweld yn cael eu gwneud i'r ffordd y caiff y flwyddyn ysgol ei strwythuro yng Nghymru, cafodd unrhyw awgrymiadau am newidiadau eu gwneud gan gyfrannau cymharol fach. Fe wnaeth un ymhob tri (33%) ddweud nad oedd unrhyw angen am newid neu roi'r ateb 'dim byd', tra bod oddeutu un ymhob wyth (12%) yn methu â gwneud sylw neu heb ateb.

Y prif awgrym gan rieni, busnesau / rheolwyr a'r cyhoedd oedd byrhau gwyliau ysgol yr haf (a wnaed gan un ymhob wyth rhiant (12%) a bron i un ymhob deg aelod o'r cyhoedd ac o fusnesau / rheolwyr – 9%). Fe awgrymodd oddeutu un ymhob ugain o bob cynulleidfa (rhwng 4% a 6%) y dylid gwasgaru gwyliau'n fwy dros y flwyddyn a hefyd lleihau gwyliau i alluogi dysgwyr i gael mwy o amser yn yr ysgol ar gyfer dysgu.

Mewn cyferbyniad, roedd y rhai sy'n gweithio ym myd addysg yn fwyaf tebygol o grybwyll estyn gwyliau hanner tymor i bythefnos pan ofynnwyd pa newidiadau yr hoffent eu gweld i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru (gyda hynny'n cael ei awgrymu gan 24% o gyfranogwyr yn arolwg y gweithlu addysg). Yn ogystal â gwyliau haf byrrach, y prif awgrymiadau digymell eraill a wnaed gan y grŵp yma oedd pedair wythnos o wyliau haf, gwyliau hwy dros y Nadolig, gwasgaru gwyliau'n fwy dros y flwyddyn a mwy o dymhorau / gwyliau byrrach. Awgrymwyd y rhain i gyd gan o leiaf ryw un ymhob deg o weithwyr addysg a gymerodd ran.

Dysgwyr oedd y mwyaf tebygol o bob cynulleidfa a arolygwyd o ddweud 'dim byd' pan ofynnwyd am newidiadau i'r flwyddyn ysgol. Rhoddodd 39% o ddysgwyr 7 i 18 oed a arolygwyd yr ateb 'dim byd' tra bo 9% arall yn teimlo nad oedd angen o gwbl am unrhyw

newid neu'n teimlo y dylid cadw'r flwyddyn fel ag y mae. Lle gwnaed newidiadau, y rhai mwyaf cyffredin oedd gwyliau haf byrrach (a grybwyllwyd gan 15% o ddysgwyr), gwyliau Nadolig hwy (11%) ac ychwanegu wythnos at wyliau hanner tymor (9%). Fe wnaed ystod eang o awgrymiadau eraill. Caiff y rhai a grybwyllwyd gan 3% neu fwy o bob cynulleidfa eu dangos yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi'n hoffi eu gweld yn cael eu gwneud i'r ffordd y mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro yng Nghymru (digymell)? (%)

Prif awgrymiadau digymell	*Y cyhoedd*	*Rhieni / gofalwyr*	*Busnesau / rheolwyr*	*Gweithlu addysg*	*Dysgwyr*
Gwyliau hanner tymor o 2 wythnos / ychwanegu wythnos at wyliau hanner tymor presennol	-	-	-	24	9
Gwyliau haf byrrach / llai o amser o'r ysgol yn yr haf	9	12	9	18	15
4 wythnos o wyliau haf	-	-	-	14	3
Dylai gwyliau gael eu gwasgaru'n fwy dros y flwyddyn	6	6	5	11	8
Mwy o dymhorau / tymhorau byrrach	-	-	-	9	4
5 wythnos o wyliau haf	-	-	-	7	-
Llai o wyliau / mwy o amser yn yr ysgol ar gyfer addysgu	5	4	5	-	-
Addysg well / addysgu gwell	4	4	4	-	-
Diwrnod ysgol hwy / dechrau cynharach / cyd-fynd â diwrnod gwaith rhieni	3	5	3	-	-
Gwyliau Nadolig hwy / wythnos ychwanegol dros y Nadolig	3	4	4	12	11
Mwy o wyliau	3	3	3	1	7
Gwyliau Pasg hwy / wythnos ychwanegol adeg y Pasg	-	-	-	3	1
Dim angen newid / iawn fel ag y mae	12	15	15	11	9
Dim byd / dim	21	18	17	21	39
Ddim yn gwybod / heb ateb	12	11	11	5	4

Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

Mae'r adran hon yn cynnwys enghreifftiau o ymdrechion grŵp cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws i ddylunio blwyddyn ysgol amgen, cyn iddynt gael eu cymell â'r gwahanol fodelau yn adran 7 o'r adroddiad hwn. Dylid cofio bod anghytundeb weithiau o safbwynt grŵp ynghylch sut y dylai'r flwyddyn edrych, er enghraifft ble y dylai wythnosau a gymerwyd oddi ar wyliau'r haf fynd wedyn. Dylid cofio hefyd, at ei gilydd, bod ar rai eisiau cadw'r flwyddyn fel ag y mae, felly gallai barn pobl newid neu hyd yn oed cael ei gwrthddweud yn ystod trafodaethau. O ganlyniad, nid oedd y modelau a grëwyd ganddynt o anghenraid yn adlewyrchu'r hyn yr oedd ar bawb eisiau iddo ddigwydd gyda'r flwyddyn ysgol erbyn diwedd y drafodaeth.

Wedi'u cynnwys hefyd yn yr adran hon mae awgrymiadau digymell gan randdeiliaid ynghylch newid y flwyddyn ysgol ac ymatebion o'r arolygon i gwestiynau a datganiadau ynghylch agweddau ar y flwyddyn ysgol y gellid eu newid. Eto, dylid cofio nad oedd rhai'n dymuno gweld newidiadau i'r flwyddyn ysgol.

6.1 Awgrymiadau digymell cyfranogwyr ar gyfer blwyddyn ysgol amgen (adborth ansoddol)

6.1.1 Dysgwyr

Roedd syniadau **dysgwyr** ar gyfer blwyddyn ysgol amgen yn **debyg iawn i'r un bresennol**, ond awgrymodd rhai y dylid byrhau gwyliau'r haf i bum wythnos ac ychwanegu wythnos at wyliau'r Nadolig. Erbyn meddwl, roedd gwyliau'r haf yn gallu mynd yn ddiflas, yn nhyb rhai, ac roedd yn cymryd amser i addasu i'r tymor newydd. Awgrymodd rhai dysgwyr hŷn y dylid cael wythnos ychwanegol adeg y Nadolig i ymdrin â mater y tymor hir yn yr hydref a phe bai ym mis Ionawr, i ddarparu mwy o amser adolygu. Roedd ar rai dysgwyr iau hefyd eisiau wythnos o wyliau adeg Calan Gaeaf am bod honno'n adeg o'r flwyddyn yr oeddent wir yn ei mwynhau tra bod dysgwyr hŷn yn teimlo y byddai hyn yn golygu gwyliau hwy yn ystod tymor hir. Roedd rhai dysgwyr iau'n meddwl hefyd efallai y gallai'r wythnosau gael eu gwasgaru'n fwy fel bod gwyliau i edrych ymlaen atynt yn fwy rheolaidd. Roedd yn well gan nifer fach o ddysgwyr ychwanegu wythnos o wyliau'r haf at adeg arall weddol gynnes o'r flwyddyn hefyd.

> *[Colli un wythnos o wyliau'r haf] fel petai oherwydd rwy'n mynd ychydig yn bengrych dros wyliau'r haf. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Efallai y gallai gwyliau ysgol [yr haf] fod ychydig yn fyrrach; yna fe allen ni gael mwy? Pe bai gennym lai o wyliau ysgol, pe baem yn eu byrhau yna efallai y gallem gael mwy dros y misoedd. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *[Pedwar allan o ddeg i'r flwyddyn ysgol bresennol] oherwydd ysgol ydyw. . . . Dydw i ddim yn hoffi'r ysgol. . . . Wn i ddim [beth fyddai'n ei gwneud yn well]. Wythnos [o wyliau] bob mis neu rywbeth. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *[Dydy'r flwyddyn ysgol bresennol] ddim yn rhy wael, yn fy marn i. Rwy'n meddwl efallai y gallai fod mwy o wyliau byrion ac y gellid gwneud y rhai hwy'n fyrrach yn lle hynny. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Fe ailadroddodd rhai dysgwyr fod arnynt eisiau **cadw'r chwe wythnos o wyliau haf** i fwynhau'r tywydd da, cael gwyliau iawn ar ôl arholiadau gyda ffrindiau a chael y cyfle i gael swydd ac ennill arian. Roedd y gwyliau Nadolig presennol yn teimlo'n ddigon hir hefyd. Roedd barn dysgwyr yn amrywio wrth ystyried beth ddylai ddigwydd gyda'r Pasg.

Mae'r diagramau isod yn enghreifftiau o flynyddoedd ysgol amgen a ddyluniwyd gan ddysgwyr fel grŵp yn y grwpiau ffocws. Mae'r blychau melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol a'r blychau gwyrdd yn dynodi'r tymhorau.







6.1.2 Y gweithlu addysg

Roedd ar rai cyfranogwyr o'r **gweithlu addysg** yn y trafodaethau manwl eisiau i'r **hanner tymor yn yr hydref fod yn hwy** ac roedd arnynt eisiau i'r Pasg fod ar ddyddiad sefydlog fel bod **y tymhorau'n gyfartal** o ran hyd yn hytrach nag un tymor byr ac un tymor hir. Byddai tymhorau o hyd tebyg ac uchafswm o chwe wythnos cyn gwyliau'n sicrhau bod dysgwyr yn dal i fod yn gryf eu cymhelliant ac nad oeddent yn blino gormod, yn nhyb ychydig. Byddai tymhorau o hyd cyfartal yn helpu gyda gwaith cynllunio ysgolion hefyd. Hefyd, byddai hydoedd tymhorau mwy cyfartal a byrrach yn golygu y byddai athrawon yn llai tebygol o ddiffygio ar ddiwedd tymor.

> *Rwy'n gwybod bod y galw am athrawon cyflenwi'n uwch o lawer pan fo gennych dymor hir oherwydd maen nhw'n dechrau diffygio. . . . Ar y cyfan mewn tymor wyth wythnos byddai gennych lawer o staff yn absennol yn yr wythnos olaf honno am eu bod yn syml wedi diffygio. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Fe ddylem fod yn amcanu at fwy o dymhorau byrrach ac egwylion rheolaidd. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn cofio bod bron hanner y plant yng Nghymru'n byw mewn tlodi. Ac mae tlodi'n galed ac yn ddigon i'ch hurtio ac mae'n anodd iawn gallu mynd i'r ysgol a chanolbwyntio ar ddysgu pan nad yw eich anghenion sylfaenol wedi cael eu diwallu. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Fi'n meddwl bydde'n well i ddisgyblion os bydde pythefnos gyda nhw ym mis Mai a'u teuluoedd. Jyst bydd tywydd gwell o amgylch os 'dyn nhw moyn teithio. Ac mae arholiadau yn dod 'mlaen, so gallan nhw gael pythefnos. Gallan nhw neud bloc un o adolygu, bloc dau o adolygu. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd pythefnos o wyliau Nadolig yn cael ei ystyried yn addas gan rai staff o'r gweithlu addysg ond gyda **dyddiadau gwyliau sefydlog**. Byddai'n ei gwneud yn haws i ysgolion gynllunio o gwmpas dyddiadau sefydlog yn ystod gweddill y flwyddyn, er enghraifft gydag arholiadau, ym marn rhai.

Rwy'n meddwl y dylai fod gennym wyliau sefydlog adeg y Pasg i wneud y sefyllfa'n fwy dichonadwy ar gyfer cynllunio o safbwynt swyddfa. Mae gwasgu pethau i mewn yn achosi tipyn o straen. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd ar ychydig o benaethiaid ysgolion eisiau gweld **gwyliau haf byrrach** o bedair wythnos a gwyliau mwy rheolaidd trwy gydol gweddill y flwyddyn. Roedd rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid yn teimlo y byddai angen i unrhyw newidiadau ystyried yr effaith ar:

- **Arholiadau'r haf**. Roedd cwpl o gyfranogwyr yn ystyried ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru adolygu rhaglenni arholiadau ochr yn ochr ag unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol;
- Amodau athrawon o ystyried y byddai rhai athrawon yn dal i fod yn colli'r rhan fwyaf o un wythnos ar gyfer **diwrnod canlyniadau arholiadau**. Roedd y gofyniad hwn yn teimlo'n dderbyniol gyda chwe wythnos o wyliau haf ond nid pe baent yn cael eu lleihau i bedwar wythnos o wyliau;
- **Gwyliau diwylliannol** / digwyddiadau fel Eisteddfod yr Urdd (i ysgolion Cymraeg), a Sioe Frenhinol Cymru (i gymunedau ffermio, gwledig). Awgrymwyd efallai y gallai awdurdodau lleol neu glystyrau gael wythnos ddewisol o wyliau y gallent ei hamseru i gyd-daro â digwyddiadau diwylliannol o'r fath neu'n seiliedig ar yr hyn yr oedd ardaloedd cyfagos yn ei wneud (e.e. ysgolion yn Sir Fynwy lle gallai fod gan blant siblingiaid mewn ysgolion yn Lloegr);
- Y '**system gyfan**' fel rhan o'r sgwrs yn hytrach na bod yn ddethol a chanolbwyntio ar wyliau a hyd tymhorau.

Rwyf wedi cyffroi gryn dipyn a dweud y gwir ynglŷn â beth allai hyn arwain ato. Fel lleiafswm, rhaid i ni dderbyn bod angen i'r drafodaeth hon ddigwydd. . . . Ond fy ngobaith i yw y bydd y gweithlu'n cael sgwrs aeddfed am y peth ac yn peidio ag adweithio ar unwaith trwy ddweud na, does neb yn cael cyffwrdd â'n gwyliau ni. (Y gweithlu addysg)

(Roedd rhai athrawon yn awyddus iddo gael ei gofnodi nad oedd ganddynt unrhyw hyblygrwydd gyda'u gwyliau ac felly bod arnynt eisiau 5-10 diwrnod o wyliau hyblyg y flwyddyn.)

Caiff enghreifftiau o awgrymiadau bras cyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn y grwpiau ffocws ar gyfer blwyddyn ysgol amgen eu dangos dros y dudalen.





6.1.3 Rhieni

Roedd **rhieni** yn y grwpiau ffocws yn tueddu i fod yn weddol agored i'r syniad o ad-drefnu'r flwyddyn ysgol. Roedd eu ffocws hwy ar **fyrhau gwyliau'r haf**, er enghraifft tynnu wythnos neu ddwy oddi arnynt i helpu gyda gofal plant ac i gefnogi dysgwyr. Roedd eu barn yn amrywio wrth ystyried ble y dylid gosod yr wythnosau hyn. Roedd ar rai eisiau gwyliau Nadolig hwy ar gyfer mwy o amser teuluol o ystyried bod y gwyliau tymhorol fel arfer yn teimlo'n weddol frysiog; ond nid oedd eraill yn hoffi'r syniad hwn am eu bod yn meddwl y byddai'r plant yn diflasu gyda'r tywydd gwael a nosweithiau tywyll. Cyfeiriwyd hefyd at fanteision posibl cael gwyliau ysgol yn fwy rheolaidd i sicrhau nad oedd dysgwyr yn blino gormod, yn enwedig y rhai mewn ysgol gynradd.

> *Rwy'n meddwl y byddai'n braf cael ychydig mwy o wyliau adeg y Nadolig. . . . Rwy'n meddwl, fel mam, ei bod hi'n braf cael amser gyda'r plant, ac rwy'n meddwl bod yr ysgol yn torri'n llawer nes at y Nadolig, yn awr. Efallai fod hynny'n gweddu i bobl, ond rwy'n teimlo fe, 'O, dyna sydyn' – o ran amser i'r teulu a gwneud pethau, mae'n mynd yn gyflym, mae gwyliau'r Nadolig yn hedfan heibio. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Rwy'n meddwl bod angen y seibiant hwnnw arnynt [tymhorau byrrach]. Oherwydd mae a wnelo nid dim ond â nhw, ond â ni hefyd. Yn amlwg, rwyf wedi newid o'r ysgol gynradd gan godi am hanner awr wedi chwech bob bore yn awr. Erbyn dydd Gwener rwyf wedi ymlâdd, felly maen rhaid eu bod hwythau wedi ymlâdd. Dim ond newydd ddechrau yn yr ysgol uwchradd y mae fy mab. . . . Erbyn dydd Gwener mae'r ddau ohonom ar ben ein tennyn. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd ychydig o rieni'n meddwl y byddai symud wythnos neu ddwy o wyliau'r haf i wyliau **hanner tymor** yn fuddiol. Gallai hyn fod er mwyn rhannu'r tymor hwy yn yr hydref a lleihau'r angen am gyfnodau estynedig o ofal plant ac er mwyn darparu dewis arall yn lle gwyliau'r haf ar gyfer gwyliau teuluol. Gallai hefyd ei gwneud yn bosibl cael gwyliau ychydig yn hwy yn y gwanwyn pan fo'r tywydd yn gwella a allai roi opsiynau gwell i deuluoedd ar gyfer gwyliau teuluol nag yng ngwyliau'r haf, sy'n ddrutach.

> *Pe gallent wasgaru'r tymhorau hefyd: felly yn lle cael chwe wythnos yng ngwyliau'r haf, byddai'n wych pe gallai fod pythefnos o wyliau ym mis Chwefror. Pe gallech gael pythefnos ym mis Hydref, fel nad oes gennych y tymor enfawr hwnnw yn yr hydref, wedyn; ac yna mae gennych y pythefnos dros y Nadolig hefyd, wedyn; ac mae pedair wythnos yn hen ddigon ar gyfer gwyliau'r haf, yn fy nhyb i. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *[Symud wythnos i'r adeg] pan fo'r tywydd yn gwella ychydig, a'r nosweithiau'n oleuach ac yn y blaen. Efallai na fyddai mynd i ffwrdd bryd hynny mor ddrud ag ym mis Gorffennaf a mis Awst. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd rhai cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws o **gymunedau gwledig Cymraeg** yn meddwl ei bod hi'n bwysig i'r gwyliau ysgol gyd-daro â Sioe Frenhinol Cymru (mis Gorffennaf), yr Eisteddfod Genedlaethol (wythnos gyntaf mis Awst) ac Eisteddfod yr Urdd (hanner tymor mis Mai).

Isod ceir enghreifftiau o ymdrechion rhieni, fel grŵp (yn ystod y grwpiau ffocws), i ddylunio blwyddyn ysgol amgen.







6.1.4 Busnes

Roedd cyfranogwyr **busnes** yn y grwpiau ffocws yn tueddu i fod eisiau cadw'r flwyddyn ysgol yn **debyg i'r strwythur presennol**. Fodd bynnag, roeddent yn agored i **symud wythnos** o'r haf i ran arall o'r flwyddyn (e.e. i adeg pan oedd y tywydd yn dal yn dda), i gefnogi dysgwyr gan gynnwys plant agored i niwed. Roedd cwpl o fusnesau twristaidd yn meddwl y gallent gael budd o wasgaru'r gwyliau ysgol yn fwy gan eu bod yn profi galw ar adegau eraill o'r flwyddyn. Roedd busnes manwerthu'n meddwl y gallai gwyliau hanner tymor am bythefnos helpu gyda chynllunio gwyliau blynyddol cyflogeion gan y gallai staff gymryd prif wyliau ar adegau eraill o'r flwyddyn. Fe wnaeth un neu ddau o randdeiliaid sylw o safbwynt busnes y byddai angen yn ddelfrydol i hanner tymor mis Hydref gynnwys Calan Gaeaf fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Roedd angen i fusnesau sicrhau hyfywedd economaidd ac roedd yr achlysuron hyn a oedd yn allweddol o ran creu incwm, megis Calan Gaeaf, yn cael eu hystyried yn hollbwysig fel rhan o'r fasnach dwristiaeth flynyddol dros 10-12 wythnos.

> *Mae mis Ebrill, mis Mai yn adeg hyfryd o'r flwyddyn. Ac mae adegau hyfryd eraill o'r flwyddyn y gallech wasgaru'r gwyliau iddynt. Rydych chi'n dal yn mynd i ddod â'r refeniw hwnnw i mewn. Fel llety gwely a brecwast, byddwn yn dal i fod yn llawn. Ond yr hyn sy'n digwydd dros yr haf yw ein bod yn colli busnes oherwydd . . . dim ond hyn a hyn o bobl y gallwn roi llety iddynt. (Busnes – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Pe na bai'n chwe wythnos, o ran y plant hynny nad ydynt yn cael eu bwydo neu sydd â phroblemau gartref, gallwn ni (fel busnes gofal plant) eu dal yn gynt nag aros am y chwe wythnos. Felly, pe bai bethau'n cael eu gwasgaru a bod efallai dim ond tair neu bedair wythnos yn yr haf ac wythnos ychwanegol ar gyfer gwyliau hanner tymor, yna mae'r bwlch hwnnw'n llai, lle gallai llai o niwed gael ei wneud. (Busnes – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd awgrym pellach ymhlith busnesau'n cynnwys sicrhau bod gwyliau'r haf yn **rhychwantu mis Gorffennaf a mis Awst** gan ei fod yn draddodiadol yn amser pan fo gweithgynhyrchwyr ar gau. Er bod cyfranogwyr yn meddwl bod yr arfer yn llai amlwg, y gred oedd ei fod yn dal i fod yn bwysig i rai busnesau.

Caiff blynyddoedd ysgol amgen a ddatblygwyd gan fusnesau yn y grwpiau ffocws ar-lein eu darparu isod.

Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	
	1		2	1	1		2	1		1	2	2

Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	
	1	1	2		1		2	1		1	2	2

6.1.5 Rhanddeiliaid

Awgrymodd rhai **rhanddeiliaid** yn y cyfweliadau manwl y dylid **byrhau'r chwe wythnos o wyliau yn yr haf**, gyda rhai'n dweud bod arnynt eisiau eu disodli â gwyliau o bedair wythnos. Gallai'r wythnosau a fyddai'n cael eu tynnu i ffwrdd o wyliau'r haf ddal i gael eu defnyddio i gynnig gweithgareddau i ddysgwyr, awgrymodd un rhanddeiliad, megis chwaraeon neu weithgareddau cymunedol / dinasyddiaeth.

> *Mae chwe wythnos yn yr haf yn wych, ond mewn gwirionedd nid oes angen chwe wythnos arnom yn yr haf mwyach oherwydd nid yw fel pe bai'r plant yn gwneud y cynhaeaf. . . . Felly rwy'n meddwl bod angen iddo fod ychydig yn fwy cyfartal. . . . Rwy'n meddwl bod y plant yn gwerthfawrogi'r amser segur, ond rwy'n meddwl bod mis yn ddigon. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd rhai hefyd yn meddwl y byddai **tymhorau o hyd mwy cyfartal** yn gweddu'n well i ddysgwyr a chynllunio ysgolion, hyd at uchafswm o saith wythnos cyn gwyliau ysgol neu ddeg neu ddeuddeg wythnos y tymor, yn ôl yr awgrym gan rai. Roedd tymor yr hydref yn cael ei enwi'n unigol weithiau fel un y byddai o fudd i ddysgwyr a staff pe bai'n fyrrach, er enghraifft gyda thair wythnos adeg y Nadolig neu bythefnos o wyliau ar ganol y tymor. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid gynnig dyddiadau sefydlog ar gyfer gwyliau'r gwanwyn i hwyluso hydoedd mwy cyfartal ar gyfer tymhorau a'i gwneud yn haws i bawb gynllunio â sicrwydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod y drefn bresennol lle mae'r gwyliau'n cyd-daro â'r gwyliau banc yn golygu bod rhieni sy'n gweithio'n gorfod cymryd llai o wyliau blynyddol.

> *Rwy'n meddwl y dylai fod yn sefydlog. Rwy'n meddwl y byddai'n helpu cyfartalwch o ran gwyliau, mae cyfartalwch yn bwysig. Rwy'n meddwl y byddai'n ei gwneud yn haws cynllunio ac mae'n rhagweladwy a byddai pawb yn gwybod ble'r oeddent. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Un awgrym radical arall gan randdeiliad oedd ystyried **dechrau'r flwyddyn ysgol yn y gwanwyn** oherwydd y farn bod dechrau ym mis Medi'n seiliedig ar galendr amaethol ac nad oedd yn gyson ag unrhyw beth yn benodol. Byddai hyn yn golygu addasu'r flwyddyn arholiadau a allai olygu bod dysgwyr yn gallu gwneud mwy o'r tywydd brafiach yn gynnar yn yr haf a sefyll arholiadau pan oedd y diwrnodau'n fyrrach a'r tywydd yn nodweddiadol yn waeth. Roedd yr awgrym hwn yn adleisio pwynt tebyg a wnaed gan randdeiliaid y byddai cysoni'r flwyddyn ysgol â blwyddyn ariannol ysgolion yn fuddiol o safbwynt cynllunio, yn ogystal â'r manteision i ddysgwyr a grybwyllir uchod.

6.2 Ymatebion cyfranogwyr i newid agweddau ar y flwyddyn ysgol

Fe wnaeth yr arolygon meintiol brofi barn pobl ynglŷn â gwahanol elfennau o'r flwyddyn ysgol y gellid eu newid. Er gwaethaf y bodlonrwydd uchel yn ôl pob golwg ar y sefyllfa fel ag y mae, roedd mwyafrif o'r cyhoedd yn yr arolwg meintiol **o blaid newid** pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol a oeddent yn cefnogi'r syniad o newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru, i wneud **yr holl dymhorau o hyd cyfartal** a **byrhau gwyliau ysgol yr haf.** Roedd **chwech ymhob deg** o aelodau'r cyhoedd (60%) o blaid y newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol, o'i gymharu â llai na dau ymhob pump (17%) a oedd yn eu herbyn. O'r rhai a oedd o'u plaid, roedd 27% yn gryf o'u plaid, gyda 34% arall o'u plaid. O'r rhai a oedd yn eu herbyn, roedd 9% yn gryf yn eu herbyn ac 8% yn eu herbyn. Doedd gan 22% arall ddim barn y naill ffordd na'r llall.

Roedd barn rhieni / gofalwyr a busnesau / rheolwyr yn debyg iawn i farn poblogaeth Cymru'n gyffredinol – roedd 62% o rieni o blaid newidiadau i'r flwyddyn ysgol, ac felly hefyd 61% o'r rhai y cyfwelwyd â hwy a oedd yn berchen ar fusnesau neu'n uwch benderfynwyr neu reolwyr llinell yn y lle yr oeddent yn gweithio.

Mewn cyferbyniad, roedd mwy o'r gweithlu addysg a'r dysgwyr a arolygwyd **yn erbyn y syniad o wneud y newidiadau hyn** i'r flwyddyn ysgol nag oedd o blaid. Roedd 46% o'r rhai sy'n gweithio yn y sector addysg yn erbyn y newidiadau (o'i gymharu â 39% o blaid) tra bo 52% o ddysgwyr yn ystyried bod y newidiadau'n syniad gwael (o'i gymharu â 36% o oedd yn meddwl eu bod yn syniad da). Roedd penaethiaid a dirprwy benaethiaid a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o fod o blaid nag yn erbyn, serch hynny (sef 47% o'i gymharu â 43%).

Ffigur 9: Pa un a oeddent o blaid ynteu yn erbyn newidiadau i'r flwyddyn ysgol yng Nghymru (%)



Seiliau: y cyhoedd (1,000); rhieni / gofalwyr (433); perchnogion busnesau / rheolwyr (314); y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

* Roedd geiriad y cwestiwn a'r opsiynau ymateb ar gyfer Dysgwyr ychydig yn wahanol: *Beth ydych chi'n ei feddwl o'r syniad o newid y flwyddyn ysgol, fel bod pob tymor yn para'r un nifer o wythnosau a bod gwyliau ysgol yr haf yn fyrrach?* Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o *Syniad da iawn* i *Syniad gwael iawn*.

Caiff y prif resymau digymell a roddwyd dros gefnogi newidiadau posibl i strwythur y flwyddyn ysgol a restrir yn y ffigur uchod (gan 5% neu fwy o'r rhai a oedd o blaid newidiadau) eu darparu yn Nhabl 2 dros y dudalen. Amlygir y tri rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan bob cynulleidfa. Ni ofynnwyd y cwestiwn penagored dilynol hwn i ddysgwyr.

Roedd y prif resymau dros gefnogi newid ymhlith rhieni / gofalwyr, busnesau / rheolwyr a'r cyhoedd yn canolbwyntio ar ofal plant a phatrymau gweithio. Dywedodd 20% o rieni y byddai'n gwneud gofal plant yn haws (fel y gwnaeth 16% o fusnesau a'r cyhoedd) tra bo tua 10% o bob grŵp wedi dweud y byddai'n well i rieni / rhieni sy'n gweithio. Hefyd, crybwyllodd tua'r un gyfran o bob grŵp eu bod yn teimlo y byddai o fudd i brofiadau dysgu plant.

Fe wnaeth cyfranogwyr sy'n gweithio ym myd addysg a oedd o blaid newidiadau i'r flwyddyn ysgol grybwyll y byddai tymhorau o hyd cyfartal / mwy cytbwys yn well (17%), y byddai'n fwy cyson / strwythuredig / trefnus (14%) a'u bod yn ystyried bod y chwe wythnos o wyliau ar hyn o bryd yn rhy hir (11%).

Tabl 2: Rhesymau dros fod o blaid newidiadau i'r flwyddyn ysgol (digymell) (%)

	Y cyhoedd	***Rhieni / gofalwyr***	***Busnesau / rheolwyr***	***Y gweithlu addysg***
Byddai tymhorau o hyd cyfartal / mwy cytbwys yn well	-	-	-	**17**
Yn well / haws ar gyfer gofal plant / yn lleihau problemau gofal plant	**16**	**20**	**16**	5
Yn well / haws i rieni / rhieni sy'n gweithio	**11**	8	**10**	3
Yn well i brofiadau dysgu plant / o fudd i blant	**8**	**10**	**11**	5
Mae chwe wythnos o wyliau haf yn rhy hir	**8**	**9**	7	**11**
Yn fwy cyson / strwythuredig / trefnus	**8**	**9**	7	**14**
Syniad da	7	8	9	3
Dylai gwyliau gael eu gwasgaru'n fwy dros y flwyddyn / gwyliau amlach	6	4	4	9
Yn well / haws i bawb	6	4	4	1
Yn gwneud synnwyr / yn fwy ymarferol / synhwyrol	6	4	6	3
Yn well / yn fwy addas i blant	5	5	3	7
Mae plant yn diflasu / cael llond bol / heb unrhyw beth i'w wneud	5	6	3	-
Amser hir i fod allan o'r ysgol / yn tarfu ar addysg	-	-	-	8
Dylai gwyliau hanner tymor fod yn 2 wythnos	-	-	-	7

Seiliau – y rhai a oedd o blaid newidiadau i'r flwyddyn ysgol bresennol: y cyhoedd (482); rhieni / gofalwyr (230); perchnogion busnes / rheolwyr (154); y gweithlu addysg (3,421)
Sylwer: Ni chafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys yn yr arolwg dysgwyr

Y prif reswm a roddwyd gan fusnesau / rheolwyr, y cyhoedd a rhieni / gofalwyr a arolygwyd a oedd yn erbyn y newidiadau i'r flwyddyn ysgol oedd eu bod yn teimlo nad oedd eu hangen – dywedodd 32%, 28% a 25% o'r grwpiau hyn yn y drefn honno fod pethau'n iawn fel yr oeddent. Roedd rhesymau eraill yn aml yn canolbwyntio ar y chwe wythnos o wyliau haf, gyda'r rhai a oedd yn gwrthwynebu er enghraifft yn dweud nad oeddent yn hoffi'r syniad o fyrhau gwyliau'r haf, bod plant yn haeddu gwyliau haf hir a'u bod yn cymryd eu gwyliau teuluol yn yr haf.

Roedd cyfranogwyr yn arolwg y gweithlu addysg yn fwyaf tebygol o fod yn erbyn y newidiadau am eu bod yn teimlo bod ar athrawon angen chwe wythnos yn yr haf i ymlacio /

cael eu cefn atynt / paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (26%). Dywedodd 18% o'r rhai a oedd yn gwrthwynebu eu bod yn teimlo bod ar blant angen gwyliau hir, tra bo 15% yn teimlo nad oedd angen newid o gwbl.

Caiff y rhesymau a grybwyllwyd gan 5% neu fwy o'r rhai a oedd yn erbyn newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol eu darparu yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Rhesymau dros fod yn erbyn newidiadau i'r flwyddyn ysgol (digymell) (%)

	Y cyhoedd	***Rhieni / gofalwyr***	***Busnesau / rheolwyr***	***Y gweithlu addysg***
Dim angen newid / iawn fel ag y mae	**28**	**25**	**32**	**15**
Ddim yn meddwl bod byrhau gwyliau'r haf yn syniad da	**10**	**13**	**7**	2
Yn mynd ar wyliau teuluol yn yr haf / yn ymweld â theulu	**8**	**7**	2	6
Mae plant yn haeddu gwyliau hir / yn edrych ymlaen atynt	**8**	6	1	2
Mae gwyliau haf hir yn dda i iechyd / lles plant	7	3	1	4
Cyfle i blant fwynhau'r haf / tywydd braf	6	4	4	6
Mae ar blant angen amser i chwarae / bod yn blant	6	3	3	4
Mae ar athrawon angen chwe wythnos i orffwys / cael eu cefn atynt / paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf	6	6	6	**26**
Angen digon o amser i orffwys / cael eu cefn atynt	5	4	2	5
Mae ar blant angen gwyliau hir / iawn	5	4	**8**	**18**
Rwy'n mwynhau cael fy mhlant gartref / cael amser teuluol	4	4	1	14
Mae athrawon yn gweithio yn ystod gwyliau byrrach felly mae angen gwyliau hir arnynt	-	-	-	12
Mae'r haf yn adeg well ar gyfer gwyliau / Nid yw'r gaeaf yn dda ar gyfer gwyliau	-	-	-	9
Ar gyfer iechyd meddwl a lles athrawon / i osgoi diffygio	-	-	-	7

Seiliau – y rhai a oedd yn erbyn newidiadau i'r flwyddyn ysgol bresennol: y cyhoedd (165); rhieni / gofalwyr (78); perchnogion busnes / rheolwyr (61); y gweithlu addysg (3,990)
Sylwer: Ni chafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys yn yr arolwg dysgwyr

7. Adweithiau i fodelau amgen ar gyfer y flwyddyn ysgol

Pwyntiau allweddol yn seiliedig ar adborth cyfranogwyr

- *Fe wnaeth dros chwech ymhob deg o'r gweithlu addysg ac ychydig dros hanner y dysgwyr a arolygwyd ddewis newid, gan ddewis un o'r tri model amgen a brofwyd.*
- *Fodd bynnag, fe ddewisodd lleiafrif mawr o'r gweithlu addysg a dysgwyr gadw'r flwyddyn ysgol yn ddigyfnewid ar ôl gweld y modelau amgen.*
- *Yr opsiwn newydd mwyaf poblogaidd oedd Model B (pum tymor ysgol sy'n gyfartal fwy neu lai ac sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd a phedair wythnos o wyliau haf yn lle chwech). Hwn oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer oddeutu un ymhob tri chyfranogwr sy'n gweithio yn y sector addysg ac oddeutu un ymhob pedwar cyfranogwr 7 i 18 oed mewn addysg.*
- *Roedd dros hanner y cyfranogwyr sy'n gweithio ym myd addysg yn teimlo y byddai Model B yn well na strwythur presennol y flwyddyn ysgol, ac felly hefyd ychydig dros draean o ddysgwyr.*
- *Roedd y cyfrannau a ddewisodd Fodel A (pum wythnos o wyliau haf) a Model C (tymhorau sy'n para oddeutu chwech i saith wythnos gyda thair wythnos yn yr haf) fel yr opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio'n is o lawer.*

Dangoswyd tri model amgen gwahanol ar gyfer y flwyddyn ysgol i'r rhai a ymatebodd i'r arolygon dolen agored ar gyfer y gweithlu addysg a dysgwyr a gofynnwyd iddynt a fyddai pob model amgen yn well na'r flwyddyn ysgol bresennol, yn ddim gwahanol iddi, ynteu'n waeth na hi. Dangoswyd yr un tri model i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws, cyfweliadau rhanddeiliaid a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid a gofynnwyd iddynt am eu hadweithiau. Cafodd y drefn y gwelodd pob grŵp o gyfranogwyr y modelau ynddi ei chylchdroi i osgoi tuedd trefn.

Disgrifiwyd y modelau fel enghreifftiau o sut y gallai blwyddyn ysgol amgen edrych, a phwysleisiwyd nad datganiad o bolisi Llywodraeth Cymru oeddent.

Caiff y tri model eu crynhoi isod. Ym mhob diagram, mae'r blychau gwyrdd yn dynodi'r tymor ac mae'r blychau melyn yn dynodi gwyliau ysgol. Byddai gan bob blwyddyn 190 o ddiwrnodau addysgu.

*Mae gan **Fodel A** dri thymor ysgol sydd oddeutu 13 wythnos o hyd. Mae gan bob tymor wyliau o un wythnos hanner ffordd drwodd. Mae tymor yr hydref yn fyrrach na'r un presennol. Ceir pum wythnos o wyliau yn yr haf yn lle chwech.*



*Mae gan **Fodel B** bum tymor ysgol sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd. Ceir pedair wythnos o wyliau haf yn lle chwe wythnos. Ceir tair wythnos o wyliau gaeaf yn lle pythefnos. Ceir pythefnos o wyliau ym mis Hydref, mis Chwefror / Mawrth a mis Mai.*



*Mae gan **Fodel C** chwe thymor ysgol sy'n para am oddeutu chwech i saith wythnos. Tua phythefnos o hyd yw pob cyfnod o wyliau ysgol ac eithrio'r gwyliau haf sy'n para am dair wythnos.*



7.1 Hoff ddewisiadau ar y cyfan o ran modelau ar gyfer y flwyddyn ysgol

Ar ôl gweld pob un o'r tri model amgen posibl a chael eu hatgoffa am system bresennol y flwyddyn ysgol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn arolygon y gweithlu addysg a dysgwyr beth fyddai eu hoff ddewisiadau ar gyfer y dyfodol. Gallent ddewis naill ai cadw'r flwyddyn ysgol fel ag y mae neu ddewis un o'r tri model amgen posibl a gyflwynwyd.

Dewisodd **lleiafrif mawr** o'r gweithlu addysg (32%) a dysgwyr (41%) gadw'r flwyddyn ysgol yn **ddigyfnewid**. Fodd bynnag, roedd **chwech ymhob deg** o'r gweithlu addysg (63%) ac ychydig dros hanner y dysgwyr a arolygwyd (51%) **o blaid newid**, gan ddewis un o'r tri model amgen. Roedd penaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion a arolygwyd yn fwy tebygol o fod o blaid newid na phenaethiaid adran / penaethiaid blwyddyn ac athrawon – dim ond 27% o benaethiaid oedd am gadw'r flwyddyn ysgol fel ag y mae, o'i gymharu â 39% o benaethiaid adran / penaethiaid blwyddyn a 34% o athrawon.

Yr opsiwn newydd mwyaf poblogaidd oedd Model B (pum tymor ysgol sy'n gyfartal fwy neu lai ac sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd a phedair wythnos o wyliau haf yn lle chwech). Hwn oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer oddeutu un ymhob tri (32%) o'r cyfranogwyr sy'n gweithio yn y sector addysg ac oddeutu un ymhob pedwar (23%) o'r cyfranogwyr 7 i 18 oed mewn addysg. Roedd y cyfrannau a ddewisodd Fodel A a Model C fel yr opsiynau a oedd yn cael eu ffafrio ganddynt yn is o lawer (sef 18% ac 13% o'r gweithlu addysg ac 16% a 12% o ddysgwyr yn y drefn honno).

Nid oedd gan bron i un ymhob deg o ddysgwyr (9%) hoff ddewis neu fe wnaethant ateb 'ddim yn gwybod', fel y gwnaeth un ymhob ugain (5%) o'r gweithlu addysg (gweler Ffigur 10).

Ffigur 10: Hoff ddewis ar gyfer strwythur y flwyddyn ysgol ar gyfer y dyfodol (%)



Seiliau: y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

Erbyn diwedd y **trafodaethau yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid**, roedd peth diddordeb mewn ystyried newid ymhlith y gwahanol grwpiau ond mwy o ddiddordeb ymhlith rhieni, penaethiaid a rhanddeiliaid.

> *Mae ganddynt gymaint o wythnosau yn yr ysgol pan ydynt yn gweithio'n galed iawn, iawn. Wedyn mae ganddynt bythefnos o wyliau. Wedyn does ganddyn nhw ddim y chwe wythnos i ddiflasu, mae'n costio ffortiwn [mewn gofal plant], a phopeth arall. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*
>
> *Yn bersonol, rwy'n dal i hoffi'r syniad o'r chwe wythnos hir o wyliau. Efallai fod hynny'n hunanol. Rwy'n sicr wedi meddwl mwy am sut y gallai'r plant agored i niwed ei chael yn anodd. Byddai mwy o ymgysylltu cymunedol yn dda, ond nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai bod â haf byrrach a gwyliau hanner tymor hwy yn sicr yn helpu. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd dysgwyr a chyfranogwyr busnes a rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn y grwpiau ffocws ac ychydig o randdeiliaid yn tueddu i fod eisiau cadw'r flwyddyn ysgol fel ag y mae, ar ôl ei thrafod mewn peth manylder a gweld modelau amgen.

> *Rydym ni i gyd yn brwydro â'r cwestiwn – beth yw'r flaenoriaeth ar y cyfan yma? Addysg, yr economi? Pam ydym yn ystyried gwneud newidiadau? Os felly, nid yw'r un o'r opsiynau ABC yn well na'r hyn sydd gennym yn barod. (Rhanddeiliad)*

O'r modelau amgen, opsiwn B (pedair wythnos o wyliau haf) oedd yr un mwyaf poblogaidd yn y trafodaethau manwl, fel a ganfuwyd yn yr arolygon meintiol (ymhlith cynulleidfaoedd lle cyflwynwyd y modelau amgen):

- Roedd pobl ifanc yn tueddu i ddal i ffafrio'r model presennol, ond dewisodd rhai fodel A (pum wythnos o wyliau haf) gydag wythnos yn cael ei symud i'r Nadolig;
- Dewisodd rhieni fodel B yn gan mwyaf (pedair wythnos o wyliau haf);
- Roedd y gweithlu addysg wedi'i hollti fwy neu lai rhwng cadw'r flwyddyn ysgol presennol neu ddewis model amgen (model B neu A);
- Roedd busnesau'n tueddu i aros gyda'r model presennol, ond dewisodd rhai fodel A neu B;
- Roedd yn well gan randdeiliaid yn y cyfweliadau manwl fodel B yn bennaf.

7.2 Adweithiau i'r tri model amgen

7.2.1 Model A: pum wythnos o wyliau haf, tymor byrrach yn yr hydref

Yn yr arolygon meintiol, roedd bron i **hanner** y cyfranogwyr o'r gweithlu addysg (45%) yn credu bod Model A yn **well** na strwythur presennol y flwyddyn ysgol. Roedd oddeutu un ymhob tri (34%) yn teimlo'i fod yn waeth ac roedd y ddau ymhob deg (19%) sy'n weddill yn teimlo nad oedd yn wahanol o gwbl.

Roedd barn dysgwyr yn **rhanedig** – roedd 28% yn teimlo'i fod yn well na'r flwyddyn ysgol bresennol, 25% yn meddwl ei fod yn waeth a 26% yn teimlo nad oedd yn wahanol o gwbl (gweler Ffigur 11 isod).

Ffigur 11: Barn ynglŷn â Model Amgen A (%)



Seiliau: y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

Trosolwg
Isod ceir crynodeb o fanteision ac anfanteision canfyddedig o fodel A a roddwyd gan gyfranogwyr yn y trafodaethau manwl.

Manteision canfyddedig Model A	Anfanteision canfyddedig Model A
• Dyma sydd agosaf at y flwyddyn ysgol bresennol felly cafodd dderbyniad mwy cadarnhaol ymhlith y rhai y mae arnynt eisiau cadw'r strwythur presennol. • Mae'n cynnig cyfle da i staff gael eu cefn atynt a dadflino. • Mae'r proffesiwn addysgu'n dal i fod yn ddeniadol gyda gwyliau hir dros yr haf. • Ceir effaith gyfyngedig ar y flwyddyn academaidd bresennol ac nid effeithir ar amserlenni arholiadau cyffredin. • Bydd yn dechrau lleihau colled dysgu. • Mae tymor yr hydref yn fyrrach, sydd o fudd i ddysgwyr a staff. • Mae tair wythnos dros y Nadolig yn ddeniadol i rai teuluoedd; gallai olygu mwy o ymweliadau ag atyniadau twristaidd hefyd.	• Ni fydd yn gwneud llawer o wahaniaeth (e.e. i bryderon ynghylch gwyliau haf hir) ac nid yw'n werth yr ymdrech i'w roi ar waith. • Mae'r wythnos ychwanegol adeg y Nadolig yn golygu mwy o amser dan do i blant a bydd yn niweidiol i ddysgwyr agored i niwed. • Gallai'r effaith ar asesiadau allanol a diarholiad beri anfantais i ddysgwyr Cymru o'u cymharu ag eraill yn y DU. • Nid yw'n hyfyw i rai busnesau twristiaeth golli wythnos broffidiol iawn yn yr haf. • Ceir diffyg tystiolaeth i ategu'r model hwn.

Manteision canfyddedig model A
O'r tri opsiwn, roedd **dysgwyr** yn y trafodaethau manwl yn tueddu i ffafrio model A gan mai dyma oedd agosaf at yr hyn yr oeddent hwy wedi'i awgrymu'n **ddigymell**, roedd gwyliau'r haf yn dal i fod yn weddol hir ac am nad oeddent mor hoff o fodelau B ac C. Roedd ar nifer fach eisiau gweld hanner tymor yn cyd-daro â Chalan Gaeaf.

> *Dwi'n tueddu i hoffi mwy o amsar off yn yr ha' pan mae 'na jyst lot mwy o bethau fedrwch chi neud hefo'ch amsar rili, yn enwedig fatha cael wsnos off pan mae hi'n bwrw glaw ym mis Chwefror. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

> *Byddwn i'n dweud rhyw wyth [allan o ddeg], ond rwy'n meddwl y byddai'n well pe bai'r un ym mis Hydref yn agosach at y diwedd fel ei fod yn wythnos dros Galan Gaeaf. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Roedd rhai rhanddeiliaid yn meddwl y gallai byrhau gwyliau'r haf i bum wythnos **leihau'r elfen o lithro'n ôl** yr oeddent yn credu bod llawer o ddysgwyr yn ei dioddef, a sicrhau hwb ymlaen o ran addysg a dysgu. Ychwanegodd rhanddeiliad arall mai un o'r manteision posibl pellach i ddysgwyr oedd bod y gostyngiad hwn yn hyd gwyliau'r haf yn cefnogi **pontio gwell** i ddysgwyr o un flwyddyn ysgol i un arall, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Roedd rhai rhieni'n hoffi'r opsiwn hwn hefyd am ei fod yn **byrhau tymor yr hydref**. Hefyd, roedd ychydig o rieni â phlant yn yr ysgol gynradd yn hoffi'r syniad o dair wythnos o wyliau

adeg y Nadolig ond byddai'n well ganddynt gael yr wythnos ychwanegol ym mis Ionawr, unwaith y byddai prysurdeb y paratoadau ar gyfer y Nadolig wedi mynd heibio ac i ddathlu'r Flwyddyn Newydd. Byddai wythnos ychwanegol adeg y Nadolig yn fwy gwerthfawr i deulu na chweched wythnos gwyliau'r haf, yn ôl un cyfranogwr o'r gweithlu addysg a oedd hefyd yn rhiant. Gallai'r wythnos ychwanegol ei gwneud yn haws hefyd i rieni â theuluoedd dramor ymweld â hwy ar adeg pan oedd y tywydd yn fwy sych, er enghraifft yn Ne Asia.

> *Rwy'n weddol hoff o hynny, y tymor byrrach yn yr hydref. Rwy'n meddwl [bod fy merch] yn barod i orffen. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Byddaf yn teimlo budd yr wythnos honno i'm teulu fel rhan o wyliau ym mis Rhagfyr nag yr wyf yn ei deimlo fel chweched wythnos ym mis Awst. Rwy'n meddwl ei fod mor syml â hynny. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Ar ben hynny, byddai plant a rhieni'n cael budd o bum wythnos o wyliau haf gan y byddai hynny'n **lleihau costau gofal plant** a heriau o ran trefnu gan hefyd adael digonedd o **amser teuluol**, meddai un rhanddeiliad.

Roedd ei **debygrwydd i'r flwyddyn ysgol bresennol** yn cael ei ystyried yn un o fanteision y model gan nifer fach o gyfranogwyr am ei fod yn gyfarwydd. Felly, byddai newid o'r fath yn cael effaith gyfyngedig ar y flwyddyn academaidd ac ar y plant hynny sy'n cael pen-blwydd ar ddiwedd mis Awst neu ar ddechrau mis Medi. Yn ôl un rhanddeiliad, roedd y model yn edrych fel y gallai fod yn fodel hydrin o safbwynt y rhai sy'n cynllunio ac yn gorfod darparu **arholiadau wedi'u hamserlennu'n** gyffredin, gan hefyd gynnig rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn unig. Yn yr un modd, ychwanegodd rhanddeiliad arall, byddai'r tymhorau hwy ar y cyfan yn ei gwneud yn bosibl **cynllunio'n well** yn hytrach na'r strwythur mwy ysbeidiol yn ôl pob golwg sy'n gysylltiedig â model B a'r pedair wythnos o wyliau haf.

> *Rwy'n credu bod hwn yn gwneud yn union beth ddwedais i, yn cymryd wythnos oddi ar fis Awst ac yn ei roi ym mis Rhagfyr ac rwy'n meddwl bod hynny'n welliant. Nid wyf yn meddwl mai dyma'r model gorau posibl ond rwy'n meddwl ei fod yn welliant. . . . Rwy'n meddwl efallai mai dyma fwy neu lai yw'r pellaf y byddai staff yn hapus i fynd. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Hefyd, roedd rhai rhanddeiliaid yn disgwyl y byddai'r model yn dal i alluogi **staff ysgolion i gael gwyliau hir** i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefn atynt a lleihau'r perygl o ddiffygio. Roedd un neu ddau o randdeiliaid yn credu y byddai'r **atynfa** i'r proffesiwn addysgu a achosir gan wyliau hir yn cael ei chadw ei raddau helaeth ac ni fyddai'n effeithio ar recriwtio.

Gan ganolbwyntio ar fusnesau, awgrymwyd ymhlith rhanddeiliaid y gallai'r gwyliau hwy yn y gaeaf ddarparu mwy o gyfleoedd i **deuluoedd ymweld ag atyniadau twristaidd** yng Nghymru a oedd fel arfer yn ei chael yn anodd denu ymwelwyr yn ystod y gaeaf. Gallai hefyd ddarparu refeniw ychwanegol i fusnesau lletygarwch, yn nhyb un cyfranogwr o fusnes manwerthu.

Mae llawer yn mynd ymlaen gyda pantos a winter wonderland a male voice choirs yn y stryd a phopeth. Fi'n hoffi Nadolig a beth sy'n digwydd ar y stryd fawr ac yn y hospitality, so dyna pam mae wythnos bant o'r haf ac un ychwanegol yn Ragfyr, mae hwnna'n gweithio i fi. (Busnes – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Mantais bosibl bellach a nodwyd gan randdeiliad oedd bod angen i deuluoedd â phlant anabl **gynllunio apwyntiadau meddygol**, felly bod blwyddyn ysgol reolaidd gyda chyfnodau o wyliau cyson yn rhywbeth cadarnhaol.

Fodd bynnag, nid oedd rhai rhanddeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn gallu gweld **unrhyw fanteision** i'r model hwn o gwbl. Yr unig fudd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ôl cwpl o gyfranogwyr, oedd y byddai'n arbed arian i ysgolion ar filiau ynni yn y gaeaf oherwydd yr wythnos ychwanegol o wyliau adeg y Nadolig. Gallai hefyd olygu gwario ychydig yn llai ar athrawon cyflenwi am bod staff parhaol yn fwy tebygol o fod yn sâl yr adeg hon o'r flwyddyn gyda'r model presennol.

Anfanteision canfyddedig model A

Roedd rhai cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl yn teimlo na fyddai symud un wythnos a hynny'n unig yn werth chweil am **na fyddai rhyw lawer yn newid**. Ni fyddai'n ymdrin â phryderon ynghylch y gwyliau haf hir nac anfanteision presennol canfyddedig eraill y model sydd eisoes yn ei le, ychwanegodd rhai. Yn ogystal â hyn, roedd ychydig o rieni'n meddwl **bod y tymhorau'n edrych yn rhy hir** i'w plant o oedran cynradd.

So does 'na'm pwynt newid o os ti jyst yn mynd i newid hynna faint ohono fo. . . Fatha, mae'r broblem o'r Medi i fatha Rhagfyr, y darn yna, mae'r broblem yna dal yna. (Dysgwyr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Dwi'm yn gweld hwnna yn neud llawer o wahaniaeth. A pam newid be s'gennyn ni rŵan ta i hynna felly? (Busnes – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Dydyn ni ddim yn gweld ein plant am chwe wythnos ar y tro ac i rai o'n disgyblion agored iawn i niwed o gartrefi difreintiedig mae hynny'n amser hir iawn. . . . Ni fyddai pum wythnos o wyliau haf yn mynd i'r afael â'r mater a byddai tymor yr hydref yn dal yn rhy hir. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)

Nid oedd rhai rhanddeiliaid, rhieni, cyfranogwyr o'r gweithlu addysg a chyfranogwyr o fyd busnes yn meddwl mai'r Nadolig oedd y lle gorau ar i osod wythnos ychwanegol, a honno wedi cael ei symud o'r haf. Gyda diwrnodau tywyllach a thywydd oer, roedd plant **dan do** gan mwyaf, a byddai'n golygu mwy o amser sgrîn. Byddai llai o opsiynau ar gyfer gweithgareddau i blant a byddai cost gweithgareddau dan do gyda thywydd oer neu wael yn rhy ddrud i lawer o deuluoedd. Awgrymodd nifer fach o gyfranogwyr y gallai'r wythnos a dynnir oddi ar yr haf gael ei hychwanegu at hanner tymor yr hydref. Gallai helpu gyda dysgwyr yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac mae'n debygol y byddai'r tywydd yn well nag adeg y Nadolig fel bod plant yn gallu treulio mwy o amser yn yr awyr agored.

Ym mis Rhagfyr mae'r tywydd yn ofnadwy. Mae pawb y tu mewn. Dydw i ddim yn meddwl y dylid cael wythnos ychwanegol o wyliau bryd hynny. Rwy'n meddwl bod hynny'n syniad gwael. (Busnes)

Ar ben hynny, roedd rhai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn dadlau y byddai tair wythnos o wyliau ym mis Rhagfyr yn golygu bod **dysgwyr cynradd** ar eu colled trwy beidio â chael yr holl weithgareddau hwyl a'r cyfnod sy'n arwain at y Nadolig. Hefyd, nid oedd tair wythnos dros y Nadolig yn cael ei ystyried yn ddewis delfrydol, yn ôl rhai rhanddeiliaid, cyfranogwyr o'r gweithlu addysg a chyfranogwyr busnes: gallai trais domestig, straen a phroblemau ariannol wneud pethau'n **waeth i blant agored i niwed**. Gallai tair wythnos o wyliau fod yn niweidiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i ystyried tlodi tanwydd ar gyfer teuluoedd â phlant gartref am wythnos ychwanegol yn y gaeaf.

Yn ôl cwpl o randdeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg, gallai newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn y model hwn ac mewn modelau eraill effeithio ar **asesiadau allanol ac asesiadau diarholiad**. Byddai wastad angen ystyried amserlenni arholiadau yn ogystal â phryd y byddai canlyniadau'n cael eu cyhoeddi. Byddai angen ymchwilio ymhellach i sut y byddai newidiadau'n effeithio ar geisiadau i brifysgolion, i sicrhau na fyddai dysgwyr o Gymru dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

O safbwynt busnes, meddai un rhanddeiliad, gallai **waethygu pwysau staffio presennol** yr oedd rhai manwerthwyr yn eu hwynebu yn y cyfnod prysur hwn. Gallai hyn wrthbwyso'r manteision posibl sy'n deillio o fwy o alw. Felly nid oedd y rhesymeg dros yr wythnos ychwanegol hon yn glir i rai.

Ar gyfer y sector twristiaeth, rhagwelid ymhlith ychydig o randdeiliaid y byddai symud i ffwrdd oddi wrth y model a ddefnyddir yn Lloegr yn eithriadol o anodd i'w reoli o safbwynt **staffio** hefyd. Byddai'n ei gwneud yn anodd iawn i fusnesau twristiaeth recriwtio digon o staff o'r sector ysgolion (h.y. dysgwyr hŷn mewn ysgolion a rhai aelodau o staff ysgolion sy'n ymgymryd â swyddi yn y gwyliau) ar gyfer y cyfnodau hynny sy'n wahanol i wyliau ysgol Cymru. Fe wnaethant resymu bod rhaid i wyliau ledled y DU fod yn gyson ar gyfer y sector twristiaeth yn enwedig.

Fe bwysleisiodd nifer o randdeiliaid a chyfranogwyr o fyd busnes nad yw'r syniad o golli un wythnos o wyliau haf, sy'n **amser proffidiol iawn** gyda nifer uchel o ymwelwyr ar gyfer mathau penodol o fusnesau, yn fodel hyfyw na chynaliadwy. Yn ôl y sôn ni fyddai wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Rhagfyr yn gwrthbwyso'r colledion hyn. Roedd derbyniadau'r haf yn darparu cymhorthdal ar gyfer misoedd tawelach y gaeaf pan oedd gan atyniadau oriau agor cyfyngedig.

7.2.2 Model B: pum tymor ysgol sydd oddeutu saith i wyth wythnos o hyd, pedair wythnos o wyliau haf

Yn yr arolygon meintiol, nododd **dros hanner** y cyfranogwyr o'r gweithlu addysg (54%) fod Model B yn **well** na strwythur presennol y flwyddyn ysgol, tra bo bron i bedwar ymhob deg (39%) yn teimlo'i fod yn waeth a dim ond 5% yn teimlo nad oedd yn wahanol o gwbl.

Roedd barn dysgwyr yn llai cadarnhaol ynglŷn â Model B, gyda mwy'n nodi ei fod yn **waeth** nag a nododd ei fod yn well na'r flwyddyn ysgol bresennol (sef 43% o'i gymharu â 35%). Roedd 12% yn teimlo nad oedd yn wahanol o gwbl (gweler Ffigur 12).

Ffigur 12: Barn ynglŷn â Model Amgen B (%)



Seiliau: y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

Trosolwg

Isod ceir crynodeb o fanteision ac anfanteision canfyddedig o fodel B a roddwyd gan gyfranogwyr yn y trafodaethau manwl.

Manteision canfyddedig Model B	Anfanteision canfyddedig Model B
• Mae haf byrrach yn golygu bod diffyg gorchwylion rheolaidd yn llai o broblem i ddysgwyr iau a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. • Mae'n teimlo'n fwy cytbwys a gwasgarog, yn addas ar gyfer dysgwyr yn gyffredinol a dysgwyr agored i niwed. • Bydd gwyliau haf byrrach yn lleihau colled dysgu. • Mae'n darparu mwy o hyblygrwydd o ran pryd all teuluoedd gymryd gwyliau hwy. • Mae'n darparu mwy o amser teuluol adeg y Nadolig. • Mae'n creu mwy o sicrwydd gyda chynllunio ysgol ac mae'n haws addysgu unedau gwaith. • Mae potensial i rai busnesau twristiaeth gynyddu incwm ar adegau eraill o'r flwyddyn.	• Nid yw gwyliau haf byrrach yn galluogi dysgwyr a staff y gweithlu addysg i anghofio am waith a chael eu cefn atynt yn iawn, gan effeithio ar les. • Mae dychwelyd ym mis Awst yn golygu problemau gweinyddol i ysgolion ac yn creu cymhlethdodau gyda derbyniadau i brifysgolion a darparu canlyniadau arholiadau. • Mae tymor yr hydref yn rhy hir i ddysgwyr iau a staff. • Bydd yn cynyddu prisiau gwyliau gyda gwyliau haf sydd dros cyfnod cywasgedig. • Mae'n cywasgu cyfnod hanfodol o ran incwm i nifer o fusnesau twristiaeth, gan effeithio'n ddifrifol ar y diwydiant. • Mae'n creu problemau staffio i fusnesau. • Mae'r wythnos ychwanegol dros y Nadolig yn golygu mwy o amser dan do i blant a bydd yn niweidiol i ddysgwyr agored i niwed.

• Mae gwyliau sy'n para am bythefnos yn creu mwy o gyfleoedd i staff gael eu cefn atynt. • Gallai'r sector gofal plant a chlybiau yn y gwyliau gael budd o gael gwared â gwyliau sy'n para am un wythnos gan y gallai pythefnos o wyliau wneud cynlluniau'n fwy cost-effeithiol.	• Caiff y diffyg cysondeb â Lloegr ei nodi fel problem. • Ceir diffyg tystiolaeth i ategu'r model hwn.

Manteision canfyddedig model B

Yn y trafodaethau manwl, roedd rhai rhieni â phlant yn yr ysgol gynradd yn hoffi'r **gwyliau haf byrrach** hyn am bod diffyg gorchwylion rheolaidd i'w plant weithiau'n broblem. Roedd y ffordd yr oedd yr wythnosau sy'n weddill wedi'u gwasgaru gyda gwyliau o bythefnos yn bennaf yn lleddfu pryderon rhai cyfranogwyr ynghylch hyd tymhorau. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno bod y model yn teimlo'n fwy 'cytbwys' ac addas i ddysgwyr yn ogystal â rhieni yn enwedig i ddysgwyr agored i niwed a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Atgoffodd un rhanddeiliad y byddai angen darpariaeth ychwanegol o hyd i gefnogi'r dysgwyr hyn yn ystod y gwyliau.

> *Y peth allweddol i mi oedd symud i ffwrdd oddi wrth y chwe wythnos [ar gyfer mab ag anghenion dysgu ychwanegol]. . . . Mae Opsiwn B . . . yn syml i'w weld fel pe bai'n cynnwys llawer mwy o gydbwysedd (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Byddwn i'n dweud bod hwn yn well i blant difreintiedig oherwydd nad ydynt yn cael y gwyliau hir i ffwrdd o'r ysgol ond byddech am weld darpariaeth yn y gwyliau hynny sy'n wirioneddol hygyrch ac o ansawdd da. . . . Bwyd a chwaraeon, lles, celf a chrefft. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Gallai gwyliau ychydig yn hwy dros y flwyddyn roi **mwy o hyblygrwydd** i deuluoedd o ran pryd yr oeddent yn cymryd gwyliau, yn nhyb ychydig o rieni a rhanddeiliaid. Byddai mwy o ddewis yn golygu'r gallu i gymryd gwyliau hwy heb dynnu eu plentyn o'r ysgol. Byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl cael **mwy o amser teuluol**, ym marn cwpl o gyfranogwyr. Fe ychwanegodd rhanddeiliad y dylai fod yn haws i rieni gynllunio eu trefniadau gofal plant yn ystod y gwyliau, er bod ymwybyddiaeth y gallai'r model hwn gael effaith negyddol ar ddarparwyr gofal plant gan y gallai fod angen llai o glybiau yn y gwyliau.

> *Dwi'n eitha' licio hwn yn gyffredinol. Mae o fel 'sa fo'n gwneud mwy o sense i fi o ran patrwm bywyd a hyblygrwydd, cymryd gwylie ar amser neis o'r flwyddyn. Ie, dwi'n eitha' licio hwn. (Rhiant – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Roedd yn well gan rai cyfranogwyr o'r gweithlu addysg ac o blith rhanddeiliaid y model hwn ar y cyfan gan y byddai'r tymhorau byrrach yn **optimaidd ar gyfer dysgu**, y byddai'r haf byrrach yn helpu gyda cholled dysgu ac y byddai wythnosau gwyliau'r haf ym mis Gorffennaf gan mwyaf pan oedd disgwyl i'r tywydd fod yn well nag ym mis Awst. Roedd nifer fach o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn meddwl y byddai tymhorau o hyd cyfartal yn ei gwneud yn haws addysgu unedau o waith. Hefyd, roedd y pythefnos o wyliau i'w gweld fel pe baent **wedi'u gwasgaru'n dda** ar gyfer tywydd gwell, mynd ar wibdeithiau a gallent helpu gyda sefyllfaoedd lle mae athrawon a dysgwyr yn diffygio. Byddai'r tymhorau cyfartal yn creu

mwy o 'sicrwydd' ar gyfer **cynllunio** calendrau ysgolion hefyd, yn eu tyb hwy. Hefyd, roedd nifer fach o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg gynradd yn croesawu'r wythnos ychwanegol dros y Nadolig gan bod cymaint o waith yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau cyn hynny.

> *Rwy'n meddwl bod gennym siawns go iawn o gynyddu dysgu i'r eithaf hefyd, gyda'r talpiau rheolaidd hynny a heb fwlch rhy fawr. Rwy'n meddwl bod hynny yn y bôn yn optimaidd onid yw, y bwlch o bedair wythnos, iawn, ond nid yw mor hir fel eu bod yn methu â chofio . . . Dyna'r broblem gyda'r chwe wythnos. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Fe drafodais i hyn gyda'm tîm arwain ac maen nhw'n hoffi'r model hwn ar y cyfan ac rwyf innau'n ei hoffi hefyd oherwydd rwy'n meddwl ei fod yn gwneud dau beth. Mae'n gwneud yr hyn y mae angen iddo'i wneud o ran rhoi ychydig mwy o amser i ni adeg y Nadolig y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud ei fod yn werthfawr, rwy'n meddwl. Mae'n dal i roi'r cyfnod hwnnw o bedair wythnos i ni lle mae gennym yn bendant ymdeimlad o ddiwedd a dechrau newydd a'r holl bethau hynny sy'n bwysig iawn yn fy nhyb i. Ac rwy'n meddwl ei fod yn llyfnhau hyd tymhorau. Felly rwy'n weddol hoff o hwn. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Byddai tymhorau mwy cyfartal yn gwneud pethau'n **fwy teg i wahanol garfannau**, yn ôl un rhanddeiliad, gan na fyddai dyddiadau tymhorau amrywiol yn effeithio arnynt mwyach, yn enwedig lle'r oedd paratoi ar gyfer arholiadau yn y cwestiwn.

Nid oedd dechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Awst yn bryder mawr i un rhanddeiliad am bod **tywydd y DU** yn gallu bod mor amrywiol. Hefyd, ychwanegodd rhanddeiliad arall, gallai olygu bod ysgolion yn gallu gwneud mwy o ddysgu yn yr awyr agored a hefyd bod dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol am eu bod yn fwy egnïol.

Roedd ychydig o ddysgwyr hŷn yn hoffi'r **gwyliau Pasg sefydlog** am y byddent yn rhoi cysondeb a sicrwydd o ran hyd tymhorau yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle'r oedd rhai tymhorau'n teimlo'n rhy hir. Tybiwyd ymhlith cyfranogwyr y byddai ysgolion yn dal i allu bod ar gau yn ystod **gwyliau banc** a fyddai'n ychwanegu at apêl y model ac yn helpu i rannu rhai o'r tymhorau hwy. Roedd un rhanddeiliad yn cofio bod y model yr Iseldiroedd yn weddol debyg, gan gynnwys dyddiadau sefydlog yn y gwanwyn. Roedd yn meddwl bod y wlad a'i dysgwyr yn gwneud yn weddol dda lle'r oedd lles yn y cwestiwn.

> *Dwi'n licio bod nhw yn fixed achos hefo sut mae gwylia Pasg a phethau'n gallu symud, mae'n gallu achosi problemau lle mae tymor yn either gallu teimlo'n rili hir a dragio neu yn rili byr, sydd yn achosi'r tymor nesa' fod yn rili hir. So dwi'n hoffi'r ffaith bod nhw yn fixed a bod nhw'n scheduled a ti'n gwybod bod nhw ddim am newid bob blwyddyn a bod maint y tymor yn gyson. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

O safbwynt asesu, cyfeiriwyd ymhlith rhanddeiliaid at sut y byddai **arholiadau** cyhoeddus yn cael eu cynnal ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Dylai'r ffactor yma, ynghyd â dechrau cynharach i dymor yr hydref, gynyddu amser dysgu ac addysgu i'r eithaf. Byddai'r dyddiad dechrau cynharach yn nhymor yr hydref yn golygu y byddai staff a dysgwyr yn yr ysgol pan fyddai canlyniadau arholiadau'n cael eu cyhoeddi. Felly gallai fod yn haws darparu'r

mecanweithiau cymorth gofynnol ar gyfer dysgwyr, yn enwedig y rhai a fyddai'n camu ymlaen at addysg uwch.

Mewn ychydig o achosion, roedd cyfranogwyr o fyd busnes yn weddol hoff o'r model. Gallai ei gwneud yn **haws cynllunio gwyliau blynyddol staff** gyda mwy o opsiynau i gyflogeion gymryd eu prif wyliau trwy gydol y flwyddyn. Ar gyfer twristiaeth, roedd cyfleoedd i **gynyddu refeniw ar adegau eraill o'r flwyddyn** gyda'r cyfnodau o wyliau a fyddai'n para am bythefnos a byddai gwyliau'r haf yn ddigon hir i fod o fudd i ddysgwyr ac athrawon. (Roedd ar ychydig eisiau gweld pum wythnos yn hytrach na phedair wythnos yn yr haf.) Yn ôl un cyfranogwr â busnes lletygarwch twristiaeth, gallai'r pythefnos ym mis Mai ddal i olygu y byddai ganddynt yr un nifer o gwsmeriaid ag yn ystod y gwyliau haf presennol o chwe wythnos. Fodd bynnag, roedd busnes twristiaeth arall yn meddwl y byddai'r wythnos ychwanegol ym **mis Ionawr** o fudd i'r busnes gan y byddai gan ymwelwyr gyfle i gael gwyliau yn y gaeaf – cyfnod pan oeddent yn dal i gymryd digonedd o archebion.

> *I ni, dwi'n meddwl bysa hwnna'n gweithio'n well am fod o'n rhoi mwy o drawstoriad o wylia dros y flwyddyn yn lle bod o'n bulk a bod ni'n colli lot o staff am chwech wthnos o gyfnod; bod o'n rhoi dipyn bach mwy o hyblygrwydd i staff ni i gael gwylia. (Busnes – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Pe bai Cymru'n mabwysiadu'r model hwn gyda dechrau cynharach i wyliau'r haf ym mis Gorffennaf, gallai **estyn tymor yr haf** i atyniadau twristaidd yng Nghymru, meddai un rhanddeiliad.

Roedd rhanddeiliad arall yn disgwyl, gan y byddai pob cyfnod o wyliau ysgol yn para am o leiaf bythefnos, y gallai'r **sector gofal plant a chlybiau yn y gwyliau** gael budd gan y byddai'n ei gwneud yn bosibl cynnal mwy o weithgareddau ac yn gwneud cynlluniau'n fwy cost-effeithiol.

Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn **methu ag enwi unrhyw fanteision** i'r opsiwn hwn.

Anfanteision canfyddedig model B

Nid oedd **dysgwyr** yn y trafodaethau manwl mor hoff o fodel B oherwydd y gwyliau haf byrrach. Roedd ar ddysgwyr hŷn eisiau cadw'r cyfnod hir o wyliau gan mai hwnnw oedd y prif gyfnod o wyliau pan nad oedd rhaid iddynt wneud unrhyw waith ysgol. Nid oedd rhai'n hoffi'r syniad o ddychwelyd i'r ysgol ym mis Awst ychwaith, pan oeddent yn tybio y byddai'n boeth.

> *Ond hefo'r gwylia arall i gyd, fydd 'na waith i neud, mond hefo pedwar wsnos lle does 'na ddim gwaith o gwbl, a dwi'n teimlo fatha bod y rhan fwya' bobl, ddim jyst isio ond mae pobl angan chwech. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

> *Y rhan yn yr haf, rwy'n meddwl. Rwy'n meddwl y dylai fod yn hwy, peidio â gorfod mynd i'r ysgol ym mis Awst oherwydd pa mor boeth ydyw'r adeg honno. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Ymhlith y gweithlu addysg, tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd un wythnos o wyliau ym mis Awst i'w gweld yn ddigon gan y byddai'n golygu **problemau gweinyddol i ysgolion** (e.e. mae contractau'n dod i ben ar ddiwedd mis Awst) a bod dysgwyr o bosibl yn dychwelyd i gael addysg cyn bod canlyniadau arholiadau ar gael. Byddai'n 'drychinebus' yn ôl un gweinyddwr mewn ysgol. Hefyd, meddai rhanddeiliad, byddai dychwelyd mor gynnar ym mis Awst yn creu cymhlethdod ynghylch y broses o gyflwyno ceisiadau i brifysgolion a phryd y mae canlyniadau'n cael eu rhannu ar gyfer dysgwyr blwyddyn 13, a chyfanswm aruthrol yr amser a gymer i leoli myfyrwyr ac ymdrin â'r broses. Byddai angen gwaith i sicrhau nad yw'r dechrau cynharach hwn i'r flwyddyn yn cael effaith niweidiol ar ddarparu canlyniadau arholiadau, dysgwyr a chyrff dyfarnu.

> *Wel, rwy'n meddwl y bydd materion mewn perthynas ag arholiadau'n codi yn sgîl hyn, yn amlwg. Oherwydd ar hyn o bryd mae canlyniadau arholiadau TGAU yn cael eu cyhoeddi ganol mis Awst felly byddai eich disgyblion Blwyddyn 11 eisoes yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer eu haddysg ôl-16 neu'n mynd i'r coleg oni bai bod rhywbeth yn newid. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

O safbwynt **lles athrawon**, roedd rhai'n meddwl nad yw pedair wythnos yn ddigon hir gan na fyddai ganddynt ddigon o amser i gael eu cefn atynt, pan fo paratoadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a dyletswyddau o ran canlyniadau arholiadau'n cael eu hystyried. Rhybuddiodd cwpl o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg, pe bai diwrnodau **canlyniadau arholiadau** yn symud er mwyn aros o fewn gwyliau'r haf, byddai'n gas gan athrawon a oedd fel arfer yn yr ysgolion ar y diwrnodau hynny orfod ildio'r un gyfran o wyliau haf a fyddai bellach yn fyrrach. Pe bai Cymru'n newid i'r model hwn, byddai angen cael trafodaeth ynglŷn â sut y byddai diwrnodau canlyniadau'n cael eu rheoli a'r goblygiadau ar gyfer athrawon a oedd yn draddodiadol yn defnyddio gwyliau haf i ateb y gofynion hynny.

> *Fy mhroblem i gyda'r model hwn fyddai arholiadau a chanlyniadau. Byddwn yn llai hoff os wyf yn onest, eto rwy'n siarad yn gyfan gwbl o safbwynt hunanol, o fod yn treulio pedwar diwrnod o'm pedair wythnos o wyliau haf yn ymdrin â chanlyniadau. . . . Byddwn yn awyddus felly, os oes unrhyw siawns o roi'r model hwn ar waith, rhaid i ni feddwl sut y mae arholiadau'n cael eu cynnwys yn hynny a sut y mae canlyniadau'n cael eu rheoli. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Mynegwyd pryder hefyd y byddai **tymor cyntaf sy'n wyth wythnos o hyd** (Awst – Hydref) heb unrhyw wyliau'n **rhy hir** i ddysgwyr. Yn yr un modd, yn nhyb rhai rhanddeiliaid, byddai'n rhy hir i staff addysgu gan arwain at absenoldebau, ac angen am ragor o athrawon cyflenwi yn yr ysgol. Gallai'r lleihad yng nghyfnod gwyliau'r haf achosi problemau iechyd meddwl a lles i rai aelodau o'r gweithlu, hefyd. O ystyried bod problemau staffio o fewn y sector yn barod yn ôl y sôn, dadleuodd un rhanddeiliad, gallai'r newid waethygu'r problemau hyn.

Yn fwy eang, yn ôl un cyfranogwr o'r gweithlu addysg, y gred oedd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymchwilio i'r model hwn a **heb ganfod unrhyw dystiolaeth** i ategu'r dull. Roedd yn ymddangos yn wrthreddfol ceisio byrhau gwyliau'r haf pan fo gan systemau ysgolion a 'edmygir' yn eang mewn gwledydd eraill wyliau hwy.

O safbwynt ffordd o fyw, roedd rhai rhieni a rhanddeiliaid yn pryderu y byddai gwyliau haf byrrach yn achosi i **brisiau gwyliau gynyddu** wrth i fwy o ymwelwyr gystadlu am yr un teithiau. Doedd perchennog gwesty, er enghraifft, ddim yn meddwl y byddai pobl yn mynd ar wyliau yn y misoedd oerach fel dewis arall. Byddai teuluoedd yn cael eu gadael â llai o opsiynau ar gyfer gwyliau yn ystod yr adeg o'r flwyddyn pan oedd arnynt eisiau un yn draddodiadol, gan gynnwys dramor. Roedd un rhanddeiliad yn disgwyl na fyddai rhyw lawer i'w wneud dros gyfnod o bythefnos ym mis Chwefror ac y byddai teuluoedd yn gyndyn o wario arian ar weithgareddau o ystyried ei bod hi'n rhy fuan ar ôl y Nadolig.

> *Gallem weld y prisiau hynny'n saethu i fyny mwy byth gan y byddai gennym fwy o gystadleuaeth ymhlith pobl y byddai arnynt eisiau mynd ar wyliau ar union yr un amser. (Rhanddeiliad)*

Roedd rhai busnesau'n cytuno: nid oedd perchennog siop ac Airbnb yn meddwl y byddai'n gwasgaru busnes dros y flwyddyn. Byddai'n syml yn **cywasgu eu tymor brig** yn lle hynny. Ar ben hynny, gallai'r gwyliau sefydlog yn y gwanwyn olygu cyfnod llai proffidiol dros y Pasg i rai manwerthwyr a hefyd absenoldeb yr hyn yr ystyrir yn draddodiadol ei fod yn ddechrau ar y tymor twristiaeth.

> *Byddem yn colli'r gwyliau ym mis Awst. Byddai'n ergyd i'n busnes, yn sicr. (Busnes)*

Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid adleisio'r pwynt ynglŷn â'r **effaith ar dwristiaeth**. Yn wir, roedd un rhanddeiliad yn meddwl y byddai'r model hwn yn drychineb i'r diwydiant twristiaeth ac y byddai'n arwain at golli llawer o swyddi. 'Mae'r model hwn yn fy mrawychu'n arw o safbwynt twristiaeth,' a 'hunllef anferthol' oedd eu llef. Byddai staffio'n anodd iawn ar adegau brig oherwydd y ddibyniaeth ar weithwyr tymhorol achlysurol gan gynnwys gweithwyr chweched dosbarth lleol a fyddai yn ôl yn yr ysgol, a byddai twristiaid a theuluoedd o Loegr y dal i ymweld. Fe ychwanegon nhw fod cyfnod yr haf ar hyn o bryd yn helpu llawer o fusnesau i oroesi cyfnod y gaeaf. Daeth un cyfranogwr i'r casgliad y 'Byddai Cymru'n colli oddeutu 75% o atyniadau twristaidd gyda'r model hwn'.

Ar ben hynny, rhagrybuddiodd un rhanddeiliad y gallai cywasgu'r galw am dwristiaeth i flociau o bythefnos yn hytrach na bod â'r gwyliau haf sydd wedi'u gwasgaru'n fwy dros chwe wythnos **greu pwysau i fusnesau twristiaeth** yn enwedig o safbwynt staffio. Ar ôl y pythefnos byddai cyfnod tawel yn hytrach na chyfnod mwy estynedig lle byddai chwe wythnos o gyflogaeth yn fwy deniadol i staff tymhorol.

> *Mae'n llawer haws cael y llafur achlysurol hwnnw, er enghraifft, dros floc o chwe wythnos, nag ydyw pan fo wedi'i dorri'n ddau floc. Felly dyna her yr haf. (Rhanddeiliad – sylw a wnaed yn Saesneg)*

Fe wnaeth un cyfranogwr y sylw y byddai dyddiadau'r haf yn y model hwn yn golygu bod plant yn yr ysgol yn ystod **Eisteddfod** yr Urdd (wythnos olaf mis Mai) ac y byddai'n rhaid i blant ddychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol (wythnos gyntaf mis Awst). Yng Ngorllewin Cymru, meddai ychydig o gyfranogwyr, cynhelir nifer o sioeau ffermio lleol ym mis Awst; ac fe allai hyn gynyddu cyfraddau absenoldeb o'r ysgol ymhlith dysgwyr.

Yn ôl cwpl o randdeiliaid sy'n gweithio yn y sector **gofal plant**, ac ychydig o rieni, byddai disodli gwyliau hanner tymor sy'n un wythnos o hyd â phythefnosau o wyliau'n ei gwneud yn anos i rieni drefnu gofal plant ymhlith ffrindiau a theulu. Nid oedd y pythefnosau o wyliau rheolaidd hyn yn apelio at un rhiant a oedd yn ffermwr oherwydd pryderon ynghylch gofal plant. Nid oedd unrhyw un arall i helpu ac nid oeddent yn gallu cymryd cymaint â hynny o amser o'r gwaith mor rheolaidd.

Yn ôl rhai busnesau, gallai gwyliau haf wedi'u byrhau arwain at **broblemau staffio** hefyd gan y byddai ar gyflogeion eisiau'r cymryd gwyliau yn ystod yr un wythnosau o ystyried ei bod yn well gan bobl yn gyffredinol gymryd prif wyliau yn yr haf. O leiaf gyda'r dewis presennol o chwe wythnos roedd mwy o hyblygrwydd. Fe ychwanegedd un rhanddeiliad y gallai materion staffio effeithio ar gludiant i ysgolion hefyd pe bai ar gyflogeion eisiau cymryd gwyliau ym mis Awst. Ar ben hynny, dywedodd cyfranogwr arall y byddai gwyliau sefydlog yn y gwanwyn nad oedd yn cynnwys y Pasg yn achosi materion staffio mewn sefyllfaoedd lle'r oedd staff yn draddodiadol yn defnyddio'r gwyliau cyhoeddus yn ychwanegol at eu hawl i wyliau blynyddol er mwyn cael gwyliau hwy adeg y Pasg. Un sylw terfynol a wnaed ynghylch staffio oedd na fyddai'r gwyliau hwy ar ddechrau mis Mai yn galluogi myfyrwyr prifysgol i weithio yn y diwydiant twristiaeth gan y byddai'n gwrthdaro â'u tymhorau.

Cafodd yr un materion a amlygwyd ynghylch y tair wythnos adeg y **Nadolig** ar gyfer model A eu codi mewn perthynas â model B: dysgwyr yn treulio mwy o amser dan do pan nad oedd y tywydd mor braf, a'r effaith ar ddysgwyr agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

> *Hwnna 'di'r adeg anodda i deuluoedd a, ti'n gwybod, domestic violence a'r stress pres a bob dim. So 'sa cael tair wsnos adra mewn cartra anodd yn ofnadwy, bysa? (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Roedd pryderon eraill a fynegwyd ymhlith rhanddeiliaid yn cynnwys y canlynol:

- Byddai'r pedair wythnos o wyliau haf yn ei gwneud yn anos i'r sector gofal cymdeithasol ddarparu ymyriadau a rhoi cymorth i deuluoedd;
- Pryderu ynghylch beth fyddai effaith y diffyg cysondeb â Lloegr, yn enwedig ar gyfer ysgolion ar y ffin.

7.2.3 Model C: chwe thymor ysgol sy'n para am oddeutu chwech i saith wythnos, tair wythnos o wyliau haf

Roedd ymateb i Fodel C ymhlith y gweithlu addysg a dysgwyr yn yr arolygon meintiol yn **negyddol** gan mwyaf, gydag oddeutu **chwech ymhob deg** o bob cynulleidfa'n credu bod y model amgen hwn yn **waeth** na strwythur presennol y flwyddyn ysgol (sef 64% a 58% yn y drefn honno).

Roedd y gyfran a ddwedodd fod C yn **well** yn llai nag ar gyfer y naill na'r llall o'r ddau fodel arall (sef 31% o'r gweithlu addysg a 26% o ddysgwyr) (gweler Ffigur 13).

Ffigur 13: Barn ynglŷn â Model Amgen C (%)



Gwell = cyfuniad o Gwell o lawer / gwell; Gwaeth = cyfuniad o Gwaeth o lawer / gwaeth (ar gyfer arolwg y Gweithlu Addysg); Gofynnwyd i'r dysgwyr ddewis rhwng Gwell / Gwaeth

Seiliau: y gweithlu addysg (8,696); dysgwyr (3,131)

Trosolwg

Isod ceir crynodeb o fanteision ac anfanteision canfyddedig o fodel C a roddwyd gan gyfranogwyr yn y trafodaethau manwl.

Manteision canfyddedig Model C	Anfanteision canfyddedig Model C
• Mae'n darparu mwy o gysondeb ar draws y flwyddyn ysgol sydd o fudd i ddysgu, plant agored i niwed a'r rhai ac anghenion dysgu ychwanegol. • Mae'n lleihau colled dysgu. • Mae'n rhoi gwyliau i ddysgwyr edrych ymlaen atynt yn amlach. • Mae gwyliau rheolaidd yn golygu llai o risg bod athrawon a dysgwyr yn diffygio. • Mae'n cynnig mwy o gyfle ar gyfer amser gyda'r teulu ac i archebu gwyliau ar wahanol adegau o'r flwyddyn. • Mae'n cynnig manteision posibl i fusnesau e.e. mae'n creu cyfle i ficro-fusnesau twristiaeth ac mae gwyliau sydd wedi'u gwasgaru'n fwy cyfartal yn well o safbwynt cynllunio busnes.	• Mae gwyliau'r haf yn rhy fyr a bydd hynny'n effeithio'n niweidiol ar les athrawon a dysgwyr. • Dros yr haf, ni fydd dysgwyr yn gallu treulio cymaint o amser gyda ffrindiau, anghofio'n llwyr am yr ysgol ac ennill arian dros gyfnod estynedig. • Nid oes unrhyw beth i ddysgwyr hŷn edrych ymlaen ato heb bwysau adolygu / gwaith ysgol. • Mae gormod o'r wythnosau gwyliau yn ystod cyfnodau â thywydd gwael a nosweithiau tywyllach, gan effeithio ar les dysgwyr a chyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol. • Mae'n teimlo'n rhy gatrodol ac undonog, gan effeithio ar les. • Nid oes digon o amser ar gyfer pontio o un flwyddyn academaidd i'r nesaf a dechrau newydd. • Mae'n creu risg uchel y bydd athrawon yn gadael y proffesiwn.

	• Ceir pryderon ynghylch diffyg cysondeb â threfniadau amserlennu arholiadau yn y DU – gallai dysgwyr yng Nghymru gael eu rhoi dan anfantais. • Bydd yn fwy o her i rieni drefnu gofal plant mor rheolaidd. • Bydd y gwyliau byr yn yr haf yn lleihau incwm busnesau twristiaeth yn sylweddol ac yn bygwth hyfywedd busnesau. • Bydd y gwyliau haf byr yn lleihau incwm busnesau twristiaeth yn sylweddol ac yn bygwth hyfywedd busnesau. • Bydd yn cynyddu prisiau gwyliau gyda gwyliau haf sydd dros gyfnod cywasgedig. • Ceir diffyg tystiolaeth i ategu'r model hwn.

Manteision canfyddedig model C

Yn y trafodaethau manwl, fe awgrymodd rhai cyfranogwyr ymhlith rhieni, rhanddeiliaid, y gweithlu addysg ac un neu ddau o fusnesu y byddai'r model yn darparu **mwy o gysondeb** trwy gydol y flwyddyn. Gallai'r dyluniad hwn, ynghyd â'r gwyliau haf byr, fod o fudd i blant ag **anghenion dysgu ychwanegol** a hefyd dysgwyr mwy **agored i niwed**, yn nhyb ychydig o gyfranogwyr. Byddai model â gwasgariad mwy cyfartal yn rhoi rhywbeth i ddysgwyr edrych ymlaen ato'n fwy rheolaidd hefyd. Roedd fersiwn o'r model hwn gyda phedair wythnos o wyliau haf yn apelio at rai penaethiaid ysgolion.

> *Rwy'n hoffi'r un yna . . . oherwydd ym mis Rhagfyr mae gennych ddwy [wythnos] ac yna ym mis Hydref mae gennych ddwy. Mae'r cwbl yn gyfartal. . . . Yn y rhan fwyaf o'r misoedd mae gennych wyliau am o leiaf hanner y mis. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Rwy'n meddwl y dylai fod tair [wythnos] yn unig adeg yr haf a thair tua mis Rhagfyr yna'r gweddill rhyw bythefnos neu un wythnos adeg y Pasg ac yna'r gweddill yn syml yn cael ei wasgaru'n gyfartal. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)*

> *Plant ag anghenion arbennig – mae arnynt angen cysondeb, mae arnynt angen gorchwylion rheolaidd, ac rwy'n meddwl bod dwy-dwy-dwy yn braf ac yn gyson, ac maent yn gwybod mai dim ond pythefnos o wyliau sydd ganddynt ac yna tymor ysgol ac yna pythefnos arall o wyliau. (Rhiant)*

Roedd rhiant arall yn cael ei thynnu mewn dau gyfeiriad wrth iddi ddychmygu'r model hwn yn gweithio'n dda i un plentyn ag anabledd ond nid i'w phlant eraill.

> *Mae un ferch gyda fi gyda salwch. Iddi hi, bydde hwn yn absolutely ffantastig achos bydde fe'n rhoi'r pythefnos i ffwrdd i ddod dros y salwch a mynd yn ôl mewn i'r ysgol eto, ble mae hi'n colli dipyn o amser i ffwrdd o'r ysgol nawr. A'r peth yw, bydde hwn yn rhoi yr amser iddi hi ddod dros yr ysgol a chael amser i ganolbwyntio wedyn yn yr*

ysgol. Gydag un ferch, bydde hwn yn absolutely ffantastig, ond i'r ddwy ferch arall, bydde fe ddim. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd rhai rhanddeiliaid ac ychydig o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg hefyd yn credu y byddai'r gwyliau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn yn golygu **llai o berygl o ddiffygio** a llai o siawns o golled dysgu. O safbwynt darpariaeth Gymraeg, yn nhyb cwpl o gyfranogwyr, byddai'r cyfle i gadw Cymraeg a ddysgwyd yn llawer mwy na'r system bresennol lle'r oedd dysgwyr yn ei chael yn anodd cofio'r hyn a ddysgwyd o'r tymor blaenorol os oedd y rhieni'n ddi-Gymraeg. Hefyd o safbwynt y Gymraeg, roedd un rhanddeiliad yn hoffi'r pythefnos o wyliau dros y Sulgwyn gan y byddai'n debygol o gyd-daro ag Eisteddfod yr Urdd. Roedd y rhan fwyaf o staff yn yr ysgol yn treulio wythnos yn Eisteddfod yr Urdd ac roedd angen wythnos ychwanegol arnynt o ganlyniad.

Byddwn i'n hoffi'r pedair wythnos o wyliau ym mis Awst. Ond mae'n well, byddai talpiau â ffocws llai'n gweddu'n well i'm dysgwyr i. Rwy'n meddwl bod llawer llai o siawns o redeg allan o stêm a bod pobl yn diffygio, y plant, y staff, weithiau'r rhieni. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Pwynt arall â ffocws ar ddysgwyr a wnaed gan un rhanddeiliad oedd y byddai angen ystyried effaith dymhorol y tywydd ar **weithgarwch plant**. Byddai'n allweddol sicrhau lefelau digonol o fuddsoddiad yn yr arlwy gweithgareddau, a bod ystod ac ansawdd yr arlwy i'r holl blant yn ddigonol. Fe ychwanegodd rhanddeiliad arall y byddai'r model hwn yn well i blant a phobl ifanc allu bod yn gorfforol egnïol, gyda gwyliau hanner tymor hwy.

O safbwynt **teuluol**, meddai ychydig o randdeiliaid, byddai gwyliau o bythefnos ar y tro'n caniatáu digon o amser i ymlacio a chael amser gyda'r teulu, a mwy o amser i archebu gwyliau, ond nid gormod o amser fel bod plant yn mynd allan o'r arfer o ddysgu. Hefyd, byddai'r nifer cynyddol o wyliau banc yn ystod y tymor yn golygu mwy o benwythnosau hir.

Daeth nifer o bwyntiau i'r amlwg mewn perthynas â **busnesau**. Yn ôl ychydig o randdeiliaid, gallai'r haf byrrach a gwasgaru'r gwyliau sy'n weddill yn fwy cyfartal gefnogi micro-fusnesau twristiaeth fel gosodiadau gwyliau. Byddai'n lleihau pwysau presennol ar staff yn ystod tymor 'gwallgof' yr haf. Gallai busnesau twristiaeth (e.e. cyflogwyr mwy) nad oeddent yn dibynnu ar gyflogeion ifainc (15-18 oed) gael budd o'r model hwn gan y byddai'n gwasgaru'r gwaith ac yn caniatáu rhagor o amser ar gyfer hyfforddiant. Roedd un rhanddeiliad yn dyfalu hefyd gyda'r hinsawdd yn mynd yn gynhesach, y byddai manteision i rai atyniadau twristiaeth, gan gynnwys budd o ran amseriadau gwahanol dros y flwyddyn wrth i'r model wneud i'r galw ymestyn drwy gydol y flwyddyn.

Anfanteision canfyddedig model C

Doedd cyfranogwyr yn y trafodaethau manwl yn aml ddim yn hoffi **pa mor fyr oedd gwyliau'r haf** – byddai dysgwyr a staff y gweithlu addysg yn colli'r chwe wythnos. Doedd rhai o'r gweithlu addysg yn syml ddim yn gallu dychmygu hynny ac roeddent yn disgwyl y byddai gwyliau byrrach o'r fath yn effeithio ar les y gweithlu addysg. Doedd dysgwyr Blwyddyn 12 yn arbennig ddim yn hoffi'r model hwn gan na fyddai'r gwyliau haf byr yn eu galluogi i wneud y pethau yr oedd arnynt eisiau eu gwneud: treulio amser gyda ffrindiau, cael seibiant go iawn o waith ysgol a gallu cael swydd yn yr haf dros gyfnod estynedig.

Mae hynna jyst yn appaling. Mae o'n tynnu'r joy o'r ha' i gyd o'na. . . . Might as well bod yn ysgol trwy'r flwyddyn i gyd. (Dysgwyr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Oherwydd bod 'na ddim hyblygrwydd yn y swydd, mae cael y chwech wsnos 'na, hwnna ydi'r bonus . . . Ond fedri di neud be ti isio mewn chwech wsnos neu mewn mis, fedri? Mae tair wsnos wedyn yn cyfyngu chdi, dydi, yn fy marn i. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Mae'n braf cael gwyliau hir ym mis Awst i anghofio am waith. Wn i ddim a fyddai tair yn ddigon o gael ein cefn atom. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Roedd hefyd yn teimlo'n rhy **gatrodol** ac undonog – dywedodd rhai dysgwyr hŷn y byddent yn teimlo fel 'robotiaid' tra bo rhai rhanddeiliaid wedi'i ddisgrifio fel model a oedd heb amrywiaeth, un 'fformiwläig' ac fe wnaethant ei gymharu â 'pheiriant rhedeg' heb ryw lawer o gyfle i anghofio am waith. Hefyd, nid oedd y gwyliau haf byrrach yn caniatáu digon o amser ar gyfer **dechrau newydd** i'r flwyddyn ysgol ac i 'ailosod' a oedd yn ôl y sôn yn symbylu staff a dysgwyr, tra bo ychydig o gyfranogwyr o'r gweithlu addysg yn dyfalu efallai na fyddai'r tymhorau byrrach yn ddigon hir i wneud cynnydd go iawn gyda dysgwyr. Byddai gorfod dal i feithrin a chynnal egni a chymhelliant dysgwyr a staff mor rheolaidd yn anodd iawn yn nhyb un cyfranogwr o'r gweithlu addysg. Byddai parhad yn cael ei niweidio gyda gwyliau sy'n bythefnos o hyd yn digwydd mor rheolaidd. Yn fwy hanfodol, fe wnaeth un rhanddeiliad y sylw na fyddai'r model o anghenraid yn datrys y materion a wynebir gan ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig. Roedd yn teimlo'n 'or-syml' credu y byddai'n cael yr effaith hon.

B: Dydyn ni ddim wir yn hoffi'r un yna. G: Mae'n ormod o ddwy, dwy, dwy, dwy, tair. Gormod o rythm diflas. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Saesneg)

Dwi'n gweld on eitha' monotonous. Mae o jyst yn teimlo'r un peth a jyst bod o fatha factory. Ti'n teimlo fatha robot yn mynd i ysgol bob dydd eniwe. Mae hynna jyst yn neud o'n waeth. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Rwyf wir yn meddwl ei fod yn darparu problemau go iawn gyda pharhad heblaw am unrhyw beth arall, ac rwyf wedi siarad am y ffaith ei bod o fudd i staff a disgyblion ailgalibro a bod â'r persbectif hwnnw. Ond, o safbwynt dysgu ac addysgu, mae mynychder gwyliau sy'n bythefnos o hyd yn broblemus oherwydd hanfod ein gwaith yw cynnal lefel benodol o egni, lefel benodol o gymhelliant. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Saesneg)

Yn ôl ychydig o randdeiliaid a chyfranogwyr o'r gweithlu addysg, roedd y model hefyd yn creu risg uchel y byddai **athrawon yn gadael y proffesiwn**. Roeddent yn meddwl bod effeithiau ar lefelau staffio'n barod ac y gallai problemau recriwtio a chadw athrawon gael eu gwaethygu. Ni fyddai gwyliau'r haf yn ddigon hir i athrawon gael seibiant llwyr, yn enwedig os oedd yn dal yn ofynnol iddynt fod yn yr ysgol ar gyfer dyletswyddau canlyniadau arholiadau. Fe ailadroddodd rhai ar ôl gweld y modelau eraill y byddai'r model yn golygu y byddai athrawon yn diweddu'n gweithio yn ystod mwy o'u gwyliau dros y flwyddyn.

Gyda phythefnos off yn fwy aml, dwi'n mynd i fod falle'n fwy tueddol o weithio yn ystod y pythefnosau yna na beth ydw i dros yr haf oherwydd mae'r haf falle yn switch off i fi. Ond yn ystod mis Hydref, Rhagfyr, Chwefror ac Ebrill, dwi'n gwybod mae'r flwyddyn dal mor brysur, ac mae gennych chi gymaint i neud. (Y gweithlu addysg – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Hefyd, ni fyddai unrhyw beth i ddysgwyr hŷn **edrych ymlaen ato**. Y chwe wythnos o wyliau haf yw'r hyn sy'n eu cadw i fynd trwy gyfnod yr arholiadau a dyna yw'r 'wobr' ar y diwedd, eglurodd rhai dysgwyr ym mlwyddyn 12. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid adleisio'r pwynt yma, gan gredu bod ar ddysgwyr angen gwyliau digon hir rhwng blynyddoedd ysgol i nodi eu cam ymlaen o un flwyddyn i'r nesaf.

Dwi'n teimlo hefyd yn hanner tymor ola' 'na, ti yn gweithio'n galad, a mae o werth o er mwyn y gwylia ha'. Yn fan'na, ti'm rili yn ennill dim byd. (Dysgwr – sylw a wnaed yn Gymraeg)

Roedd rhai rhieni, cyfranogwyr o fyd busnes, cyfranogwyr o'r gweithlu addysg a rhanddeiliaid yn cwestiynu'r angen am gymaint o wyliau sy'n para am bythefnos ar adegau o'r flwyddyn pan fyddai plant yn treulio **llai o amser y tu allan**. Roedd ychydig o gyfranogwyr yn meddwl y gallai hyn effeithio ar eu **hiechyd a'u lles**, o'i gymharu â'r chwe wythnos o wyliau haf ar hyn o bryd a oedd yn golygu bod gan blant fwy o gyfle i fod yn yr awyr agored.

Rwy'n meddwl y dylai'r gwyliau fod yn seiliedig ar y tymhorau sychach er mwyn iddynt fod allan o'r tŷ yn hytrach na bod yn gaeth i'r tŷ am 24 awr pan yw'n bwrw glaw ac ati. (Rhiant – sylw a wnaed yn Saesneg)

O ran **trefnu arholiadau**, yn ôl yr hyn a amlygwyd gan gwpl o randdeiliaid, byddai'r model yn creu cymhlethdod a chanlyniadau anfwriadol posibl i ddysgwyr. Mae ystod eang o gymwysterau, gan gynnwys rhai BTEC, wedi'u cynnwys yn nhrefniadau amserlennu cyffredin y DU ar gyfer arholiadau ar hyn o bryd. Ceir llawer llai o gymwysterau sydd i Gymru yn unig. Gan bod Lloegr yn annhebygol o newid trefniadau'r flwyddyn ysgol, gallai'r trefniant amserlennu cyffredin sy'n bodoli ar hyn o bryd fod yn broblemus, a gallai dysgwyr yng Nghymru gael eu rhoi dan anfantais. Byddai angen i'r ffordd y byddai arholiadau'n cyd-fynd ag unrhyw newid a'r effeithiau tebygol gael eu gwerthuso cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am newidiadau. Roedd barn gref iawn ymhlith rhanddeiliaid ei bod hi'n hanfodol bod rhanbarthau'r DU yn cydweithio ac yn cysoni calendrau. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod contract cyflogaeth cyffredinol y colegau trydyddol yn nodi'r gofyniad am bedair wythnos olynol o wyliau y byddai angen ei adolygu.

Roedd lefelau cryf o bryder ymhlith cyfranogwyr a hynny'n gysylltiedig â'r sector **twristiaeth** am bod gwyliau haf mor fyr a bod wythnos pan wneir elw'n cael ei disodli ag wythnos pan wneir colled dros y Nadolig. Byddai'n **effeithio ar refeniwiau** ar adeg bwysig o'r flwyddyn i rai busnesau twristiaeth a oedd yn dibynnu ar ymwelwyr mewn tywydd cynnes. Byddai'r rhan fwyaf o atyniadau twristaidd 'mewn dyfroedd dyfnion' yn ôl un cyfranogwr. Ni fyddai cyfle i fusnesau ailfuddsoddi; byddent, ar y gorau, yn adennill costau a byddai nifer yn mynd i'r wal, rhybuddiodd un rhanddeiliad. Roedd teimlad bod angen mwy o feddwl ac ystyriaeth

ar gyfer ail ddiwydiant mwyaf Cymru. Fe wnaed y pwynt y byddai effaith sylweddol ar bobl ifanc a oedd yn ceisio gyrfa yn y diwydiant hefyd.

> *B: Nid yw'r gwyliau'n ddigon hir pan fo'r tywydd yn braf. . . . B: Mae gormod o wyliau sy'n para am bythefnos pan does dim byd i'w wneud. . . . B: Mae llefydd ar gau. . . . B: Mae'n bwrw. (Busnes)*

Ar ben hynny, byddai 'datgymalu'r' tymor twristiaeth yn golygu bod cyflogwyr yn gorfod ceisio **trefnu gweithwyr i gyflenwi'n** fwy rheolaidd nag ar hyn o bryd hyd yn oed. Hefyd ni fyddai cyfnod brig ar gyfer atyniadau i dwristiaid a gallai prinderau staffio ei gwneud hi'n anodd iawn ateb y galw gan ymwelwyr eraill o'r DU a'r tu hwnt. Roedd ychydig o gyfranogwyr yn rhagweld y byddai cyflogwyr yn gyffredinol yn ei chael hi'n anodd rheoli staffio o safbwynt parhad, ac y byddai'n creu pwysau o ran y galw ymhlith staff am wyliau blynyddol yn ystod y tair wythnos o wyliau haf.

Roedd ffocws pryder ychydig o randdeiliaid ar ddarpariaeth **gofal plant**. Y ddadl oedd y gallai'r gwyliau haf byr fod yn niweidiol i ddarparwyr gofal plant a oedd yn cynnig clybiau yn y gwyliau ac y gallai olygu bod rhai darpariaethau'n cau. Byddai tair wythnos o wyliau haf yn rhwystr, gan ei gwneud yn anodd recriwtio staff. Yn ei dro, byddai hyn mwy na thebyg yn cael effaith negyddol ar yr ystod a'r math o gyfleoedd a phrofiadau a fyddai ar gael i ddysgwyr a rhieni. Fel gydag opsiwn B, gallai fod yn anodd iawn trefnu gofal plant anffurfiol am gyfnodau o bythefnos o'i gymharu â'r gwyliau hanner tymor o un wythnos ar hyn o bryd, yn enwedig i deuluoedd rhiant sengl. Cafodd heriau gofal plant eu crybwyll ymhlith rhieni hefyd, gan na fyddai pythefnos o wyliau i drefnu gofal plant ar eu cyfer byth yn bell i ffwrdd.

> *Rydych yn meddwl am fis Ionawr, yna maen nhw'n cael gwyliau eto ym mis Chwefror, maen nhw yn ôl yn yr ysgol ym mis Mawrth, wedyn yn cael gwyliau eto. Bydd yn ddi-baid. (Rhiant – sylw wedi'i wneud yn Saesneg)*

Cafodd y potensial ar gyfer prisiau uwch am wyliau **teuluol** yn y gwyliau haf byr o dair wythnos ei grybwyll ymhlith cyfranogwyr hefyd, a'r ffaith y gallai effeithio'n fwy ar deuluoedd mewn cymunedau amddifadus. Ar ben hynny, gallai tair wythnos o wyliau yn yr haf annog rhieni i dynnu eu plant o'r ysgol yn ystod y tymor. Byddai manteision yr oedd llawer o **deuluoedd** yn eu mwynhau o'r gwyliau haf hwy'n cael eu colli (e.e. ymweld â theulu dramor).

Fe wnaeth nifer fach o rieni'r sylw mai ychydig iawn o'r gwyliau ym model C oedd i'w gweld fel pe baent yn cynnwys y gwyliau banc neu unrhyw un o ddigwyddiadau diwylliannol allweddol Cymru, heblaw am yr Eisteddfod Genedlaethol. Roeddent yn meddwl y byddai'n mynd â **gwyliau blynyddol rhieni sy'n gweithio** a hynny'n gyflymach nag ar hyn o bryd.

> *Y broblem dwi'n gweld hefyd yw, mae patrwm 'ma, neu byddwn i'n meddwl y rhan fwya' o batrymau tebyg, mae'n colli bron pob un ŵyl banc. Felly mae'r pwynt oedd rhywun 'di neud ynglŷn â gallu cael wthnos hir off tra dim ond yn cael tridiau o wylie, mae fe'n colli y gwylie i gyd heblaw am y Steddfod Genedlaethol. Mae fe jyst i weld yn batrwm sydd ddim yn ffitio gyda'r ffordd 'yn ni'n ymddwyn o gwbl. (Rhiant – sylw a wnaed yn Gymraeg)*

Atodiad A – negeseuon i'r Gweinidog o'r digwyddiadau gyda rhanddeiliaid

Ar ddiwedd y digwyddiadau ar-lein gyda rhanddeiliaid, cafodd cyfranogwyr eu hannog i bostio 'neges i'r Gweinidog' am bwnc diwygio'r flwyddyn ysgol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys cwestiynau yr oedd cyfranogwyr yn teimlo'i bod yn bwysig eu gofyn. Caiff y pwyntiau unigol a wnaed eu darparu isod ac maent wedi'u trefnu'n fras yn ôl thema. Mae'r themâu hyn wedi'u cofnodi yn y prif adroddiad hefyd.

Rhowch dystiolaeth glir i ddangos pam fod angen newid

- Beth yw'r broblem yr ydym yn ceisio'i datrys? Ai newid er mwyn newid yw hyn? Mae'r flwyddyn ysgol bresennol wedi'i gwreiddio'n ddiwylliannol ym mywydau teuluoedd a chymunedau yng Nghymru. Bydd newid yn arwain at dryblith. Rwy'n ei chael yn anodd canfod dadl sylweddol berswadiol o blaid newid.
- Myfyriwch ac eglurwch yn glir pam fod unrhyw newidiadau'n cael eu hawgrymu. Beth yw'r rhesymeg?
- Ar y cyfan, nid yw'r un o'r modelau ABC yn fwy deniadol i'r cyfranogwyr mewn gwirionedd o'i gymharu â'r hyn sydd gennym yn barod.
- Rwy'n credu'n gryf na ddylem newid y calendr ysgol na'r diwrnod ysgol i weddu i anghenion rhieni.
- Byddwch yn ymwybodol o oblygiadau pellgyrhaeddol unrhyw newidiadau i'r flwyddyn ysgol, nid dim ond i ysgolion, ond i rieni, cyflogwyr ac i sectorau eraill gan gynnwys darparwyr gofal plant a fydd yn wynebu heriau recriwtio a chadw staff, gan arwain at ddarpariaeth fwy cyfyngedig i rieni.
- Nid yw bywyd yn gyson, ac mae angen i ni fod yn ofalus nad cysondeb yw'r ysgogiad yn hytrach nag anghenion plant, rhieni ac addysg.
- I roi cyd-destun: byddai model B yn ein gwneud yn gyfartal â De Corea sef y wlad sydd â'r gwyliau haf byrraf yn y byd ar hyn o bryd. Mae'r gwledydd hynny, fel Portiwgal ac UDA, sydd â'r gwyliau haf hwyaf yn defnyddio ysgolion haf a gwersylloedd haf i oresgyn colled dysgu i'r disgyblion tlotaf.

Mae angen newid i gefnogi dysgwyr yn well

- Mae angen ystyried newid gan bod y gwyliau haf hir presennol yn golygu bod pobl ifanc yn colli dysgu (yn enwedig plant iau a'r rhai mewn ysgolion Cymraeg). Mae colli cymorth yn yr ysgol yn ystod y gwyliau i blant mwy agored i niwed a difreintiedig yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u lles, tra byddai gwasgaru gwyliau'n fwy cyfartal yn galluogi teuluoedd a staff i gael amser gwerthfawr i ymlacio a chael eu cefn atynt heb golli momentwm dysgu.
- Mae'r system addysg i fod yn deg. Mae grwpiau sydd ar y cyrion yn dioddef yn anghymesur gyda'r system bresennol felly byddai unrhyw newid i fodel mwy teg yn fuddiol iawn.
- Gydag unrhyw newidiadau, yn rhai radical neu fel arall, cofiwch mai'r disgyblion sy'n profi'r anhawster mwyaf wrth ddysgu ddylai fod yn fwyaf blaenllaw yn eich meddyliau

wrth wneud unrhyw newidiadau ac y dylai'r newidiadau fod o fwy o fantais iddynt na'r hyn a ddarperir gennym ar hyn o bryd. Rhowch ddysgwyr yn gyntaf.

- Rhaid i ni gydnabod y 30% (fwy neu lai) o blant sy'n byw mewn tlodi/ amddifadedd a rhaid i unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol helpu'r plant hyn i oresgyn y rhwystrau a chefnogi eu taith ddysgu.
- Sicrhewch gydweithio agos rhwng darparwyr addysg a gofal plant fel bod e.e. mynediad at safleoedd ysgolion yn ystod y gwyliau ar gyfer gofal plant digonol a bod lles plant yn cael ei flaenoriaethu.

Ffocws ar ofal plant

- Gwnewch yn siŵr bod newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn gyson â newidiadau i'r sector gofal plant.

Ffocws ar ddysgwyr a'r gweithlu addysg

- Mae lles staff a phlant yn hanfodol.
- A fydd unrhyw newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn cael eu hymgorffori mewn colegau chweched dosbarth / Sefydliadau Addysg Bellach? Os na fyddant, bydd llwybrau dilyniant o ysgolion i AB yn anos i'w cynllunio.
- Dylem ystyried dull mwy radical o ran ein ffordd o weithio. Mae recriwtio'n broblem er gwaethaf y ddarpariaeth hael o ran gwyliau ar hyn o bryd. Rydym yn pryderu ynghylch llwyth gwaith arweinwyr – beth am gynnig cyfnod lles o 5 niwrnod i aelodau o'r proffesiwn i gael ei gymryd fel cynnig ychwanegol ar ben y ddarpariaeth gwyliau blynyddol?

Camau gweithredu eraill y mae eu hangen i gefnogi dysgwyr yn well

- Mae cyfle yma i randdeiliaid a darparwyr ddatblygu strategaeth dysgu y tu allan i'r ysgol dros gyfnod hir yr haf.
- Mae cysondeb y model hwn, sef model C, yn well nag eraill ond ni fydd newid dyddiadau'r tymhorau yn unig yn cael effaith enfawr. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ffyrdd eraill o wella deilliannau dysgu yng Nghymru heblaw tincran â'r flwyddyn ysgol.

Hoff ddewisiadau ar gyfer newid

- Mae'r sector Uwchradd yn ffafrio'r syniad o hanner tymor sy'n para am bythefnos er nad yw'r 3 wythnos o wyliau dros y Nadolig mor berthnasol ag ydyw i'r sector Cynradd.
- Byddai cael wythnos ychwanegol cyn arholiadau mis Tachwedd (lleoliadau Uwchradd a Thrydyddol) yn ddefnyddiol; gallai peidio â chael gwyliau hanner tymor ym mis Mai fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth yn yr ysgol ac amser cyswllt cyn arholiadau.
- Roedd lleihau gwyliau'r haf i bum wythnos yn dderbyniol [i berchnogion busnes] ac roedd teimlad bod awgrym i gynyddu'r cyfnod sefydlog o wyliau adeg y Pasg i 3 wythnos yn opsiwn dichonadwy.
- Lle mae'r 4 wythnos o wyliau'n digwydd y tu allan i fis Awst yn bennaf, gallai hyn fod yn broblem. A allai pob gwyliau fod cwpl o wythnosau'n nes ymlaen? Ailystyriwch yr wythnos ychwanegol ym mis Ionawr a'i symud i'r gwanwyn os gwelwch yn dda.

Pryderon cryf ynghylch twristiaeth

- Mae rhai modelau'n drychinebus i'r diwydiant twristiaeth. Daw 80% o incwm twristiaeth gan ymwelwyr o'r DU ac nid ydynt yn mynd i ddod i Gymru rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror. Pe baech yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn heb ymgynghori'n briodol â'r diwydiant twristiaeth, byddai effaith enfawr ar gyfleoedd cyflogaeth pobl ifanc a'r economi wledig.
- Byddai'r modelau amgen yn cael effaith ddifrifol ar y sector Twristiaeth gan na fyddai eu prif gyflogeion tymhorol (pobl ifanc 15 i 18 oed) ar gael i ymgymryd â swyddi yn ystod yr haf ar gyfer y rhai sy'n dal i ymweld yn ystod cyfnod y gwyliau estynedig, traddodiadol. Byddai cynnydd yn y galw am wyliau dros gyfnod byrrach yn anhydrin ac yn dod yn rhy ddrud i lawer. Byddai effaith sylweddol ar amseroedd atyniadau allweddol i dwristiaid, ac ni fyddai nifer o fusnesau'n gallu creu digon o incwm i fod yn hyfyw.
- Mae angen i chi ddeall yr effaith negyddol y bydd unrhyw newidiadau posibl i'r flwyddyn ysgol, yn enwedig gwyliau haf byrrach, yn ei chael ar y sector twristiaeth yng Nghymru.
- O safbwynt twristiaeth, dylid cadw gwyliau hwy dros yr haf.

Effaith ar fusnesau

- Roedd lleihau gwyliau'r haf i bum wythnos yn dderbyniol [i berchnogion busnes] ac roedd teimlad bod awgrym i gynyddu gwyliau sefydlog y Pasg i dair wythnos yn opsiwn dichonadwy.
- Byddai pennu dyddiadau rheolaidd ar gyfer tymhorau ysgol o fudd o ran cynllunio busnes a byddai gwyliau byrrach o gymorth i fusnesau bach a chanolig, yn enwedig i fenywod. Fodd bynnag, mae angen ystyried gofal er mwyn hyfywedd gofal plant/clybiau yn y gwyliau yn ystod gwyliau ysgol wedi'u cwtogi.

Sicrhau nad oes llwyth gwaith ychwanegol i ysgolion

- Ni waeth pa fodel y cytunir arno, fe hoffwn pe bai'r gweinidog yn ystyried darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf heb lwyth gwaith ychwanegol i ysgolion. Mae SHEP yn amhrisiadwy i blant difreintiedig ond mae llawer o waith i ysgolion sy'n golygu mai ychydig iawn o ysgolion sy'n cofrestru.

Sicrhau bod ffactorau diwylliannol yn cael eu hystyried

- Mae llawer o ffactorau'n effeithio ar y penderfyniadau hyn – mae angen ystyried y rhain i gyd a sut y bydd yn effeithio ar wyliau diwylliannol Cymru e.e. Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. A ydym yn ystyried y ffactorau hyn yn ein hystyriaethau ynglŷn â blwyddyn ysgol ddiwygiedig?

Goblygiadau ar gyfer arholiadau a diffyg cysondeb â Lloegr

- Rhaid i ni ystyried y darlun cyfan h.y. y goblygiadau ar gyfer yr amserlen a chanlyniadau arholiadau a.y.b.
- Byddwch yn ymwybodol o effaith unrhyw newidiadau i'r flwyddyn ysgol ar ddysgwyr yng Nghymru, yn enwedig os nad yw'r flwyddyn ysgol yn gyson â'r un yn Lloegr/gweddill y DU, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddysgu a chymwysterau.

- Rhaid i newidiadau i'r flwyddyn ysgol beidio â chael effaith negyddol ar baratoadau a pherfformiad disgyblion Cymru mewn asesiadau ac arholiadau allanol o'u cymharu â'n cymdogion yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â mynediad i Addysg Uwch.
- Sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru'n cael eu rhoi dan anfantais os nad yw newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn gyson â'r flwyddyn ysgol yn Lloegr. (Pennaeth ysgol uwchradd)
- Os byddwn yn newid amseroedd arholiadau fel eu bod yn wahanol i ranbarthau eraill y DU, er y byddai CBAC yn fodlon newid dyddiadau, mae'n annhebygol y byddai byrddau arholi eraill nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru'n fodlon ysgwyddo costau cefnogi gwahanol amserlenni arholiadau. Byddai hyn yn cyfyngu ar y cymwysterau y gall dysgwyr eu dewis. Byddai problemau mawr pe na baem yn gyson â chalendrau ysgolion eraill ledled y DU.
- Barn gref ei bod yn gwbl hanfodol bod rhanbarthau'r DU yn cydweithio ac yn cysoni calendrau.
- Mae ysgolion sy'n ffinio â Lloegr a theuluoedd y plant sy'n mynychu'r ysgolion hynny'n wynebu problemau ychwanegol o ran gofal plant a.y.b. Mae cysondeb yn hollbwysig. Nid yw Cymru'n ynys ac fe amlygwyd y gwahaniaethau hyn yn fawr yn ystod cyfnod y pandemig.
- Mae'n hollbwysig bod ystyriaethau o ran y ffin yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Mae llawer o'n staff ni'n byw yn Swydd Amwythig a'u plant yn cael eu haddysgu yno.

Goblygiadau ar gyfer denu a chadw athrawon

- Pryder go iawn ynghylch sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar recriwtio a chadw staff sydd eisoes yn gryn her; y 'calendr' presennol yw'r rheswm pam fod rhai wedi ymuno â'r proffesiwn felly byddwch yn wyliadwrus o hynny.

Amseriad

- Amser da yn awr i ddiwygio'r gwyliau gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd.

Atodiad B – holiaduron yr arolwg meintiol a chanllawiau trafod testunau'r grwpiau ffocws

Holiadur yr arolwg dysgwyr

Arolwg Blwyddyn Ysgol yng Nghymru / School Year in Wales survey

Mae'r arolwg hwn ar gyfer plant 7-18 oed
Hoffwn glywed barn pobl ifanc am y flwyddyn ysgol a sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u rhannu
Mae'r holiadur hwn yn cael ei gynnal ar gyfer Llywodraeth Cymru
Maent yn awyddus i sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried

This survey is for people aged 7 to 18
We want to find out what they think of the school year and how the school terms and holidays are spread out
It's being carried out for the Welsh Government
They want to make sure that young people's views are heard

A1. Ym mha iaith hoffech chi ateb yr holiadur / Which language would you like to do the survey in?
English / Saesneg
Welsh / Cymraeg

A2.Faint oed ydych chi?
6 neu ieuengach
7 – 11
12-15
16-18
19 a hŷn

Gofynnwch i riant neu warchodwr ateb y cwestiynau nesaf.

A1. Ai chi yw rhiant neu warchodwr y plentyn hwn sydd rhwng 7 a 15 oed?
Ie
Na

A1a. Ai chi yw rhiant neu warchodwr y plentyn hwn sydd rhwng 7 a 18 oed?
Ie
Na

A2. Beth yw eich enw?
Nodwch

A3. A beth yw eich perthynas â'r plentyn?
Rhiant
Mam-gu neu Dad-cu
Gwarchodwr

Arall

A4. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n byw?
Dewiswch un

Blaenau Gwent	Castell-nedd Port Talbot
Pen-y-bont ar Ogwr	Casnewydd
Caerffili	Sir Benfro
Caerdydd	Powys
Sir Gâr	Rhondda Cynon Taf
Ceredigion	Abertawe
Conwy	Torfaen
Sir Ddinbych	Bro Morgannwg
Sir y Fflint	Wrecsam
Gwynedd	Ynys Môn
Merthyr Tudful	Y tu allan i Gymru
Sir Fynwy	

A5. Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio orau galwedigaeth neu statws PRIF ENILLYDD INCWM eich cartref? Os yw'r prif enillydd incwm wedi ymddeol, nodwch y swydd / statws blaenorol.
Dewiswch un.

Uwch-reolwr / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol (e.e. meddyg sefydledig, cyfreithiwr, cyfarwyddwr bwrdd mewn sefydliad mawr (200+ o weithwyr), gwas sifil lefel uchaf / gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus)
Rheolwr / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol canolradd (e.e. newydd gymhwyso (llai na 3 blynedd) fel meddyg, cyfreithiwr, cyfarwyddwr bwrdd mewn sefydliad bach, rheolwr canol mewn sefydliad mawr, prif swyddog yn y gwasanaeth sifil / llywodraeth leol, athro, cyfrifydd)
Goruchwyliwr neu glerc / rheolwr iau / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol (e.e. gweithiwr swyddfa, meddyg dan hyfforddiant, fforman gyda 25+ o weithwyr, gwerthwr, plismon, nyrs, ysgrifennydd, hunangyflogedig)
Gweithiwr llaw medrus (e.e. gosodwr brics, saer, trydanwr, plymwr, peintiwr, gyrrwr bws / ambiwlans, gyrrwr cerbyd nwyddau trwm/trên, patroliwr yr AA, mecanydd medrus)
Gwaith llaw lled neu ddi-grefft (e.e. gweithwyr llaw, pob prentis mewn crefft fedrus, gofalwr, ceidwad parc, gyrrwr cerbyd nad yw'n cludo nwyddau trwm, cynorthwyydd siop, gweithiwr tafarn / bar, gweithiwr ffatri, derbynnydd, llafurwr)
Myfyriwr/addysg lawn amser
Di-waith neu ar fudd-daliadau eraill
Gofalwr
Gwraig/gŵr tŷ

A6. Ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan yn yr holiadur hwn?

Ydw – rhoddaf fy nghaniatâd
Nac ydw – Nid wyf yn rhoi fy nghaniatâd

Trosglwyddwch yn ôl at y plentyn. Os yw'r plentyn rhwng 7 – 11 oed, efallai yr hoffech ei helpu gyda'r cwestiynau.

Bydd yn cymryd oddeutu 10 munud i ateb y cwestiynau hyn.
Bydd popeth y byddwch yn ei ddweud wrthym ni yn cael ei gadw'n gyfrinachol, sy'n golygu na fydd unrhyw un yn gwybod pa atebion yr ydych chi wedi'u rhoi.

Hysbysiad Preifatrwydd Beaufort Research

Beth yw Hysbysiad Preifatrwydd? Mae Hysbysiad Preifatrwydd yn dweud wrthych ba ddata personol yr hoffai Beaufort Research ei gasglu yn eich cylch chi, sut ydym yn ei ddefnyddio a beth allwch chi ei wneud ynghylch hynny.

Pwy ydym ni? Mae Beaufort Research yn gwmni ymchwil i'r farchnad nad yw'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gynnal y gwaith ymchwil hwn ar ei rhan. Y Llywodraeth sy'n gyfrifol am addysg yng Nghymru.

Byddwn yn casglu gwybodaeth ar gyfer ymchwil yn unig, a dim un rheswm arall. Weithiau rydym yn galw'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu yn 'data'. Bydd unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni yn yr holiadur, megis eich oedran a'ch cefndir ethnig, yn cael ei chyfuno gyda gwybodaeth gan bobl eraill yr ydym yn cyfweld â nhw. Byddwn yn adrodd y canlyniadau yn seiliedig ar bob un sy'n cymryd rhan, ac ni fydd modd cysylltu'ch atebion â chi.

Pwy all weld eich data? Rydym yn glynu wrth reolau Cyfraith Diogelu Data. Byddwn yn cadw'r wybodaeth yn eich cylch chi a'ch data yn ddiogel a than glo. Ymchwilwyr Beaufort yn unig fydd yn gweld y data personol hwn. Byddwn yn dileu eich gwybodaeth bersonol 3 mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Beth ydym yn ei wneud â'r data a gasglwn? Rydym yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru a fydd yn cyflwyno safbwyntiau ystod o wahanol grwpiau o bobl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil. Gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r adroddiad ar ei gwefan. Rydym yn sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth bersonol yn yr adroddiad.

Eich hawliau
Dan y gyfraith diogelu data, cewch:
● Ofyn am gael gweld y data personol sydd gan Beaufort Research yn eich cylch chi;
● Dweud wrthym am newid unrhyw beth a allai fod yn anghywir yn y data hwnnw
● Dweud wrthym am beidio â defnyddio'r data, neu ddefnyddio rhannau ohono yn unig
● Gofyn i ni ddileu eich data yn gynharach na'r 3 mis y nodir uchod.
Os hoffech wneud unrhyw rai o'r pethau hyn, gallwch anfon e-bost atom i: dataprotection@beaufortresearch.co.uk neu ysgrifennwch atom ni i Beaufort Research, 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG.

Os nad ydych yn fodlon gyda'n hateb neu os hoffech gyflwyno cwyn, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn sicrhau bod yr holl sefydliadau yn diogelu data pobl yn briodol.

Ticiwch y blwch hwn i nodi yr hoffech gymryd rhan yn yr holiadur

Pa un o'r lluniau hyn sy'n cynnwys coed?
A & C

C & D
A & B
A & D

Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ysgol. Mae 'blwyddyn ysgol' yn golygu sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn.

C1. Pa mor hapus ydych chi gyda sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u strwythuro ar hyn o bryd?

Hapus iawn Hapus Anhapus Anhapus iawn **Ddim yn siŵr**

C2. Pam ydych chi'n anhapus gyda sut mae'r flwyddyn ysgol wedi'i strwythuro ar hyn o bryd?
Nodwch

C3. A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gwneud i'r flwyddyn ysgol a sut mae tymhorau a'r gwyliau wedi'u trefnu?
Nodwch

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y flwyddyn ysgol a gwyliau ysgol?

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Angh-ytuno**	**Angh-ytuno'n gryf**	**Ddim yn berthnasol i mi**	**Ddim yn siŵr**
Rwy'n eithaf bodlon gyda'r flwyddyn ysgol fel y mae hi						
Hoffwn i dymhorau'r ysgol fod yr un hyd ac i bob gwyliau ysgol fod yr un hyd						
Mae'n amser newid y flwyddyn ysgol i gyd-fynd yn well â bywydau pobl erbyn hyn						
Weithiau, mae fy rhiant neu ofalwr yn ei chael hi'n anodd fy ngwarchod i yn ystod gwyliau'r haf oherwydd bod rhaid iddo weithio						
Dylai bob gwyliau ysgol bara 2 wythnos						
Byddai'n well i blant ysgol petai gennym wyliau ysgol byrrach ond yn eu cael yn fwy aml						

C5. Ar hyn o bryd, mae gwyliau haf yr ysgol yn para 6 wythnos. A yw hynny'n...?
Dewiswch un

Rhy fyr
Iawn fel y mae
Rhy hir

C6. Pam ydych chi'n credu bod hynny'n rhy fyr?
Nodwch

C7. Pam ydych chi'n credu bod hynny'n rhy hir?
Nodwch

C8. Beth yw eich barn chi am y syniad o newid y flwyddyn ysgol, fel bod pob tymor yn para yr un nifer o wythnosau, a bod gwyliau haf yr ysgol yn fyrrach?

Syniad da iawn Syniad da Syniad gwael Syniad drwg iawn **Ddim yn siŵr**

C9. Petai'r flwyddyn ysgol yn newid fel bod pob tymor yn para yr un nifer o wythnosau, gallai penwythnos Gŵyl y Banc y Pasg ddigwydd yn ystod tymor yr ysgol. Beth yw eich barn chi am hyn?
Dewiswch un

Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod gwyliau ysgol
Nid wyf yn poeni'r naill ffordd neu'r llall
Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod tymor yr ysgol
Ddim yn siŵr

Nawr, hoffem wybod beth yw eich barn chi ynghylch rhai ffyrdd gwahanol y gallai'r flwyddyn ysgol fod yn y dyfodol. Mae'r ddelwedd hon yn dangos y flwyddyn ysgol yng Nghymru nawr, o ran tymhorau a gwyliau.
190 diwrnod yn yr ysgol
Mae'r Pasg bob amser yn digwydd yn ystod gwyliau Pasg yr ysgol
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

C10. Mae'r ddelwedd isod yn dangos ffordd arall y gallai'r flwyddyn ysgol gael ei strwythuro yn y dyfodol. Mae ganddi 3 thymor hir a'r cwbl yn para oddeutu'r un hyd gyda 5 wythnos o wyliau haf.
190 diwrnod yn yr ysgol
Mae gan bob tymor 1 wythnos o wyliau yn y canol
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Syniad X
Ydych chi'n credu y byddai'r flwyddyn ysgol wahanol hon yn well, yn waeth neu'n ddim gwahanol i'r flwyddyn ysgol fel y mae hi ar hyn o bryd?

Yn well
Dim gwahaniaeth
Yn waeth
Ddim yn siŵr

C11. Mae'r ddelwedd isod yn dangos syniad arall ar gyfer y flwyddyn ysgol. Mae ganddo 5 tymor byrrach a'r cwbl yr un hyd gyda 4 wythnos o wyliau haf.
190 diwrnod yn yr ysgol
Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg yr un dyddiadau bob blwyddyn
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Syniad J

Yn well
Dim gwahaniaeth
Yn waeth
Ddim yn siŵr

C12. Mae'r ddelwedd isod yn dangos syniad arall ar gyfer y flwyddyn ysgol. Mae'n cynnwys 6 thymor byr yn para oddeutu'r un hyd. Mae pob gwyliau ysgol yn para oddeutu 2 wythnos, ar wahân i wyliau'r haf sy'n para 3 wythnos.
190 diwrnod o addysgu
Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg yr un dyddiadau bob blwyddyn
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Syniad T
Ydych chi'n credu y byddai'r flwyddyn ysgol wahanol hon yn well, yn waeth neu'n ddim gwahanol i'r flwyddyn ysgol fel y mae hi ar hyn o bryd?
Yn well
Dim gwahaniaeth
Yn waeth
Ddim yn siŵr

C13. Rydych chi wedi gweld 3 syniad gwahanol ar gyfer y flwyddyn ysgol. Rydych hefyd wedi gweld y flwyddyn ysgol fel y mae hi. Pa un ydych chi'n credu fyddai orau?

Cofiwch fod pob un ohonynt yn cynnwys yr un nifer o ddiwrnodau ysgol a gwyliau.
Dewiswch un

Syniad X: yn cynnwys 3 thymor ysgol yn para oddeutu 13 wythnos. Mae gan bob tymor 1 wythnos o wyliau yn y canol. Mae tymor yr hydref yn fyrrach nag y mae ar hyn o bryd. Ceir 5 wythnos o wyliau haf yn hytrach na 6 wythnos.
Syniad J: yn cynnwys 5 tymor ysgol yn para oddeutu 7 i 8 wythnos. Ceir 4 wythnos o wyliau haf yn hytrach na 6 wythnos.
Syniad T: yn cynnwys 6 thymor ysgol yn para oddeutu 6 i 7 wythnos. Mae pob gwyliau ysgol yn para oddeutu 2 wythnos, ar wahân i wyliau'r haf sy'n para 3 wythnos.
Cadw'r flwyddyn ysgol fel y mae hi, gyda 3 thymor yn para oddeutu 10 wythnos. Mae gan bob tymor 1 wythnos o wyliau yn y canol. Ceir 6 wythnos o wyliau haf.
Dim ffafriaeth / Ddim yn siŵr

C14. Pam ydych chi'n credu mai hwn yw'r gorau?
Nodwch

C15. Pe bai'r flwyddyn ysgol yn cael ei newid fel hyn, pa wahaniaeth (os unrhyw wahaniaeth) ydych chi'n credu y byddai hyn yn ei wneud i'r bobl ganlynol?

	Gwella pethau iddynt	Gwneud dim gwahaniaeth iddynt	Gwaethygu pethau iddynt	Ddim yn siŵr
Dysgwyr yn gyffredinol				

Plant mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd
Plant mewn ysgolion uwchradd a'r chweched dosbarth / colegau addysg bellach
Rhieni a gofalwyr plant
Busnesau sydd â gweithwyr a chanddynt blant oedran ysgol
Athrawon, cynorthwywyr addysgu a phobl sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau addysg bellach

Yn olaf, rhai cwestiynau amdanoch chi, er mwyn i ni rannu'r canlyniadau yn ôl oedrannau gwahanol, lle mae pobl yn byw ac ati.

C16. Pa un o'r canlynol ydych chi'n ei fynychu?

Ysgol
Coleg chweched dosbarth
Coleg addysg bellach
Prifysgol neu gyfleuster addysg uwch arall
Ddim mewn addysg

C17. Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi?

Blwyddyn 2
Blwyddyn 3
Blwyddyn 4
Blwyddyn 5
Blwyddyn 6
Blwyddyn 7
Blwyddyn 8
Blwyddyn 9
Blwyddyn 10
Blwyddyn 11
Blwyddyn 12
Blwyddyn 13

C19. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich rhywedd?

Bachgen / Gwryw
Geneth / Benyw
Arall: (opsiwn i nodi) Nodwch isod pe dymunech
Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Nodwch isod pe dymunech

C20.Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn – Cymraeg, Saesneg, Albanaidd, O Ogledd Iwerddon neu Brydeinig
Gwyn - Gwyddelig
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

Gwyn - Roma
Unrhyw gefndir Gwyn arall
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Asiaidd
Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd
Unrhyw gefndir Asiaidd arall
Du, Du Cymraeg neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd
Du, Du Cymraeg neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd
Unrhyw gefndir Du, Du Cymraeg, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd arall
Grŵp ethnig arall – Arabaidd
Unrhyw grŵp ethnig arall
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

C21.Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n byw?

Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Sir Gâr
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam
Ynys Môn
Y tu allan i Gymru

C22.Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio orau galwedigaeth neu statws PRIF ENILLYDD INCWM eich cartref? Os yw'r prif enillydd incwm wedi ymddeol, nodwch y swydd / statws blaenorol.
Dewiswch un os gwelwch yn dda

Uwch-reolwr / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol (e.e. meddyg sefydledig, cyfreithiwr, cyfarwyddwr bwrdd mewn sefydliad mawr (200+ o weithwyr), gwas sifil lefel uchaf / gweithiwr gwasanaeth cyhoeddus)
Rheolwr / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol canolradd (e.e. newydd gymhwyso (llai na 3 blynedd) fel meddyg, cyfreithiwr, cyfarwyddwr bwrdd mewn sefydliad bach, rheolwr canol mewn sefydliad mawr, prif swyddog yn y gwasanaeth sifil / llywodraeth leol, athro, cyfrifydd)
Goruchwyliwr neu glerc / rheolwr iau / gweithiwr proffesiynol / gweinyddol (e.e. gweithiwr swyddfa, meddyg dan hyfforddiant, fforman gyda 25+ o weithwyr, gwerthwr, plismon, nyrs, ysgrifennydd, hunangyflogedig)
Gweithiwr llaw medrus (e.e. gosodwr brics, saer, trydanwr, plymwr, peintiwr, gyrrwr bws / ambiwlans, gyrrwr cerbyd nwyddau trwm/trên, patroliwr yr AA, mecanydd medrus)
Gwaith llaw lled neu ddi-grefft (e.e. gweithwyr llaw, pob prentis mewn crefft fedrus, gofalwr, ceidwad parc, gyrrwr cerbyd nad yw'n cludo nwyddau trwm, cynorthwyydd siop, gweithiwr tafarn / bar, gweithiwr ffatri, derbynnydd, llafurwr)
Myfyriwr/addysg lawn amser
Di-waith neu ar fudd-daliadau eraill
Gofalwr
Gwraig/gŵr tŷ

Diolch am eich cymorth. Mae eich safbwyntiau yn hynod bwysig a byddant yn ddefnyddiol iawn i Lywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau ynghylch y flwyddyn ysgol yng Nghymru.

Cliciwch ar y [tic] isod i gwblhau'r holiadur.

Holiadur y gweithlu addysg

Arolwg Blwyddyn Ysgol yng Nghymru / School Year in Wales survey
Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed safbwyntiau athrawon a'r gweithlu addysg ynghylch y calendr ysgol. Bydd y canlyniadau yn sail i'r drafodaeth yn ymwneud â strwythur y flwyddyn ysgol yn y dyfodol yng Nghymru.

The Welsh Government is keen to find out teachers' and the education workforce's views on the school calendar. The results will inform the discussion on the future structure of the school year in Wales.

Ym mha iaith hoffech chi ateb yr holiadur / Which language would you prefer for the survey?

English / Saesneg
Welsh / Cymraeg

Bydd yr holiadur yn cymryd oddeutu 10 munud i'w gwblhau. Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

A ydych chi'n gweithio yn y sector addysg ar hyn o bryd?
Ydw
Nac ydw

Hysbysiad Preifatrwydd Beaufort Research

Mae Beaufort Research yn fusnes ymchwil i'r farchnad ac ymchwil cymdeithasol annibynnol yng Nghaerdydd. Byddwn yn casglu gwybodaeth fel rhan o'r holiadur at ddibenion ymchwil yn unig. Bydd unrhyw wybodaeth megis oedran, rhywedd ac ethnigrwydd yn cael eu cyfuno â gwybodaeth gan bobl eraill yr ydym yn cyfweld â nhw, er mwyn cofnodi canfyddiadau ymchwil ymysg grwpiau cyfansymiol (e.e. 35-54 oed, dynion, etc). Ni ellir defnyddio eich atebion i'r cwestiynau hyn i'ch adnabod chi'n bersonol.

Mae'r holl fanylion yn cael eu storio'n ddiogel ar ein gweinyddion a dim ond staff Beaufort sydd ynghlwm â phrosiectau ymchwil all eu gweld. Ni rennir eich manylion ag unrhyw sefydliad arall.

Bydd unrhyw fanylion y gellir eu defnyddio i'ch adnabod yn cael eu cadw am gyfnod dim hirach na 3 mis ar ôl diwedd y prosiect, ond pe dymunech i'r rhain gael eu tynnu oddi ar ein systemau ar unrhyw bryd, gallwch anfon e-bost i dataprotection@beaufortresearch.co.uk i'n hysbysu. Yn ogystal, mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad at unrhyw ddata sydd gennym yn eich cylch chi.
- Cywiro unrhyw anghywirdebau mewn data sydd gennym yn eich cylch chi.
- Cyfyngu unrhyw brosesu ar ddata sydd gennym yn eich cylch chi.

Gallwch wneud hyn drwy anfon e-bost i dataprotection@beaufortresearch.co.uk neu drwy ysgrifennu atom ni i Beaufort Research, 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG.

Os nad ydych yn fodlon ag ymateb Beaufort, neu eich bod yn credu nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Cyflwyno Cwyn | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

A allwch chi gadarnhau eich bod yn fodlon i ni gymryd rhan

Pa un o'r lluniau hyn sy'n cynnwys coed?
A & C
C & D
A & B
A & D

Fel y gwyddoch, mae'r flwyddyn ysgol yng Nghymru wedi'i strwythuro i gynnwys 3 thymor:
tymor y gaeaf, sef rhwng mis Medi a mis Rhagfyr
tymor y gwanwyn, sef rhwng mis Ionawr a mis Mawrth/Ebrill (yn dibynnu ar ba bryd mae'r Pasg)
tymor yr haf, sef rhwng mis Ebrill a chanol mis Gorffennaf.

Ym mhob tymor, mae wythnos o wyliau hanner tymor. Ar ddiwedd tymor y gaeaf a'r gwanwyn (Nadolig a'r Pasg) mae 2 wythnos o wyliau ac ar ddiwedd tymor yr haf mae 6 wythnos o wyliau.

C1. Pa mor briodol ydych chi'n credu yw strwythur presennol y flwyddyn ysgol i fywydau pobl erbyn hyn?
Priodol iawn
Gweddol briodol
Ddim yn briodol iawn
Ddim yn briodol o gwbl

Ddim yn gwybod / amherthnasol / ddim yn berthnasol i mi

C2. Pam ydych chi'n dweud hynny?
Nodwch

C3a. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y flwyddyn ysgol bresennol yn cefnogi dilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr ac yn mynd i'r afael ag anfantais?
Cytuno'n gryf
Cytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

C3b. Pa newidiadau, os unrhyw rai, fyddech chi'n hoffi eu gweld i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru?
Nodwch

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol ynghylch y flwyddyn ysgol a'r gwyliau ysgol presennol?

	Cytuno'n gryf	**Cytuno**	**Ang-hytuno**	**Anghytuno'n gryf**	**Amherthnasol**	**Ddim yn gwybod**
Byddai'n well gennyf weld pob rhan o Gymru yn cael union yr un dyddiadau o ran gwyliau a thymhorau'r ysgol						
Rwy'n eithaf bodlon gyda'r flwyddyn ysgol fel y mae hi						
Byddai'n dda cael patrwm mwy cyson o ran tymhorau a gwyliau ysgol, yn hytrach na thymhorau a gwyliau sy'n para am gyfnodau amrywiol						
Mae'n amser newid y flwyddyn ysgol er mwyn adlewyrchu bywyd modern						
Mae hyd gwyliau haf presennol yr ysgol yn gwneud gofal plant yn anodd i rieni sy'n gweithio						
Dylai bob gwyliau ysgol bara 2 wythnos						
Byddai gwyliau ysgol byrrach a mwy rheolaidd yn well i blant a dysgwyr						
Byddai gwyliau ysgol byrrach a mwy rheolaidd yn well i weithlu ysgolion						

C5. Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi eich safbwynt ynghylch y gwyliau haf presennol sy'n para 6 wythnos?
Dylai fod yn llawer byrrach
Dylai fod ychydig byrrach
Mae'n iawn fel y mae
Dylai fod ychydig hirach
Dylai fod llawer hirach

C6. Pam ydych chi'n dweud hynny?
Nodwch

C7. Pam ydych chi'n dweud hynny?
Nodwch

C8. A fyddech chi o blaid gwneud newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru, er mwyn gwneud pob tymor yr un hyd ac i fyrhau gwyliau haf ysgolion?

O blaid y syniad yn gryf
O blaid y syniad
Dim barn y naill ffordd neu'r llall
Yn erbyn y syniad
Yn erbyn y syniad yn gryf

C9. Pam ydych chi'n dweud hynny?
Nodwch

C10. Pam ydych chi'n dweud hynny?
Nodwch

C11. Petai newidiadau yn cael eu gwneud i'r flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y tymhorau o'r un hyd, mae'n bosibl y byddai penwythnos Gŵyl y Banc y Pasg yn ystod tymor ysgol. Beth yw eich barn ar hyn?

Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod gwyliau ysgol
Dim barn y naill ffordd neu'r llall
Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod tymor ysgol

Nawr, hoffem gael eich safbwyntiau ynghylch rhai newidiadau posibl i'r flwyddyn ysgol bresennol. Dyma ddelwedd sy'n crynhoi'r sefyllfa bresennol o ran tymhorau a gwyliau'r ysgol yng Nghymru.

190 diwrnod o addysgu
Mae'r Pasg (dyddiad yn amrywio o 22 Mawrth – 25 Ebrill) bob tro yn digwydd yn ystod gwyliau Pasg yr ysgol
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

C12. Gall un newid posibl o ran strwythur y flwyddyn ysgol gynnwys 3 thymor cyfartal (hir) gyda 5 wythnos o wyliau haf.

190 diwrnod o addysgu
1 wythnos o wyliau hanner tymor ym mhob tymor
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Opsiwn X
Beth yw eich barn ar y strwythur arall posibl hwn ar gyfer y flwyddyn ysgol yng Nghymru – ydych chi'n credu y byddai'n well, yn waeth neu'n ddim gwahanol i'r flwyddyn ysgol bresennol?

Llawer gwell
Ychydig gwell
Dim gwahaniaeth
Ychydig yn waeth

Llawer gwaeth
Ddim yn gwybod

C13. Gall un newid posibl o ran strwythur y flwyddyn ysgol gynnwys 5 tymor cyfartal gyda 4 wythnos o wyliau haf.
190 diwrnod o addysgu
Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg yn digwydd yr un adeg bob blwyddyn
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Opsiwn J
Beth yw eich barn ar y strwythur arall posibl hwn ar gyfer y flwyddyn ysgol yng Nghymru – ydych chi'n credu y byddai'n well, yn waeth neu'n ddim gwahanol i'r flwyddyn ysgol bresennol?
Llawer gwell
Ychydig gwell
Dim gwahaniaeth
Ychydig yn waeth
Llawer gwaeth
Ddim yn gwybod

C14. Gall un newid posibl o ran strwythur y flwyddyn ysgol gynnwys 6 thymor eithaf cyfartal, gyda gwyliau ysgol yn para oddeutu 2 wythnos ac eithrio 3 wythnos o wyliau haf.
190 diwrnod o addysgu
Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg yn digwydd yr un adeg bob blwyddyn
Yn y diagram, mae gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, a melyn yn cynrychioli gwyliau ysgol

Opsiwn T
Beth yw eich barn ar y strwythur arall posibl hwn ar gyfer y flwyddyn ysgol yng Nghymru – ydych chi'n credu y byddai'n well, yn waeth neu'n ddim gwahanol i'r flwyddyn ysgol bresennol?
Llawer gwell
Ychydig gwell
Dim gwahaniaeth
Ychydig yn waeth
Llawer gwaeth
Ddim yn gwybod

C15. A chithau wedi gweld y 3 newid posibl i batrwm y flwyddyn ysgol, yn ogystal â'r patrwm presennol, pa un sydd orau gennych ar gyfer y dyfodol?
Opsiwn X: 3 thymor eithaf cyfartal yn para oddeutu 13 wythnos gydag 1 wythnos o wyliau hanner tymor ar gyfer pob un – 5 wythnos o wyliau haf yn hytrach na 6, a thymor byrrach yn yr hydref
Opsiwn J: 5 tymor eithaf cyfartal yn para oddeutu 7 i 8 wythnos - 4 wythnos o wyliau haf yn hytrach na 6
Opsiwn T: 6 thymor eithaf cyfartal yn para oddeutu 6 i 7 wythnos – gyda phob gwyliau ysgol yn para oddeutu pythefnos ac eithrio 3 wythnos o wyliau haf
Cadw'r flwyddyn ysgol fel y mae hi
Dim ffafriaeth / ddim yn gwybod

C16. Pam ydych chi'n ffafrio hynny?
Nodwch

C17. Pe bai'r flwyddyn ysgol yn cael ei newid fel hyn, sut ydych chi'n credu y byddai hyn yn effeithio'r mathau canlynol o bobl (os o gwbl)?

	Gwella pethau iddynt	Gwneud dim gwahaniaeth iddynt	Gwaethygu pethau iddynt	Ddim yn gwybod
Dysgwyr yn gyffredinol				
Plant mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd				
Plant mewn ysgolion uwchradd a'r chweched dosbarth / addysg bellach				
Rhieni a gofalwyr plant				
Cyflogwyr sydd â gweithwyr a chanddynt blant oedran ysgol				
Athrawon, arbenigwyr addysg a phobl sy'n gweithio mewn ysgolion ac addysg bellach				

Yn olaf, ychydig o gwestiynau amdanoch chi at at ddibenion dadansoddi.

C18. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich swydd bresennol?

Pennaeth / dirprwy bennaeth / pennaeth cynorthwyol
Pennaeth adran neu bennaeth blwyddyn
Athro
Cynorthwyydd addysgu
Arall
Nodwch

C19. Pa mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector addysg?

1-2 flynedd
3-5 mlynedd
6-10 mlynedd
11-20 mlynedd
21-30 mlynedd
31 o flynyddoedd neu fwy

C20. Beth yw oedran y plant yr ydych chi'n gweithio gyda nhw?
Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Oedran cyn-ysgol
Oedran meithrinfa neu ysgol gynradd
Oedran ysgol uwchradd
Oedran chweched dosbarth / coleg AB (16-18)

C21. A yw unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi?
Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Rwy'n gweithio gyda dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
Rwy'n gweithio mewn ysgol arbennig

Rwy'n gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion
Dim un o'r rhain

C22. Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n gweithio?

Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerffili
Caerdydd
Sir Gâr
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Torfaen
Bro Morgannwg
Wrecsam
Ynys Môn
Y tu allan i Gymru

C23. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich rhywedd?

Gwryw
Benyw
Arall: (opsiwn i nodi) nodwch isod pe dymunech
Byddai'n well gennyf beidio â dweud
Nodwch isod pe dymunech

C24. Pa grŵp oedran ydych chi'n perthyn iddo?

16-24
25-34
35-44
45-54
55-64
65+
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

C25. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn – Cymraeg, Saesneg, Albanaidd, O Ogledd Iwerddon neu Brydeinig
Gwyn - Gwyddelig

Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
Gwyn - Roma
Unrhyw gefndir Gwyn arall
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribïaidd
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd
Cymysg neu Aml-ethnig - Gwyn a Du Asiaidd
Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig – Bangladeshaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd
Asiaidd, Asiaidd Cymraeg neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd
Unrhyw gefndir Asiaidd arall
Du, Du Cymraeg neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd
Du, Du Cymraeg neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd
Unrhyw gefndir Du, Du Cymraeg, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd arall
Grŵp ethnig arall – Arabaidd
Unrhyw grŵp ethnig arall
Byddai'n well gennyf beidio â dweud

Diolch am eich cymorth. Mae eich safbwyntiau yn bwysig i ni a byddant yn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Cliciwch ar y [tic] isod i gwblhau'r holiadur.

Cwestiynau arolwg meintiol Omnibws Cymru Beaufort ar gyfer y cyhoedd gan gynnwys rhieni / gofalwyr a busnesau

Nawr, ambell gwestiwn ynghylch y flwyddyn ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r flwyddyn ysgol yng Nghymru wedi'i strwythuro yn ôl tri thymor:

- **tymor y gaeaf, sef rhwng mis Medi a mis Rhagfyr**
- **tymor y gwanwyn, sef rhwng mis Ionawr a mis Mawrth/Ebrill (yn dibynnu ar ba bryd mae'r Pasg)**
- **tymor yr haf, sef rhwng mis Ebrill a chanol mis Gorffennaf.**

Ym mhob tymor, mae wythnos o wyliau hanner tymor. Ar ddiwedd tymor y gaeaf a'r gwanwyn (Nadolig a'r Pasg) mae pythefnos o wyliau ac ar ddiwedd tymor yr haf mae chwe wythnos o wyliau.

C1. Pa mor briodol ydych chi'n credu yw strwythur presennol y flwyddyn ysgol i fywydau pobl erbyn hyn?

Priodol iawn
Gweddol briodol
Ddim yn briodol iawn – Gofynnwch C2
Ddim yn briodol o gwbl – Gofynnwch C2

Ddim yn gwybod / amherthnasol / ddim yn berthnasol i mi

Os atebwyd ddim yn briodol iawn / ddim yn briodol o gwbl

C2 Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Gofynnwch yr holl gwestiynau

C3. Pa mor dda mae patrwm cyfredol y flwyddyn ysgol yn cyd-fynd â'ch ymrwymiadau teulu neu waith?

Da iawn
Yn weddol dda
Ddim yn dda iawn – Gofynnwch C4
Ddim yn dda o gwbl – Gofynnwch C4

Ddim yn gwybod / amherthnasol / ddim yn berthnasol i mi

Os atebwyd ddim yn dda iawn / ddim yn dda o gwbl

C4. Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Gofynnwch yr holl gwestiynau

C5. Pa newidiadau, os unrhyw rai, fyddech chi'n hoffi eu gweld i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru? *Nodwch*

_____

C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol ynghylch y flwyddyn ysgol a'r gwyliau ysgol presennol?

Sicrhewch fod trefn y datganiadau ar hap	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Amher-thnasol	Ddim yn gwybod
Byddai'n well gennyf weld pob rhan o Gymru yn cael union yr un dyddiadau o ran gwyliau a thymhorau'r ysgol						
Rwy'n eithaf bodlon gyda'r flwyddyn ysgol fel y mae hi						
Byddai'n dda cael patrwm mwy cyson o ran tymhorau a gwyliau ysgol, yn hytrach na thymhorau a gwyliau sy'n para am gyfnodau amrywiol						

Mae'n amser newid y flwyddyn ysgol er mwyn adlewyrchu bywyd modern						
Mae hyd gwyliau haf presennol yr ysgol yn gwneud gofal plant yn anodd i rieni sy'n gweithio						
Dylai bob gwyliau ysgol bara pythefnos						
Byddai gwyliau ysgol byrrach a mwy rheolaidd yn well i blant a dysgwyr						

C7. Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi eich safbwynt ynghylch y gwyliau haf presennol sy'n para chwe wythnos? *Dewiswch un*
(Graddfa i'w newid rhwng cyfweliadau)

Dylai fod yn llawer byrrach - Gofynnwch C8
Dylai fod ychydig byrrach - Gofynnwch C8
Mae'n iawn fel y mae - Ewch i C10
Dylai fod ychydig hirach - Gofynnwch C9
Dylai fod llawer hirach - Gofynnwch C9

Os atebwyd byrrach
C8. Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Os atebwyd hirach
C9. Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Gofynnwch yr holl gwestiynau
C10. A fyddech chi o blaid gwneud newidiadau i strwythur y flwyddyn ysgol yng Nghymru, er mwyn gwneud pob tymor yr un hyd ac i fyrhau gwyliau haf ysgolion?
Dewiswch un
(Graddfa i'w newid rhwng cyfweliadau)

O blaid y syniad yn gryf - Gofynnwch C11
O blaid y syniad - Gofynnwch C11
Dim barn y naill ffordd neu'r llall - Ewch i C13
Yn erbyn y syniad - Gofynnwch C12
Yn erbyn y syniad yn gryf - Gofynnwch C12

Os atebwyd o blaid
C11. Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Os atebwyd yn erbyn

C12. Pam ydych chi'n dweud hynny? *Nodwch*

_____

Gofynnwch yr holl gwestiynau

C13. Petai newidiadau yn cael eu gwneud i'r flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y tymhorau o'r un hyd, mae'n bosibl y byddai penwythnos Gŵyl y Banc y Pasg yng nghanol tymor. Beth yw eich barn ar hyn? *Dewiswch un*
(Graddfa i'w newid rhwng cyfweliadau)

Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod gwyliau ysgol
Dim barn y naill ffordd neu'r llall
Byddai'n well gennyf petai'r Pasg yn ystod tymor ysgol

C14. Petai newidiadau yn cael eu gwneud i'r flwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod y tymhorau o'r un hyd a'r gwyliau haf yn fyrrach, sut ydych chi'n credu y byddai hyn yn effeithio'r mathau canlynol o bobl (os o gwbl)?

	Gwella pethau iddynt	Gwneud dim gwahaniaeth iddynt	Gwaethygu pethau iddynt	Ddim yn gwybod
Dysgwyr yn gyffredinol				
Plant mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd				
Plant mewn ysgolion uwchradd a'r chweched dosbarth / addysg bellach				
Rhieni a gofalwyr plant				
Cyflogwyr sydd â gweithwyr a chanddynt blant oedran ysgol				
Athrawon, arbenigwyr addysg a phobl sy'n gweithio mewn ysgolion ac addysg bellach				

DOSBARTHIAD

Gofynnwch yr holl gwestiynau

C15. A ydych yn rhiant, gwarcheidwad neu'n ofalwr rheolaidd plentyn neu unigolyn ifanc 18 oed neu iau? *Dewiswch un*

Ydw – rhiant
Ydw – gwarcheidwad
Ydw – gofalwr (nain neu daid)
Ydw – gofalwr (arall)
Nac ydw

Os atebwyd ydw yn C15

Q16. Beth yw oedran y plentyn / plant sydd gennych chi neu ydych chi'n gofalu amdano / amdanynt? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

Oedran cyn-ysgol
Oedran meithrinfa neu ysgol gynradd
Oedran ysgol uwchradd
Oedran chweched dosbarth / coleg AB (16-18) - Gofynnwch C17

Os atebwyd oedran chweched dosbarth / coleg AB

C17. A ydyw / ydynt yn dal i fod mewn addysg lawn amser?

Ydy
Nac ydy

Gofynnwch a ydyw / ydynt yn gweithio'n llawn amser / rhan amser / hunangyflogedig

C18. Pa rai o'r canlynol, os unrhyw rai, sy'n berthnasol i chi? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol*
Rwy'n berchennog ar fusnes
Rwyf mewn swydd uwch o ran gwneud penderfyniadau yn fy ngweithle
Rwy'n rheolwr llinell neu'n oruchwyliwr gweithwyr eraill yn fy ngweithle
Rwy'n athro, arbenigwr addysg arall neu'n gweithio mewn ysgol neu goleg addysg bellach

Dim un o'r rhain

Canllaw pwnc grwpiau ffocws dysgwyr

A. Cyflwyniadau (10 munud)

1. *Diolchwch i'r cyfranogwyr am fod yn bresennol. Cyflwynwch eich hun a Beaufort Research.*

2. Eglurwch nod yr ymchwil: mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ysgol. Mae 'blwyddyn ysgol' yn golygu sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn. Felly ar hyn o bryd, er enghraifft, rydych yn cael gwyliau haf hir, pythefnos o wyliau yn y gaeaf a'r Pasg; ac yna 1 wythnos o wyliau hanner tymor. Rydym eisiau gwybod a ydych yn hoff ar y ffordd hon o drefnu'r tymhorau a'r gwyliau, neu a oes ffyrdd eraill o'u trefnu a fyddai'n eich helpu chi wneud yn well yn yr ysgol ac mewn bywyd.

Bydd yr hyn y byddwch yn ei ddweud wrthyf yn ystod y sgwrs hon yn helpu Llywodraeth Cymru i gynllunio beth i'w wneud gyda'r flwyddyn ysgol yn y dyfodol.

3. A ninnau'n bobl sy'n cynnal grwpiau ffocws, mae gofyn i ni lynu wrth reolau llym iawn ynghylch sut ydym yn mynd ati i'w cynnal. Nid ydym yn sôn wrth unrhyw un ein

bod wedi gofyn i chi gymryd rhan ac nid ydym yn cynnwys enwau yn yr adroddiad yr ydym yn ei lunio ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n nodi ein canfyddiadau.
Hoffwn recordio sain ein sgwrs. Dim ond ni yn Beaufort Research fydd yn defnyddio hwn. Mae'n golygu na fyddwn yn methu unrhyw beth sydd gennych i'w ddweud.
Rydym wedi anfon Hysbysiad Preifatrwydd atoch chi neu'ch gofalwr. Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych sut ydym yn diogelu'ch gwybodaeth bersonol, fel eich enw a rhif ffôn eich rhieni.
Bydd y sgwrs yn para hyd at awr. Nid oes atebion cywir nac anghywir. Mae'n iawn os oes gennych farn wahanol i rywun arall yn y grŵp – rydym eisiau ei chlywed! Mae'n iawn os na allwch feddwl am rywbeth i'w ddweud bob tro. Os ydych yn teimlo bod angen i chi roi'r gorau iddi am unrhyw reswm, mae hynny'n hollol iawn a does dim rhaid i chi roi rheswm.

4. *Cyflwyniadau'r cyfranogwyr:*

- *Enw cyntaf*
- *Hoff bwnc yn yr ysgol*
- *Pwy arall sydd gartref*

B. Safbwyntiau ynghylch y flwyddyn ysgol bresennol (15 mun)

Rhannwch sleid 1 – y flwyddyn ysgol bresennol

5. Gadewch i ni edrych ar y flwyddyn ysgol sydd gennym ar hyn o bryd. Rwyf am ddangos i chi sut mae'r flwyddyn ysgol wedi'i threfnu er mwyn eich atgoffa chi. Dyma 12 mis, yn dechrau gyda mis Medi oherwydd dyna pa bryd mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau. Y rhannau gwyrdd yw'r cyfnodau yr ydych yn eu treulio yn yr ysgol a'r bocsys melyn yw'r wythnosau pan ydych ar wyliau. Mae 3 thymor yn para oddeutu 10 wythnos yr un (ond gall y rhain amrywio o ychydig wythnosau). Yn ôl y gyfraith, rhaid cael 190 diwrnod o addysgu yn y flwyddyn, a dyma sydd gennym yma.

   Trafodwch bob tymor / gwyliau. A oes unrhyw beth yr wyf wedi'i ddweud sydd ddim yn glir iawn?

Rhannwch sleid 2 – y llun sgorio

6. Nesaf, rwyf am ofyn i chi i gyd feddwl am **sgôr allan o 10** i fynegi pa mor hapus ydych chi gyda'r ffordd mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u trefnu dros y flwyddyn bresennol. Mae 10 allan o 10 yn golygu eich bod yn <u>gwbl</u> hapus gyda'r flwyddyn, bod y tymor ysgol yn teimlo'r hyd cywir i chi, ac nad ydych eisiau newid y ffordd mae'r gwyliau wedi'u trefnu. Os ydych yn rhoi sgôr o 1, mae hyn yn golygu eich bod yn <u>casáu'r</u> ffordd mae'r tymhorau a'r gwyliau wedi'u trefnu.

   Beth am i ni fynd rownd y grŵp i weld pa sgoriau ydych chi wedi'u rhoi? Does dim ots os nad ydych chi'n siŵr. *Gofynnwch i bob cyfranogwr roi sgôr ond peidiwch â rhoi pwysau arnynt os nad ydynt yn siŵr*

7. I'r rhai ohonoch sydd wedi rhoi sgoriau **uchel** (e.e. 7+), pam ydych chi'n hapus neu'n weddol hapus gyda'r flwyddyn ysgol fel y mae? *Holwch fwy am beth bynnag a godir fel sy'n briodol:*

- Beth ydych chi'n ei hoffi ynghylch sut mae'r tymhorau a'r gwyliau wedi'u trefnu?
- Beth sy'n dda ynghylch cael 6 wythnos o wyliau'r ysgol yn ystod yr haf?
- A oes unrhyw beth arall yr ydych yn ei hoffi ynghylch y flwyddyn ysgol?

8. I'r rhai ohonoch sydd wedi rhoi sgoriau **is** (e.e. 1-6), pam nad ydych chi mor hapus gyda'r flwyddyn ysgol fel y mae? *Holwch fwy am beth bynnag a godir fel sy'n briodol:*

- Beth nad ydych chi'n ei hoffi ynghylch sut mae'r tymhorau a'r gwyliau wedi'u trefnu?
- Beth sydd ddim gystal ynghylch cael 6 wythnos o wyliau'r ysgol yn ystod yr haf?
- Beth fyddai'n well gennych?

9. A ydych chi'n credu bod aelodau eraill **eich teulu** yn hapus gyda'r flwyddyn ysgol sydd gennym ar hyn o bryd, neu a ydych chi'n credu nad ydynt yn hoff iawn ohoni? *Holwch*

- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda hynny? *Holwch*

10. Rwyf am ddangos i chi rhai pethau **cadarnhaol a negyddol** mae pobl eraill wedi'u dweud am y flwyddyn ysgol. Hoffwn i chi ddweud wrthyf a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â nhw; neu os nad ydych yn siŵr, rydym eisiau gwybod hynny hefyd.

Rhannwch sleidiau 3/4 – manteision / anfanteision

11. *(Dangoswch a darllenwch y manteision yn gyntaf)* Yn gyntaf, a oes unrhyw rai yn y rhestr hon yr ydych yn cytuno gyda nhw? *Efallai y byddwch wedi trafod rhai ohonynt eisoes. Holwch fel sy'n briodol e.e.:*

- Pam ydych chi'n cytuno â hynny?
- A oes unrhyw rai yma yr ydych chi'n credu sy'n **bwysig** iawn? Pam hynny?
- A oes unrhyw rai yma **nad** ydych yn cytuno gyda nhw? Pam hynny?

12. Felly a oes unrhyw un ohonoch wedi **newid eich barn** ynghylch y flwyddyn ysgol bresennol ac a ydych yn credu ei bod yn iawn fel y mae ai peidio? *Holwch am unrhyw newid a pham*

- A ydych chi'n credu ei bod yn bwysig i **Lywodraeth Cymru** ymchwilio i bennu a oes ffyrdd gwell o drefnu'r flwyddyn ysgol, ai peidio? *Ysgogwch*
    - A ydych chi'n credu y gallai newid y flwyddyn ysgol **wella** sut ydych chi'n dygymod yn yr ysgol a'ch llesiant, neu a ydych chi'n credu **na fyddai'n gwneud gwahaniaeth**? *Holwch*

C. Awgrymiadau digymell ar gyfer model arall (10-15 mun)

13. Ar gyfer y rhan nesaf hon o'r sgwrs, rydym am drafod sut hoffech i'r flwyddyn ysgol fod – felly beth fyddai'n **gweithio orau i chi, i'ch helpu chi i ddygymod orau yn yr ysgol a chael iechyd meddwl a llesiant da**?

Mae'n iawn os oes gennych farn wahanol i rywun arall yn y grŵp. Rydym angen ei chlywed!

Rhannwch sleid 5 – model y cyfranogwyr

Felly dyma ein blwyddyn ysgol. Mae'r gwyrdd yn dangos tymor ysgol, ac mae angen i ni ychwanegu'r darnau melyn, sef gwyliau'r ysgol, at y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni gynnwys 190 diwrnod o addysgu, sy'n gadael oddeutu 12-13 wythnos o wyliau.

Beth am i ni ddechrau gyda **gwyliau'r haf** – sawl wythnos o wyliau fyddai orau i ddysgwyr ysgol yn eich barn chi? *Holwch*

- Sut y dylid trefnu gweddill yr wythnosau sy'n wyliau? *Yn dibynnu ar ba mor siaradus yw'r cyfranogwyr, symudwch ymlaen at wyliau'r gaeaf - holwch am resymau dros y dewisiadau*
- Beth fyddech chi'n ei feddwl pe bai **holl** wyliau'r ysgol yr un hyd wedi'u gwasgaru ar draws y flwyddyn? E.e. 2 wythnos yr un?

14. Yn eich barn chi, beth yw'r **nifer cywir o wythnosau mewn tymor** fyddai'n eich helpu chi i gael y gorau o'ch addysg? *Holwch, gan gynnwys:*

- A ddylai tymhorau'r ysgol fod **yr un** hyd, neu ydych chi'n ansicr ynghylch hynny?
- A oes angen **mwy** o dymhorau ysgol **byrrach**, neu ydych chi'n ansicr ynghylch hynny?

15. Pa mor bwysig yw cael **gwyliau ysgol dros y Pasg** i chi? (Ac eithrio Gwyliau Banc) Pam? *Holwch*

16. Pa mor agos allwn ni ddod at lunio blwyddyn ysgol **mae pob un ohonoch yn cytuno arni?**

- O ystyried yr hyn sydd gennym ni, sut ydych chi'n gweld hyn yn **helpu** dysgwyr?
- A allwch chi weld unrhyw beth yn y cynllun hwn na **fyddai cystal** i ddysgwyr?

D. Ymatebion i fodelau amgen (20-25 munud)

17. Ar gyfer rhan olaf y drafodaeth hon, rwyf am ddangos **tair ffordd wahanol** y gellir trefnu'r flwyddyn ysgol i chi, a hoffwn glywed eich barn am bob un. Cofiwch hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a ddylid defnyddio unrhyw rai o'r ffyrdd hyn. Dim ond enghreifftiau ydynt i ddangos sut all y flwyddyn fod yn wahanol. Rydym eisiau eich **barn chi** i helpu Llywodraeth Cymru gyda'u meddyliau ynghylch y cyfan. Ar y diwedd, byddwn yn edrych ar bob un ohonynt i wneud unrhyw sylwadau terfynol.

Newidiwch drefn y cyflwyniadau yn y 3 grŵp:

Grŵp 1: ABC; Grŵp 2: BCA; Grŵp 3: CAB

Rhannwch sgrin sleid 6/7/8 yn ôl y cylchdro. *Dechreuwch gyda'r cwestiwn priodol.*

18. **Model A:**

- Mae gan y fersiwn hon 3 tymor cyfartal sydd fwy neu lai'n para oddeutu 13 wythnos
- Ceir gwyliau haf sy'n para 5 wythnos yn hytrach na'r 6 wythnos sydd gennym nawr
- Mae'n dechrau fis Medi ac yn para tan ddiwedd Gorffennaf
- Mae dal 190 diwrnod o addysgu

Beth yw eich barn chi am y dull hwn? *Holwch am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- A allwch chi weld unrhyw **fanteision** o ran chi eich hun o fewn y strwythur hwn?
    - Pwy arall fyddai'n manteisio ohono? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- A oes unrhyw **broblemau** allwch chi feddwl amdanynt o ran y dull hwn?
    - A allwch chi feddwl am unrhyw un fyddai'n cael problemau â hyn? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n rhoi iddo allan o 10, o ran pa mor hapus fyddech chi â'r dull hwn?

19. **Model B:**

- Mae gan y fersiwn hon 5 tymor cyfartal gyda 4 wythnos o wyliau haf
- Mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau rhwng dechrau a chanol mis Awst ac yn dod i ben ar ddiwedd Gorffennaf
- Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg ar yr un dyddiadau bob blwyddyn
- Mae dal 190 diwrnod o addysgu

Beth yw eich barn chi am hyn? *Holwch am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- A allwch chi weld unrhyw **fanteision** o ran chi eich hun o fewn y strwythur hwn?
    - Pwy arall fyddai'n manteisio ohono? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- A oes unrhyw **broblemau** allwch chi feddwl amdanynt o ran y dull hwn?
    - A allwch chi feddwl am unrhyw un fyddai'n cael problemau â hyn? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n rhoi iddo allan o 10, o ran pa mor hapus fyddech chi â'r dull hwn?

20. **Model C:**

- Mae gan y fersiwn hon dymhorau cyfartal drwy gydol y flwyddyn, gyda phob gwyliau'n para 2 wythnos (except 3 in the summer). Fe'i elwir yn fodel 'blwyddyn gron'

- Mae’r flwyddyn ysgol yn dechrau ar ddiwedd mis Awst ac yn dod i ben ddiwedd, neu ddechrau mis Awst, gyda 2 wythnos yn y canol
- Mae dal 190 diwrnod o addysgu, ond efallai y ceir mwy gyda’r dull hwn, os yw dysgwyr angen mwy

Beth yw eich barn chi am hyn? *Holwch am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- A allwch chi weld unrhyw **fanteision** o ran chi eich hun o fewn y syniad hwn?
    - Pwy arall fyddai’n manteisio ohono? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- A oes unrhyw **broblemau** allwch chi feddwl amdanynt o ran y dull hwn?
    - A allwch chi feddwl am unrhyw un fyddai’n cael problemau â hyn? E.e. dysgwyr eraill, aelodau eich teulu neu athrawon?
- A allwch chi weld unrhyw broblemau ar gyfer pobl y mae eu **ffydd grefyddol** yn bwysig iddynt, er enghraifft, nid yw’r Pasg yn disgyn o fewn cyfnod y gwyliau ysgol? *Holwch yn sensitif:*
    - A all hyn fod yn heriol i un ohonoch chi?
- Credir y gallai'r dull hwn ddatrys y broblem o ddysgwyr yn **anghofio** yr hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu dros wyliau haf hirach. Efallai **na fydd dysgwyr mor flinedig** tuag at ddiwedd y tymor oherwydd bod y tymhorau’n fyrrach? Beth yw eich barn chi?
- Pa **sgôr** fyddech chi’n rhoi iddo allan o 10, o ran pa mor hapus fyddech chi â’r dull hwn?

Dangos sleid 9 - blwyddyn ysgol bresennol ac opsiynau amgen gyda’i gilydd

21. Yn olaf, dyma'r 3 rydym newydd eu trafod ynghyd â'r flwyddyn sydd gennym ar hyn o bryd. Nawr ein bod wedi’u trafod, **beth yw eich barn derfynol am y flwyddyn ysgol**? *Holwch bob un:*

- A yw eich barn ar y pwnc hwn **wedi newid** ymhellach, nawr ein bod bron â gorffen y drafodaeth? *Holwch bob person*

Dangoswch sleid 10 - cwblhau brawddegau

- Dychmygwch mai chi yw Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, ac rydych yn gyfrifol am beth sy’n digwydd gyda’r flwyddyn ysgol. Beth fyddech chi'n ei wneud? *Holwch cadw? Newid? Os felly, cadarnhewch sut a pham*
    - Pe bai'n rhaid i chi ddewis un, pa un o'r 4 dull hyn fyddai'n well gennych chi **i chi**? *Gofynnwch i bob cyfranogwr*
- Yn eich barn chi, beth fyddai’n well gan **bobl sy’n gweithio mewn ysgolion**?
- A pha un, yn eich barn chi, fyddai **yn gweddu orau i fusnesau** yng Nghymru?

22. Rydym wedi cyrraedd diwedd y drafodaeth - a oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud? Gallwch anfon e-bost ataf wedyn os ydych eisiau rhannu rhagor o bwyntiau.

Diolchwch a dewch â'r sgwrs i ben

Canllaw pwnc grwpiau ffocws rhieni / gofalwyr

A. Cyflwyniadau (10 munud)

1. *Diolchwch i'r cyfranogwyr am fod yn bresennol. Cyflwynwch eich hun a Beaufort Research.*

2. *Eglurwch nod yr ymchwil:* rydym eisiau dysgu beth yw eich barn am y flwyddyn ysgol gyfredol, felly sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u rhannu a sut y gall ei wella i weddu'n well i chi a bywydau eich plant. Bydd eich adborth yn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y pwnc hwn ac yn bwydo i mewn i ymgynghoriad pellach a datblygiad polisi.

3. *Eglurwch God Ymddygiad MRS: tawelwch eu meddwl ynglŷn â chyfrinachedd ac eglurwch ddiben y recordiad sain - i gynorthwyo gyda dadansoddiad Beaufort. Gwiriwch fod cyfranogwyr wedi cael yr hysbysiad preifatrwydd. Sefydlwch unrhyw angen am seibiannau, esboniwch fod manylion cyswllt yr ymchwilydd ar gael ar gyfer unrhyw ymholiadau / sylwadau ychwanegol. Para 60-75 munud.*

4. *Cyflwyniadau'r cyfranogwyr:*
   - *Enw cyntaf*
   - *Pwy sy'n byw yn yr aelwyd*
   - *Nifer y plant ac oed / blwyddyn ysgol*

B. Safbwyntiau ynghylch y flwyddyn ysgol bresennol (20 mun)

5. Gadewch i ni ganolbwyntio'n gyntaf ar y ffordd y mae'r flwyddyn ysgol bresennol wedi'i strwythuro. A allwch chi gyd feddwl am **sgôr allan o 10** i fynegi pa mor hapus ydych chi gyda'r ffordd mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u rhannu dros y flwyddyn ar hyn o bryd? Mae 10 allan o 10 yn golygu eich bod yn gwbl fodlon, bod y flwyddyn ysgol gweddu i chi, eich plant, a'ch bywydau ac mae sgôr o 1 yn golygu nad yw'n gweddu i chi na'ch teulu o gwbl.

   Beth am i ni fynd o amgylch y grŵp i weld pa sgoriau ydych chi wedi'u rhoi? *Gofynnwch i bob cyfranogwr roi sgôr*

6. *Dechreuwch gyda'r sgoriau mwyafrifol, boed yn uwch, yn niwtral, neu'n is a holwch am resymau dros y sgoriau. Sicrhewch fod **manteision** / **anfanteision** yn cael eu cynnwys:*
   - Dywedwch wrthyf **pam** eich bod wedi rhoi sgôr o [x]?
   - Ym mha ffyrdd **mae'r** flwyddyn ysgol gyfredol yn gweddu:
     - I chi'n bersonol?

    - I'ch plentyn/plant?
    - Eich teulu?
- Ym mha ffyrdd **nad yw'r** flwyddyn ysgol gyfredol yn gweddu:
    - I chi'n bersonol?
    - I'ch plentyn/plant?
    - Eich teulu?

Rhannwch sgrin sleid 1 – y flwyddyn ysgol gyfredol

7. Gadewch i ni atgoffa ein hunain o drefn y flwyddyn ysgol gyfredol. Felly, mae yna 3 thymor yn para oddeutu 10 wythnos yr un (ond gall y rhain amrywio o ychydig wythnosau). Mae'n darparu'r 190 diwrnod statudol o addysgu.

   Wrth edrych ar y diagram hwn, a oes unrhyw **fanteision** neu **anfanteision** pellach y gallwch feddwl amdanynt o ran y ffordd y trefnir y flwyddyn ysgol gyfredol a sut mae'n effeithio arnoch chi / eich plant?

Rhannwch sgrin sleid 2 – manteision / anfanteision

8. Rwy'n mynd i ddangos rhai manteision ac anfanteision posibl i chi sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol bresennol (efallai eich bod eisoes wedi trafod rhai ohonynt). Pa un, os o gwbl, sy'n **bwysig**? *Holwch am ymatebion i'w rhestru gan gynnwys;*
   - Beth sy'n gwneud y ffactor hwn yn bwysig i chi?
   - A oes unrhyw beth yma nad yw efallai'n bwysig i chi, ond yn eich barn chi a allai effeithio ar bobl eraill?

9. Felly ar hyn o bryd, a oes unrhyw un ohonoch wedi **newid eich barn** ynghylch y flwyddyn ysgol bresennol a'i haddasrwydd? *Holwch am unrhyw newid a pham*
   - **Pa mor bwysig** ydych chi'n credu yw hi fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes ffyrdd mwy priodol o drefnu'r flwyddyn ysgol i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr yn well; ac adlewyrchu sut mae bywydau a threfn pobl yn newid?

C. Awgrymiadau digymell ar gyfer model amgen (20 munud)

10. Ar gyfer rhan nesaf y drafodaeth, rydym am drafod sut fyddech chi eisiau i'r flwyddyn ysgol edrych – felly beth fyddai'n **gweithio orau i chi, eich plentyn / plant a'ch teulu?** Cofiwch yr hyn rydych chi'n meddwl fyddai orau i gefnogi dysgu a lles eich plentyn/plant, yn ogystal â'r hyn a fyddai'n gweddu i fywyd eich teulu.

    Mae'n iawn os oes gennych farn wahanol i eraill yn y grŵp hefyd. Rydym angen eu clywed!

Rhannwch sgrin sleid 3 – model y cyfranogwyr

Felly dyma ein blwyddyn ysgol. Mae'r gwyrdd yn dangos y tymor ysgol, ac mae angen i ni ychwanegu'r gwyliau ysgol melyn at y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni gynnwys 190 diwrnod o addysgu o hyd, sy'n gadael oddeutu 12-13 wythnos o wyliau.

Dywedwch wrthyf am yr hyn yr hoffech ei weld **yn digwydd**? *Holwch beth bynnag a awgrymir, symudwch yr wythnosau gwyliau o gwmpas yn ôl yr hyn a awgrymir ac i ysgogi trafodaeth e.e.:*

- Gadewch i ni ddechrau gyda gwyliau'r haf – beth fyddai'n fwyaf addas i chi a'ch plentyn / plant? *Holwch*
    - A ddylai fod rhagor o fwlch rhwng wythnosau'r gwyliau?
    - A ddylai pob gwyliau ysgol fod yr un hyd wedi'i wasgaru ar draws y flwyddyn ai peidio?

11. Beth, yn eich barn chi, yw **hyd tymor priodol** ar gyfer dysgwyr? *Holwch, gan gynnwys:*
    - A ddylen nhw i gyd fod yr un hyd ai peidio?
    - A ddylid cael mwy o dymhorau, ond rhai byrrach, ai peidio?

12. Pa mor bwysig yw cael **gwyliau ysgol dros y Pasg** i chi? (Ac eithrio Gwyliau Banc) Pam? *Holwch*

13. Pa mor agos allwn gael at fodel y mae **pawb yn ei dderbyn**?
    - Gan edrych ar yr hyn sydd gennym, sut allai fod o fudd i ddysgwyr yn eich barn chi?
    - A allai fod unrhyw broblemau i ddysgwyr gyda'r dewis arall hwn?

D. Ymatebion i fodelau amgen (25 munud)

14. Ar gyfer rhan olaf y drafodaeth, rwy'n mynd i ddangos **tair ffordd wahanol** gellid trefnu'r flwyddyn ysgol, a hoffwn glywed eich barn am bob un. Cofiwch hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a ddylid datblygu unrhyw un o'r modelau hyn. Dim ond enghreifftiau ydynt i ddangos sut all y flwyddyn fod yn wahanol. Mae gennym ddiddordeb **yn eich barn chi ohonynt** i helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y cyfan. Ar y diwedd, byddwn yn edrych arnynt i gyd gyda'i gilydd ar gyfer unrhyw sylwadau terfynol.

    Dylech gylchdroi'r drefn cyflwyno ar draws y 3 grŵp:
    Grŵp 4: ABC; Grŵp 5: BCA; Grŵp 6: CAB

Rhannwch sgrin sleid 4/5/6 yn ôl y cylchdro *Dechreuwch gyda chwestiwn priodol.*

15. **Model A:**

- Mae gan y fersiwn hwn 3 thymor eithaf cyfartal o thua 13 wythnos
- Ceir gwyliau haf sy'n para 5 wythnos yn hytrach na'r 6 wythnos sydd gennym nawr
- Mae'n dechrau ym mis Medi hyd at ddiwedd Gorffennaf
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod addysgu.

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch fwy am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu gyda'r strwythur hwn?
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **anfanteision**, os o gwbl, all fod ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu?
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all fod dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi allan o 10 am sut y byddai'n gweddu i chi a'ch plant?

16. **Model B:**

- Mae gan y fersiwn hwn 5 tymor eithaf cyfartal gyda 4 wythnos o wyliau haf
- Mae'r flwyddyn ysgol yn dechrau rhwng dechrau a chanol mis Awst ac yn dod i ben ar ddiwedd Gorffennaf
- Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg ar ddyddiau penodol bob blwyddyn
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod addysgu

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch fwy am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu gyda'r strwythur hwn?
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **anfanteision**, os o gwbl, all fod ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu?
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all fod dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- A allwch chi weld unrhyw broblemau i bobl y gallai eu **ffydd crefyddol** fod yn bwysig iddynt, er enghraifft efallai na fydd y Pasg yn disgyn o fewn cyfnod gwyliau ysgol? *Holwch yn sensitif:*
    - A all unrhyw un uniaethu â'r pryder hwn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi allan o 10 am sut y byddai'n gweddu i chi a'ch plant?

17. **Model C:**

- Mae gan y fersiwn hon dymhorau cyfartal drwy gydol y flwyddyn, gyda phob gwyliau'n para 2 wythnos. Fe'i elwir yn fodel 'blwyddyn gron'
- Mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar ddiwedd mis Awst ac yn dod i ben ddiwedd, neu ddechrau mis Awst, gyda 2 wythnos yn y canol
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod addysgu, ond gall hyn gynyddu gyda'r dull hwn

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch fwy am beth bynnag a godir yn cynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu gyda'r strwythur hwn?

    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **anfanteision**, os o gwbl, all fod ar gyfer eich hun / eich plentyn / plant / teulu?
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas all fod dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- A allwch chi weld unrhyw broblemau i bobl y gallai eu **ffydd grefyddol** fod yn bwysig iddynt, er enghraifft efallai na fydd y Pasg yn disgyn o fewn cyfnod gwyliau ysgol? *Holwch yn sensitif:*
    - A all unrhyw un uniaethu â'r pryder hwn?
- Credir y gallai'r dull hwn ddatrys y broblem o ddysgwyr yn **anghofio'r** hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu dros wyliau haf hirach. Hefyd, efallai **na fydd dysgwyr wedi blino cymaint** tua diwedd y tymhorau oherwydd eu bod yn fyrrach. Beth yw eich meddyliau am hyn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi allan o 10 am sut y byddai'n gweddu i chi a'ch plant?

Dangos sleid 7 - y flwyddyn ysgol gyfredol ac opsiynau amgen gyda'i gilydd

18. Yn olaf, dyma'r 3 rydym newydd eu trafod ynghyd â'r flwyddyn sydd gennym ar hyn o bryd. Nawr ein bod wedi'u trafod, **beth yw eich barn derfynol am y flwyddyn ysgol**? *Holwch bob un:*
    - A yw eich barn ar y pwnc hwn **wedi newid** ymhellach, nawr ein bod bron â gorffen y drafodaeth? *Holwch bob person*
    - Pe bai'n rhaid i chi ddewis un, pa un o'r 4 dull hyn fyddai'n well gennych chi **i chi** a'ch plentyn / plant? *Gofynnwch i bob cyfranogwr*
    - Pa un, yn eich barn chi, fyddai orau i **ddysgwyr ysgol** er mwyn cefnogi eu dysg a'u llesiant?
    - Yn eich barn chi, beth fyddai'n well gan **bobl sy'n gweithio mewn ysgolion**?
    - A pha un, yn eich barn chi, fyddai **yn gweddu orau i fusnesau** yng Nghymru?

19. Rydym wedi cyrraedd diwedd y drafodaeth - a oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu? Gallwch anfon e-bost atom wedyn os ydych eisiau rhannu rhagor o bwyntiau.

Diolchwch a dewch â'r sgwrs i ben

Canllaw pwnc grwpiau ffocws gweithlu addysg, cyflogwyr a rhanddeiliaid

A. Cyflwyniadau (10 munud)

1. *Diolchwch i'r cyfranogwyr am fynychu. Cyflwynwch eich hun a Beaufort Research.*

2. *Eglurwch nod yr ymchwil:* rydym eisiau gwybod beth yw eich barn chi am y flwyddyn ysgol gyfredol, felly sut mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u rhannu a sut, os o gwbl, y gall gael ei wella i weddu'n well i ddysgwyr, staff y gweithlu addysg, busnesau

a bywyd teuluol. Bydd eich adborth yn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y pwnc hwn ac yn bwydo i mewn i ymgynghoriad pellach a datblygiad polisi.

3. *Eglurwch God Ymddygiad MRS: sicrhewch fod cyfrinachedd yn bod ac eglurwch y recordiad digidol - i gynorthwyo gyda dadansoddiad Beaufort.* Sicrhewch *fod cyfranogwyr wedi derbyn yr hysbysiad preifatrwydd. Sefydlwch unrhyw angen am seibiannau, esboniwch fod manylion cyswllt yr ymchwilydd ar gael ar gyfer unrhyw ymholiadau / sylwadau pellach. Para 60-75 munud.*

4. *Cyflwyniadau'r cyfranogwyr:*
   - *Enw cyntaf*
   - *Yn fyr: swydd yn y sefydliad / rôl*

B. Safbwyntiau am y flwyddyn ysgol gyfredol (20 mun)

5. Gadewch i ni ganolbwyntio'n gyntaf ar y ffordd y mae'r flwyddyn ysgol gyfredol wedi'i strwythuro. A allwch chi gyd feddwl am **sgôr allan o 10** i fynegi pa mor hapus ydych chi gyda'r ffordd mae tymhorau a gwyliau'r ysgol wedi'u rhannu dros y flwyddyn ar hyn o bryd? Mae 10 allan o 10 yn golygu eich bod yn gwbl fodlon, hyd at sgôr o 1 yn golygu nad ydych yn fodlon o gwbl.

   Beth am i ni fynd rownd y grŵp i weld pa sgoriau ydych chi wedi'u rhoi? *Gofynnwch i bob cyfranogwr roi sgôr*

6. *Dechreuwch gyda'r sgoriau mwyafrifol, boed yn uwch, yn niwtral, neu'n is a holwch am resymau dros y sgoriau. Sicrhewch fod* ***manteision*** */* ***anfanteision*** *canfyddedig yn cael eu cynnwys:*
   - Dywedwch wrthyf **pam** eich bod wedi rhoi sgôr o [x]?
   - Ym mha ffyrdd **mae'r** flwyddyn ysgol gyfredol yn gweddu:
     - I chi'n bersonol?
     - Dysgwyr
     - Eich sefydliad / busnes / aelodau / teuluoedd?
   - Ym mha ffyrdd **nad yw'r** flwyddyn ysgol gyfredol yn gweddu:
     - I chi'n bersonol?
     - Dysgwyr
     - Eich sefydliad / busnes / aelodau / teuluoedd?

Rhannwch sgrin sleid 1 – y flwyddyn ysgol gyfredol

7. Gadewch i ni atgoffa ein hunain o drefn y flwyddyn ysgol gyfredol. Felly, mae yna 3 thymor tebyg yn para oddeutu 10 wythnos yr un (ond gall y rhain amrywio o ychydig wythnosau). Mae'n darparu'r 190 diwrnod statudol o addysgu.

Wrth edrych ar y diagram hwn, a oes unrhyw **fanteision** neu **anfanteision** pellach y gallwch feddwl amdanynt o ran y ffordd y trefnir y flwyddyn ysgol gyfredol?

Rhannwch sgrin sleid 2 – manteision / anfanteision

8. Rwy'n mynd i ddangos rhai manteision ac anfanteision posibl i chi sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ysgol gyfredol (efallai eich bod eisoes wedi trafod rhai ohonynt). Pa un tybed, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sy'n **bwysig**? *Holwch am ymatebion i'w rhestru gan gynnwys;*

   - Beth sy'n gwneud y ffactor hwn yn bwysig i chi?
   - A oes unrhyw beth yma efallai nad yw'n bwysig i chi, ond eich bod o'r farn y gallai effeithio ar bobl eraill?
   - A oes unrhyw beth yma yr ydych yn anghytuno â nhw?

9. Felly ar hyn o bryd, a oes unrhyw un ohonoch wedi **newid eich barn** am y flwyddyn ysgol gyfredol a pha mor addas ydi hi? *Holwch am unrhyw newidiadau a pham*

   - **Pa mor bwysig** ydych chi'n credu yw hi fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes ffyrdd mwy priodol o drefnu'r flwyddyn ysgol i gefnogi dysgu a llesiant dysgwyr yn well; ac adlewyrchu sut mae bywydau a threfn pobl yn newid?

C. Awgrymiadau digymell ar gyfer model amgen (20 munud)

10. Ar gyfer rhan nesaf y drafodaeth, rydym am drafod sut fyddech chi hoffi gweld y flwyddyn ysgol edrych. Cofiwch ystyried beth yr hyn rydych chi'n meddwl byddai'n cefnogi dysgwyr orau, yn ogystal â'r hyn fyddai'n gweddu i chi / eich ysgol / sefydliad / aelodau / busnes.

    Mae'n iawn os oes gennych farn wahanol i eraill yn y grŵp hefyd. Rydym angen eu clywed!

Rhannwch sgrin sleid 3 – model y cyfranogwyr

Felly dyma ein blwyddyn ysgol. Mae'r gwyrdd yn cynrychioli'r tymor ysgol, ac mae angen i ni osod y gwyliau ysgol melyn at y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni gynnwys y 190 diwrnod o addysgu statudol, sy'n gadael oddeutu 13 wythnos o wyliau.

Dywedwch wrthyf beth yr **hoffech ei weld yn digwydd**? *Holwch beth bynnag a awgrymir, symudwch yr wythnosau gwyliau o gwmpas yn ôl yr hyn a awgrymir ac i ysgogi trafodaeth e.e.:*

- Gadewch i ni ddechrau gyda gwyliau'r haf – beth fyddai'n gweithio orau a pham? *Holwch*
  - A ddylai fod rhagor o fwlch rhwng wythnosau'r gwyliau?
  - A ddylai pob gwyliau ysgol fod yr un hyd ac wedi eu gosod ar draws y flwyddyn ai peidio?

11. Beth, yn eich barn chi, yw **hyd tymor priodol** ar gyfer dysgwyr? *Holwch, gan gynnwys:*

- A ddylen nhw i gyd fod yr un hyd ai peidio?
- A ddylid cael mwy o dymhorau, ond rhai byrrach, ai peidio?

12. Pa mor bwysig yw hi i chi bod **gwyliau ysgol dros y Pasg**? (Ac eithrio Gwyliau Banc) Pam? *Holwch*

13. Pa mor agos allwn ni fynd at fodel y mae **pawb yn ei dderbyn**?

- Gan edrych ar yr hyn sydd gennym, sut allai fod o fudd i ddysgwyr yn eich barn chi?
- A allai fod unrhyw broblemau i ddysgwyr gyda'r dewis amgen hwn?

D. Ymatebion i fodelau amgen (25 munud)

14. Ar gyfer rhan olaf y drafodaeth, rwy'n mynd i ddangos **tair ffordd wahanol** i chi y gellid trefnu'r flwyddyn ysgol, a hoffwn glywed eich barn am bob un. Cofiwch hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a ddylid datblygu unrhyw un o'r modelau hyn. Dim ond enghreifftiau ydynt i ddangos sut y gall y flwyddyn fod yn wahanol. Ar y diwedd, byddwn yn edrych ar bob un ohonynt i wneud unrhyw sylwadau terfynol.

Mae'r modelau yn dangos gwahanol ffyrdd o ddosbarthu'r 190 diwrnod addysgu sydd wedi eu gosod yn y rheoliadau Nid oes cynnig i newid y rheoliadau hyn na'r cyfanswm o ddyddiau addysgu.

Newidiwch drefn y cyflwyniadau yn y 3 grŵp:
Grŵp 7: ABC; Grŵp 8: BCA; Grŵp 9: CAB
Grŵp 10: ACB; grŵp 11: CBA
Interview 12: ABC; 13: BCA; 14: CAB; 15: ACB; 16; BAC; 17; CBA; 18: ABC; 19; BCA; 20; CAB; 21: ACB

Rhannwch sgrin sleid 4/5/6 yn ôl y cylchdro. *Dechreuwch gyda chwestiwn priodol.*

15. **Model A:**

- Mae gan y fersiwn hwn 3 thymor eithaf cyfartal o thua 13 wythnos
- Ceir gwyliau haf sy'n para 5 wythnos yn hytrach na'r 6 wythnos sydd gennym ar hyn o bryd
- Mae'n dechrau ym mis Medi hyd at ddiwedd Gorffennaf
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod o addysgu.

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch am beth bynnag sy'n codi gan gynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld i'r strwythur hwn?
    - *Holwch pwy fyddai'n elwa ohono a pham*

    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **rwystrau**, os o gwbl, a all fod?
    - *Holwch rhwystr i bwy fyddai a pham*
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all fod o dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi iddo allan o 10, o ran pa mor fodlon fyddech chi â'r dull hwn?

16. **Model B:**

- Mae gan y fersiwn hwn 5 tymor eithaf cyfartal gyda 4 wythnos o wyliau haf
- Mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng dechrau a chanol mis Awst ac yn dod i ben ar ddiwedd Gorffennaf
- Mae gwyliau'r gaeaf a'r Pasg ar ddyddiau penodol
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod o addysgu

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch am beth bynnag sy'n codi gan gynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld i'r strwythur hwn?
    - *Holwch pwy fyddai'n elwa ohono a pham*
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **rwystrau**, os o gwbl, a all fod?
    - *Holwch rhwystr i bwy fyddai a pham*
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all fod dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- A allwch chi weld unrhyw broblemau i bobl y gallai eu **ffydd grefyddol** fod yn bwysig iddynt, er enghraifft efallai na fydd y Pasg yn disgyn o fewn cyfnod gwyliau ysgol? *Holwch yn sensitif:*
    - A all unrhyw un uniaethu â'r pryder hwn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi iddo allan o 10, o ran pa mor fodlon fyddech chi â'r dull hwn?

17. **Model C:**

- Mae gan y fersiwn hwn dymhorau cyfartal drwy gydol y flwyddyn, gyda phob gwyliau'n para 2 wythnos, ar wahân i 3 yn yr haf. Fe'i elwir yn fodel 'blwyddyn gron'
- Mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar ddiwedd mis Awst ac yn dod i ben ar ddiwedd neu ddechrau mis Awst, gyda 3 wythnos yn y canol
- Mae'n dal i gefnogi 190 diwrnod o addysgu

Beth yw eich barn am y dull hwn? *Holwch am beth bynnag sy'n codi gan gynnwys:*

- Pa **fanteision**, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld i'r strwythur hwn?

    - *Holwch pwy fyddai'n elwa ohono a pham*
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all elwa o'r strwythur hwn?
- Pa **rwystrau**, os o gwbl, a all fod?
    - *Holwch rhwystr i bwy fyddai a pham*
    - Pwy arall o fewn y gymdeithas a all fod dan anfantais o achos y strwythur hwn?
- A allwch chi weld unrhyw broblemau i bobl y gallai eu **ffydd grefyddol** fod yn bwysig iddynt, er enghraifft efallai na fydd y Pasg yn disgyn o fewn cyfnod gwyliau ysgol? *Holwch yn sensitif:*
    - A all unrhyw un uniaethu â'r pryder hwn?
- Credir y gallai'r dull hwn ddatrys y broblem o ddysgwyr, dros wyliau haf hirach, yn **anghofio'r** hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu. Efallai **na fydd dysgwyr wedi blino cymaint** tua diwedd y tymhorau chwaith oherwydd eu bod yn fyrrach. Beth yw eich meddyliau am hyn?
- Pa **sgôr** fyddech chi'n ei roi iddo allan o 10, o ran pa mor fodlon fyddech chi â'r dull hwn?

Dangos sleid 7 - y flwyddyn ysgol gyfredol ac opsiynau amgen gyda'i gilydd

18. Yn olaf, dyma'r 3 rydym newydd eu trafod ynghyd â'r flwyddyn sydd gennym ar hyn o bryd, ar y top. Nawr ein bod wedi'u trafod, **beth yw eich barn derfynol am y flwyddyn ysgol**? *Holwch bob un:*
    - A yw eich barn ar y pwnc hwn **wedi newid** ymhellach, nawr ein bod bron â gorffen y drafodaeth? *Holwch bob person*
    - Pe bai rhaid i chi ddewis un, pa un o'r 4 dull hyn fyddai orau gennych chi i chi? *Gofynnwch i bob cyfranogwr, gwiriwch pam*
    - Pa un, yn eich barn chi, fyddai orau i **ddysgwyr ysgol** er mwyn cefnogi eu dysgu a'u llesiant?
    - Pa un, yn eich barn chi, fyddai orau gan y **gweithlu addysg?**
    - A pha un, yn eich barn chi, fyddai'n **gweddu orau i fusnesau** yng Nghymru?

19. Rydym wedi cyrraedd diwedd y drafodaeth - a oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu? Gallwch anfon e-bost atom wedyn os ydych eisiau rhannu rhagor o bwyntiau.

Diolchwch a dewch â'r sgwrs i ben